Y DRYSORFA.

RHIF. 710.] RHAGFYR, 1889. [LLYFR LIX.

NAOMI A'I THEULU.

GAN Y PARCH. J. H. SYMOND, TOWYN MEIRIONYDD.

CAWN ddau o lyfrau y Bibl—a dim ond dau—o dan enwau merched: sef llyfr Ruth a llyfr Esther. Ac yn llyfr Ruth y ceir hanes Naomi a'i theulu, oedd yn rhai o genedl Israel; ac hefyd hanes Ruth ei hun, yr hon a ddaeth i mewn i'r teulu o blith y Cenedloedd.

Y mae llyfr Ruth yn llawn iawn o addysg a chysur, yn enwedig i bobl sydd yn cael eu hunain yn nghanol siomedigaethau a cholledion. Pruddaidd a gofidus iawn ydyw yr hanes yn y dechreu, ond yn troi allan ymhen amser i fod yn hynod lewyrchus a dedwydd.

Dysgir i ni yn yr hanes fod yr Arglwydd yn goruwchreoli achosion rhai isel ac anghyhoedd yr un mor ofalus ag y mae yn llywodraethu amgylchiadau y mawrion, a dygwyddiadau teyrnasoedd. Ac o dan y fath lywodraeth fanwl, yr ydym yn gweled yn yr hanes fod anghof o'r Llywodraethwr mawr a'i drefniadau yn rhwym o arwain i siomedigaeth a chwerwder. Ni waeth yn y byd pwy fyddo y personau, na pha radd y byddo eu sefyllfa, os byddant wedi gollwng Duw tros gof, a'u cerddediad wedi myned allan o'i lwybr Ef, y mae hyny yn rhwym o gael ei chwerwi iddynt yn fuan neu yn hwyr. "Os anghofiasom enw ein Duw ni, neu estyn ein dwylaw at dduw dyeithr: oni chwilia Duw hyn allan? canys efe a ŵyr dirgeloedd y galon" (Psalm xliv. 20, 21).

Ond dysgir i ni hefyd yn yr hanes pa fodd i fuddio yn briodol ar drallodion bywyd. Gwelir fod y rhai sydd yn cymeryd mantais ar helbulon i ddyweyd, "Deuwch a dychwelwn at yr Arglwydd: canys efe a'n dryll-iodd, ac efe a'n hiachâ ni; efe a darawodd, ac efe a'n meddyginiaetha ni" (Hosea vi. 1)—fod y rhai sydd yn troi o ddifrif at yr Arglwydd yn nghanol eu hadfeilion, yn cael eu hadeiladu drachefn yn rhyfedd a gwych iawn gan y bendigedig a'r unig Benaeth.

Wedi y dryllio a'r chwalu mawr fu ar y teulu yn y wlad bell, yr ydym yn gweled dwy wraig weddw ddiblant, ddiamddiffyn, ddifoddion, ddigartref, yn cael er hyny o dipyn i beth bob dim oedd yn llesol iddynt. A hyny trwy nesu at yr Arglwydd a dyfod i obeithio dan adenydd Duw Israel, a dilyn ei arweiniad a'i gyfarwyddiadau. Byth ar ol eu hadferiad, ni cheir dim yn eu hymddygiadau oedd yn anghydweddol âg ofn yr Arglwydd a pharch i'w orchymynion.

Er y gall rhai dybied, oddiar safle moes-ddefod oesau diweddarach, fod yn y ddwy ddiffyg gofal priodol am ddiweirdeb pur wedi eu dyfodiad i wlad Israel; ond dylid cofio fod llawer o wahaniaeth rhwng arferion yr oes foreu hono ac arferion cymdeithas erbyn hyn. Yr oedd gan y weddw yn Israel hawl i ran cyfathrachwr. Ac nid oeddynt hwythau ill dwy ond ymgyrhaedd mewn dull dirgelaidd am un i gydymffurfio â hwynt i gario allan osodiad o eiddo Duw i'w bobl Israel. Dywed un, "Nid oes dim gwyrthiau

yn cael eu cofnodi yn llyfr Ruth. Nid oes ynddo hanes am dri yn cael eu diogelu yn wyrthiol yn nghanol y ffwrn o dân poeth heb i flewyn o'u pen gael ei ddeifio na dim o sawr y tân fyned arnynt. Ond y mae ynddo hanes tri yn myned trwy dân angerddol o ddyoddefaint a themtasiwn, ac er hyny yn cael eu cadw yn gryfion ac yn bur."

Gadawer i ni, bellach, edrych ar hanes Naomi a'i theulu fel y mae yn gosod allan yr addysgiadau uchod a'u cyffelyb. Gwelwn, yn un peth,

FOD PLANT DUW YN DYFOD I FYNY DRACHEFN GYDA'R ARGLWYDD AR OL IDDYNT DEIMLO YN EDIFEIRIOL YN HERWYDD EU GWRTHGILIADAU. Pan y mae pobl yn cael eu parotoi i gael eu dyrchafu ar ol eu gostwng hyd lawr, y maent yn dyfod i'r un olwg â Duw ar eu bywyd blaenorol. A gallem edrych ar waith Naomi a'i theulu yn cilio o dir Israel i wlad Moab yn engraifft o bobl Dduw yn myned i dir gwrthgiliad—gadael teimladau a chylch crefyddol i fyned i geisio eu siawns i dir y Cenedloedd, ac yn ol dull y byd. Pan y mae teuluoedd neu bersonau unigol yn dirywio ac yn cilio o'u lle, byddant yn rhoddi mwy o bwys ar sicrhau pleserau y bywyd hwn a meddiannau daearol nag ar Dduw a bendithion crefyddol. A thuag at sicrhau eu hamcanion at y byd presennol, byddant yn rhoddi mwy o bwys ar eu rhesymau eu hunain a doethineb y byd hwn nag ar gyfarwyddiadau Duw. Fel yna, yn ol pob tebyg, y bu wrth i'r teulu hwn farnu y gwnaent yn well iddynt eu hunain yn nghanol pobl y byd, nag yn ngwlad y breintiau a'r addewidion.

Oblegid os craffwch wrth ddarllen eu hanes, ni chewch air o son am yr Arglwydd o gwbl pan oedd Naomi ac Elimelech ei gŵr, a'u dau fab oedd wedi tyfu i fyny, yn cychwyn allan o wlad Israel, nac wrth ymsefydlu yn ngwlad Moab, na phan fu farw ei gŵr yno, na phan briododd Mahlon a Chilion, ei dau fab, â dwy o'r Moabeesau—dwy o'r byd, nac ychwaith pan fu farw drachefn ei dau fab yn ngwlad Moab. Nid yw enw yr Arglwydd yn cael ei grybwyll yn eu hanes hyd nes yr anesmwythodd calon Naomi i ddychwelyd i dir Israel. Mae yn wir na ddarfu i'r teulu ddim llwyr anghofio yr Arglwydd yn nghanol eu holl gyd-ymffurfiad â'r byd, ac eto yr oeddynt wedi ymollwng i gryn ddyeithrwch a phellder oddiwrth Ffynnon y dyfroedd byw. Yr hyn a'i gwnaeth yn anghenrheidiol i'r Arglwydd ddefnyddio y naill driniaeth chwerw ar ol y llall at Naomi, i'w dwyn i weled ei chamgymeriad, ac i'w gweithio hi yn nês ato ei hun, ac i droi ei hwyneb yn ol tua thir Israel Duw.

Nid oes neb yn myned i dir gwrthgiliad heb ryw esgus, ac ond odid, i'w tyb hwy ar y pryd, yn esgus digonol. Yr oedd gan Naomi a'i gŵr a'u dau fab eu hesgus. Cyn iddynt adael eu gwlad, yr oedd newyn er ys tro wedi bod yn hylldremu arnynt; a digon tebyg eu bod hwythau wedi gorfod ymadael â'u heiddo tuag at gyfarfod â'u heisieu. Yr oedd hyn yn brawf tost arnynt. Nemawr iawn i'w gael ar y pryd yn nhir Israel, ac yn nghanol breintiau pobl Dduw, ac yn clywed fod mwyniant dros amser i'w gael yn ngwlad y Cenedloedd. A thebyg ydyw eu bod, yn ngwasgfa y prawf, yn colli golwg ar Dduw a'i lywodraeth fanwl ar bob dim, ac yn cymeryd eu gorchfygu gan ofnau ac anghrediniaeth. A phan yn dyweyd eu tywydd wrth rai o'r cymydogion, a bod arnynt flys gadael eu cylch eglwysig, a'u breintiau a'u gwlad, a myned am dymmor i blith y Cenedloedd, digon tebyg eu bod yn cael eu hannog ganddynt i fyned, gan ddadleu o'u hochr mai dyledswydd ar bawb ydoedd darbod dros yr eiddo, ac yn enwedig ei deulu; heb hefyd adgofio iddynt mai mewn cydgordiad â Duw yn unig y mae pob

darbod iawn i fod: "Yn yr hyn y galwyd pob un, frodyr, yn hyny aroseed gyda Duw" (1 Cor. vii. 24).

Ond pan y mae Duw yn dwyn siomedigaethau a cholledion i gyfarfod pobl, y mae yn cau i fyny ffordd eu henciliad â drain, ac yn tynu eu sylw i ddeall na ddylasai fod a wnelont âg unrhyw amcan oedd yn cyfodi o'u meddwl eu hunain, ac heb fod yn ffrwyth ymgynghoriad â'r Arglwydd. Y mae arno eisieu iddynt weled fod pob cam a roddasant o honynt eu hunain i ddianc o'r profiad tanllyd yn gam ar gyfeiliorn. Beth bynag fyddo y prawf, y mae Duw am i'w bobl ddeall y pwysigrwydd o ofalu i ddyfallynu wrtho Ef a'i gyfarwyddiadau yn ddiwahân, deued a ddeuo. Er gwaethaf pob cyfyngderau a dychryn, dylem ofalu i beidio symud o'n lle ond yn ol yr hyn a awgrymir i ni gan yr Arglwydd ei hun, naill ai trwy ei Air a'i Ysbryd, neu trwy ogwydd yr amgylchiadau fydd Ef yn lywodraethu o'n deutu, ac yn rhoddi amnaid i ni o'i ewyllys trwyddynt. Dylem ddal i graffu o hyd ar yr hyn ydyw Duw i'w bobl yn wyneb ei addewidion. Os cychwyn a wnawn yn llaw anghrediniaeth, a than ofal rheswm dynol, bydd raid i ni ddyfod yn ol yn ein galar. Gwelodd Naomi ei gŵr a'i dau fab yn marw yn nghanol llawnder gwlad Moab wedi'r cwbl, a gallasai Duw eu porthi a'u cadw yn fyw yn nghanol prinder gwlad yr addewid. "Nis gwaradwyddir hwy yn amser drygfyd, ac yn amser newyn y cânt ddigon." Ië, ddigon. Yr oedd Naomi a'i theulu, ill pedwar yn myned gyda'u gilydd i dir y Cenedloedd, ac y mae yn bur debyg eu bod yn cynllunio o'r dechreu i ddyfod yn ol gyda'u gilydd ymhen amser; ond marw a chael eu claddu yn y wlad bell ddarfu tri o honynt. Blinderau a cholledion oedd iddynt o hyd yn ngwlad Moab i gymhell edifeirwch a dychweliad i dir Israel.

Ni wellhaodd pethau o gwbl i Naomi tra y parhaodd yn y tir pell. Myned yn waeth waeth yr oedd pethau gyda hi o hyd nes y darfu iddi benderfynu myned yn ol dan gerdded ac wylo i wlad Israel. Mewn canlyniad i edifeirwch a dychweliad i dir rhagorfreintiau pobl Dduw y daeth yr amser cyfaddas iddi ddechreu cael ei dyrchafu gan alluog law Duw. Pwy bynag wnaiff anturio dan ryw esgus i'r wlad bell, dylent gofio y rhaid iddynt dalu costau y wlad y meiddiant fyned i ymdeithio ynddi. Os eir mewn hunan-ewyllys i wlad esgeulusdra o freintiau crefydd, neu i wlad pleser, neu wlad balchder, bydolrwydd, ariangarwch, aflendid, cenfigen, a'r cyffelyb sydd i'w cael yn nhiriogaethau Cenedloedd y byd hwn, bydd rhaid talu costau y wlad a ddewisir i'w thrigiannu. Naill ai yn yr hyn a gymerir oddiarnom, neu ynte yn yr hyn a attelir oddiwrthym rhag dyfod i'n rhan. Ac nid yw dyweyd fel hyn ond aralleiriad o rybudd Moses, "Gwybyddwch y goddiwedda eich pechod chwi." Daw pawb i weled fod costau pob gwlad ddyeithr yn drymach o lawer na'r rhai sydd yn y wlad y mae yr Arglwydd ein Duw yn ei rhoddi i ni. Y mae gwaethaf Iesu Grist yn well na goreu y byd: dirmyg Crist yn fwy golud na thrysorau yr Aipht. A wnaiff pethau wella dim arnom tra y gwnawn ni aros yn nhir gwrthgiliad? Wedi troi yn ol y mae yr Arglwydd yn ein cael yn ddigon agos at ei law i fedru gafael ynom a dechreu ein dyrchafu.

Trwy ddechreu mewn edifeirwch tuag at Dduw y cafodd Naomi adferiad. Os oedd yr Arglwydd yn cael ei guddio o'r golwg yn hanes Naomi a'i theulu ar eu mynediad allan, cawn ei enw yn dyfod i'r golwg ymhob peth ar ddychweliad Naomi yn ol i'w gwlad ei hun. Y peth a barodd iddi feddwl am droi yn ol tua gwlad Israel ydoedd, gweled mai o'r naill golled i'r llall yr oedd o hyd yn ngwlad Moab,

a chlywed "ddarfod i'r Arglwydd ymweled â'i bobl gan roddi iddynt fara." Da iawn ydyw i'r druan a'r helbulus gan dymhestl gael clywed gan rywun am ymweliad yr Arglwydd â'i bobl. Dyna y modd y cawn ni enw yr Arglwydd yn dyfod i fewn gyntaf yn ei hanes, i'w goffa wed'yn o hyd. A dyna hefyd y modd y cafodd Naomi ei chychwyn ar i fyny o'r dyfnder tywyll. Wedi i Dduw Israel gael ei enwi yn ei chlyw, daeth yr aml brofiad tanllyd yn foddion i ailennyn ei chalon tuag ato, ac i'w goleuo i weled mai mewn agosrwydd ato y mae y diogelwch a'r gwir hapusrwydd. Gwnaeth ymdrech i ddangos i Orpah a Ruth, ei merched yn nghyfraith, ragoriaeth Duw Israel ar eilunod gwlad Moab; a bu yn offeryn i ddychwelyd Ruth beth bynag at yr Arglwydd. Cawn Naomi yn gweddïo ar yr Arglwydd ar y ffordd wrth ddychwelyd i'w gwlad, ac yn cyflwyno Orpah a Ruth i'w ofal pan yn eu perswadio i droi yn ol at eu pobl. Ac wedi cyrhaedd yn ol i Bethlehem, ei hen ddinas, y mae hi yn ngwydd ei hen gydnabod yn priodoli pob dim i'r Arglwydd, ond yn unig ei mynediad allan. Dyma ei geiriau wrthynt, "Myfi a aethum allan yn gyflawn, a'r Arglwydd a'm dyg i eilwaith yn wag: paham y gelwch chwi fi Naomi, gan i'r Arglwydd fy narostwng, ac i'r Hollalluog fy nrygu?" Tystiai yn ngwydd ei hen gymydogion ei bod wedi deall oddiwrth y goruchwyliaethau chwerwon a'i cyfarfyddodd fod Duw yn tystiolaethu trwyddynt yn ei herbyn o herwydd ei gwrthgiliadau; a'i bod hithau o'r diwedd wedi dyfod i'r un olwg a Duw, i dystiolaethu yn ei herbyn ei hun. "*Myfi* a aethum allan yn gyflawn." Nid yw yn dwyn i mewn neb arall o'r teulu fel yn rhanog yn y bai o fyned allan. Dichon mai gwraig, wedi ei thwyllo, oedd yn y camwedd. "Myfi a aethum allan o honof fy hun, ac yr wyf er ys amser yn beïo fy hun yn dost am hyny: dylaswn aros fel chwithau gyda'r Arglwydd yn fy ngwlad; a bod yn foddlawn i gymeryd yn nghanol y fath freintiau a'r fath addewidion yr hyn fuasai Ef yn weled yn dda drefnu i mi." Un o ddywediadau Spurgeon ydyw, "Y mae pobl yn hwyrfrydig iawn i ganfod y cysylltiad agos ag sydd rhwng gofid a drwg. A chalon wedi ei dysgyblu gan ras yn unig sydd yn dyfod i *deimlo* hyny. Y mae yn nôd o wir gredadyn pan y mae ei ofidiau yn adgofio iddo ei bechodau, a'i ofidiau a'i ddrwg yn ei yru at ei Dduw."

Addysg arall ellir weled yn yr hanes ydyw, FOD PLANT DUW YN DYFOD I FYNY DRACHEFN GYDA'R ARGLWYDD AR OL DYFOD I DEIMLO EU BOD YNDDYNT EU HUNAIN YN GWBL WAG. "Myfi a aethum allan yn gyflawn, a'r Arglwydd a'm dyg i eilwaith yn wag"—'yn wag o'r cwbl ag oedd yn fy ngwneyd yn gyflawn yn myned allan—yn wag o fy ngŵr, yn wag o fy nau fab, yn wag o'r cynlluniau a'r amcanion, yn wag o'r wedd iraidd, hoyw, oedd arnaf yn myned allan, yn wag o ddeg o flynyddoedd goreu fy oes.' Yr oedd mor wag o'r hyn oedd gynt yn ei meddiant, a golwg mor doredig a helbulus arni, fel mai prin yr oedd ei hen gydnabod yn gallu gwneyd allan mai hi ydoedd Naomi. Dyma ddywedir, "A phan ddaethant i Bethlehem yr holl ddinas a gyffrodd o'u herwydd hwynt; a dywedasant, Ai hon yw Naomi? A hi a ddywedodd wrthynt hwy, Na elwch fi Naomi; gelwch fi Mara: canys yr Hollalluog a wnaeth yn chwerw iawn â mi." 'Nid y peth oeddwn I gynt ydwyf fi erbyn hyn. Gwrthddywediad ydyw gosod arnaf bellach yr enw Naomi sydd yn dwyn yr ystyr 'prydferth.' Nid oes yma ond adfeilion y Naomi gynt. Gelwch fi Mara, sydd yn dwyn yr ystyr 'chwerw.' Gweddw ddiblant, wywedig, oedranus, ddiamddiffyn, ddi-

gartref, ddiadnoddau sydd yma. Ac yn yr ystyr o ddyrysu fy nysgwyliadau I, a myned â hyn a'r llall oedd yn anwyl genyf oddiarnaf, y mae yr Hollalluog wedi gwneyd yn chwerw iawn â mi.' Fel yna yr oedd wedi dyfod i deimlo ei bod ynddi ei hunan yn gwbl wag.

Wel, pam yr oedd Duw yn didoi y tô oedd ganddi uwch ei phen, yn gwneyd ei chartref yn wag, yn chwalu yr holl furiau oedd rhyngddi â'r gwyntoedd a'r cenllysg, ac yn croesi ei holl gynlluniau? Yr hen dŷ oedd ddim wrth fodd y Perchenog mawr, a phenderfynodd ei dynu i lawr. Rhoddodd ei ragluniaeth i ddynoethi y tŷ hyd ei sylfaen. Gwnaeth hi yn gwbl wag—"y seiliau a ddinystriwyd gan ei gerydd Ef, a chan chwythad anadl ei ffroenau." Ond gyda'r amcan grasol, yr un pryd, i symud y rhwystrau i adeiladu yn hanes Naomi dŷ newydd gwych iddi, yn ol ei *blan* ei hun. Gwnaeth hi heb ddim amddiffyn na chynlluniau o'i heiddo ei hun er mwyn iddi ddyfod i obeithio yn unig dan adenydd Duw Israel, a dilyn o ddydd i ddydd ei gynllun mawr Ef. O! pan y mae plant Duw wedi dyfod yn gwbl wag o'u hadnoddau eu hunain ar wahan oddiwrth yr Arglwydd—eu hunan-ewyllys, a'u hunan-resymau, a'u hunan-nerth, a'u hunan-ddybenion, fe fydd gyda hwynt felly waelod dirwystr i Dduw weithio allan ei gynllun grasol yn eu hanes, a chyflawni iddynt oll yn oll.

Addysg arall ellir weled ydyw, FOD PLANT DUW YN DYFOD I FYNY DRACHEFN GYDA'R ARGLWYDD AR OL TEIMLO MAI EFE YN UNIG ALL DDWYN IDDYNT FUDDIOLDEB CYFATEBOL ALLAN O'R GORTHRYMDERAU. Cafodd Naomi yn y wlad bell olwg ar yr Arglwydd fel un digon trugarog a maddeugar i un wedi colli y ffordd a'i ddigio droi ato am ei help; a golwg arno fel Un mor gyfoethog ac ewyllysgar i un heb ddim gael ei chynnal a'i hamddiffyn ganddo ar hyd y ffordd i'w gwlad, a'i chyfodi drachefn ganddo o orddyfnder y ddaear. Yr oedd mor dlawd ar y pryd fel nad oedd ganddi ddim i'w roddi na'i addaw i'w merched yn nghyfraith pan yn eu cymhell ar y ffordd i droi yn ol. Yr oedd mor dywyll arni ar y pryd fel na wyddai beth a ddeuai o honi. Ond gan ei bod yn cyflwyno gofal Orpah a Ruth i'r Arglwydd fel un abl i wneyd i fyny iddynt beth oedd oreu er eu lles, rhaid ei bod yn gwneyd felly gyda golwg arni ei hunan. Yr oedd wedi dyfod i gyflwyno ei gofal ei hun iddo yn llwyr, ac wedi cael lle i obeithio mai "nid yn dragywydd y gwrthyd yr Arglwydd; ond er iddo gystuddio, eto efe a dosturia yn ol amlder ei drugareddau" (Galarnad iii. 31, 32).

Erbyn troi yn ol o'r tir pell, yr oedd perthynas Naomi â'r Arglwydd wedi dyfod mor amlwg fel ag i beri i Ruth feddwl yn uwch o'i chrefydd a'i Duw nag o bawb a phobpeth yn ngwlad Moab. Mynai ddilyn Naomi i wlad Israel, er ei chymhell yn daer ar y ffordd i aros gyda'i phobl, am ei bod yn dirgel gredu mai dilyn yr Arglwydd yr oedd Naomi, ac y deuai daioni o hyny. Ac ni chafodd ei dysgwyliad wrth Dduw yn unig mo'i siomi. Gofalodd yr Arglwydd yn rhyfedd am y ddwy ar hyd y ffordd, yr hyn oedd yn cryfhau eu dysgwyliad na adawai mo honynt wedi eu dyfodiad i wlad Israel.

Bellach, cymerwn gipolwg ar y modd dirgelaidd, graddol, a ddewisodd yr Arglwydd i ddwyn y ddwy wraig weddw trwy yr adfyd at y buddioldeb, ac fel y gwnaeth i ddygwyddiadau eu drygfyd droi yn ddefnyddiau at eu hawddfyd. A chofiwn nad yw hyn ond engraifft o arfer Duw tuag at bob gweddw ac amddifad fydd yn dyfod i obeithio yn gyffelyb dan gysgod ei adenydd. Buddioldeb sicr ac amlwg sydd yn aros pob un a ddaw yn ol at Dduw o'u crwydriadau.

Wel, nid ar unwaith, gyda bod Naomi a'i merch yn nghyfraith wedi cyrhaedd gwlad Israel, yr arweiniwyd hwy at eu gwobrwy, ond o gam i gam. Derbyniad oeraidd, digroesaw, gan ei hen gymydogion gafodd Naomi ar ei dyfodiad yn ol i'w plith. Neb o honynt yn cynnyg ei chynnorthwyo, neb am weini cysur iddi. Hwyrach i'w hen gydnabod fyned i deimlo yn ei herbyn am adael i'w dau fab briodi Moabeesau, a meiddio dwyn un o honynt gyda hi i'w mysg. Ruth yn unig oedd yn glynu wrth Naomi, ac yn gweini i'w hanghenrheidiau trwy lafurio a chardota. Ond tywyllwch cyn i'r wawr dori ydoedd hyny. Yr oedd Duw yn myned i orchymyn i oleuni lewyrchu ar eu ffordd mwyach hyd eu diwedd. Gan fod Naomi wedi dyfod i'w lle o dir gwrthgiliad, a goleuni o'r nef wedi dyfod i mewn i'w meddwl i'w wneyd yn wag o'i dywyllwch ei hun, ac yn para i ddysgwyl wrth yr Arglwydd, yr oedd pethau o'i chwmpas yn rhwym o wella yn raddol.

Daeth Ruth y Moabees trwy ei duwioldeb amlwg yn fuan i orchfygu rhagfarn y bobl, ac i osod ei mam yn nghyfraith eilwaith yn ffafr ei pherthynasau a'i chydnabod. Tynodd duwioldeb Ruth a'i gofal caredig am Naomi sylw a serch Boaz, "Car o ŵr cadarn nerthol o dylwyth Elimelech"—ei thad yn nghyfraith—un o gyfathrach y teulu. A thrwy ddirgel ffyrdd ni a gawn yr Arglwydd yn dwyn pethau oddiamgylch i Boaz briodi Ruth. A daeth Naomi ar unwaith trwy hyny i uwch sefyllfa yn y byd na phe y buasai ei gŵr a'i meibion yn fyw. Dywedodd y gwragedd wrthi am Ruth ar enedigaeth ei phlentyn, "Hon sydd well i ti na saith o feibion." Gosododd Duw y ddwy mewn teulu yr oedd breninoedd yn disgyn o hono: ïe, yr Arglwydd Iesu Grist ei hunan. "A Naomi a gymerth y plentyn, ac a'i gosododd ef yn ei mynwes, ac a fu fammaeth iddo: ac a alwasant ei enw ef Obed; hwn oedd tad Jesse, tad Dafydd." Ac ni raid adgofio i chwi pwy a ymddangosodd yn nghyflawnder yr amser fel Mab Dafydd.

O! yr oedd deng mlynedd yn ngwlad Moab wedi troi Naomi yn Mara, sef troi y melus yn chwerw; ond yr oedd deng mis yn ngwlad Israel wedi troi Mara yn ol i Naomi, hyny yw, troi y chwerw yn felusder. Daeth Duw â Boaz, gŵr cadarn nerthol, ymlaen i fod "yn adferwr einioes iddi, ac yn ymgeleddwr i'w phenwyni." Ac nid oedd cariad Ruth ar ol y fath ddyrchafiad gyda'i hail ŵr yn oeri dim tuag at Naomi (Ruth iv. 11). Erbyn hyny buasai Naomi yn barod i alw ei geiriau yn ol wrth bobl Bethlehem pan ddaeth gyntaf i'w mysg ar ei dychweliad o wlad Moab. "Dywedais wrthych y pryd hwnw yn fy nhrallod, Na elwch fi Naomi ond Mara; canys yr Hollalluog a wnaeth yn chwerw iawn â mi. Ond yrwan erbyn gweled Duw yn goruwchreoli fy ngholledion a'm hadfyd i gyrhaedd y fath ddybenion grasol, na elwch fi Mara, gelwch fi Naomi fel cynt; canys yr Arglwydd a wnaeth yn ardderchog iawn â mi." Hefyd heblaw y melusder a'r helaethrwydd oedd Naomi wedi dyfod ei hun yn brofiadol o honynt, cafodd y fraint trwy ddychwelyd yn ol at yr Arglwydd ac i blith ei bobl, o ddwyn dolen i fewn i gadwen achau yr Arglwydd Iesu; ac i ffurfio hanes sydd yn gwneyd i fyny lyfr yn Ngair yr Arglwydd—llyfr sydd yn llawn addysg a chysur i blant Duw trwy yr oesau; a'r fraint o ddwyn i'r golwg yn ffurfafen eglwysig yr Hen Destament seren fore eglur i dywynu "y byddai y Cenedloedd yn gydetifeddion, ac yn gyd-gorff, ac yn gyd-gyfranogion o'i addewid ef yn Nghrist, trwy yr efengyl" (Eph. iii. 6).

Pwy erioed a gymerodd ei wthio yn ol o'i wrthgiliadau gan siomedigaethau a helbulon a galar, i fyw yn agos at yr Arglwydd, heb i'w dristwch gael ei droi yn llawenydd iddo? Pwy erioed

fu ar ei golled wrth ddilyn arweiniad a chyfarwyddiadau Duw? Pwy erioed ddaeth i ymddiried yn gwbl dan gysgod adenydd Duw Israel yn ofer? Pwy erioed a adawodd bob cynlluniau o'i eiddo ei hun er mwyn trefnu ei holl symudiadau yn ol lluniaethau *plan* yr Hollwybodol, heb fod mwy o ddefnyddioldeb i'r Eglwys i'w gael yn ei hanes nag a ddychymygodd? All neb ddyweyd faint o ddefnydd wnaiff yr Arglwydd o'r neb ddaw yn ol o'i grwydriadau i fyw yn agos iawn ato. Dyma chwerwder yn nhir Moab yn cael ei newid am felusder yn ngwlad Israel. Tristwch ar dristwch yn nhir gwrthgiliad yn cael eu newid am lawenydd wedi dychwelyd. Dyma flynyddoedd o fywyd na wyddai bron neb ddim am dano, yn cael eu newid am wasanaeth gwerthfawr i'r Eglwys fawr trwy yr holl oesau. A phwy bynag ddaw eto yn ol o'r tir cras a sychedig heb ddwfr i fyw o hyd yn ymyl Ffynnon y dyfroedd byw, bydd yn sicr o gael achosion i ddyweyd gyda Dafydd ar gysegriad ei dŷ,—"Troaist fy ngalar yn llawenydd i mi: diosgaist fy sachwisg, a gwregysaist fi â llawenydd; fel y cano fy ngogoniant i ti, ac na thawo. O Arglwydd fy Nuw, yn dragywyddol y'th foliannaf" (Psalm xxx.)

Y PRIF FFEITHIAU YN HANES CRIST.

Gan y Parch. T. JAMES, M.A., *Llanelli.*

VIII.—EI ESGYNIAD.

TRWY ddylanwad goruwchnaturiol y daeth Crist Iesu i'r byd, a thrwy y cyffelyb ddylanwad yr ymadawodd âg ef. Yr oedd y cwbl a berthynai iddo yn deilwng o hono ei hun fel anfonedig y Tad, yn gystal ag o'r gwaith y daeth i'w gyflawni. Rhoddwyd cynllun o hono yn ei wahanol sefyllfaoedd, o'r modd y treuliodd ei fywyd ar y ddaear, ac o'r dull yr ymadawodd â'r byd i fyned at ei Dad, i saint yr Hen Destament. Nid ydym yn meddwl fod hyn yn eglur iawn iddynt, na bod ganddynt syniad cywir am dano; nid oedd eu meddwl, hwyrach, yn cael ei arwain yn uniongyrchol at y Messïah yn y desgrifiadau gogoneddus ganfyddir yn eu hysgrifeniadau. Rhyw wron uwch-ddaearol yr ymddangosai iddynt—Buddugoliaethwr llwyddiannus, neu Frenin urddasol, gwahanol i ddim a welsent yn Israel. Yr oedd dynion galluocaf y ddaear ymhell o ddyfod i fyny â'u dysgwyliad, a chyfateb i'r hyn a ymddangosai iddynt; ac felly y meddwl yn rhedeg yn naturiol at un arall oedd i ddyfod o dŷ a thylwyth Dafydd—at y Messïah, drwy bersonau israddol. Dywedir am ryw un, y buasai, ar ol gorphen ei waith, yn gorchfygu ei elynion, yn dyrchafu i'r uchelder, caethgludo caethiwed, ac yn dwyn rhoddion i ddynion. Ar ei fynediad i'r ddinas ymherodrol bloeddir: "O byrth, dyrchefwch eich penau, ac ymddyrchefwch, ddrysau tragywyddol, a Brenin y gogoniant a ddaw i mewn!" Achlysur llefariad y geiriau hyn oedd cymeryd Arch yr Arglwydd o dŷ Obededom i ddinas Dafydd ar Fynydd Sion—mynediad Duw Israel fel Brenin y gogoniant i'w gysegr—y Brenin uchaf, gogoneddusaf mewn bod, yn meddiannu y ddinas ac yn ei gwneuthur yn lle ei breswylfod. Er hyny, addefir yn gyffredin ei nodwedd gysgodol, yn cyfeirio at esgyniad yr Arglwydd Iesu i'r nefoedd, ac yn cael ei sylweddoli ynddo Ef. Efe yw gwir Frenin y gogoniant, a'r nefoedd yw yr unig ddinas dragywyddol. Nid yw efe ei hun ychwaith yn ddystaw ar y mater hwn, ond edrycha ymlaen ato gyda hyfrydwch. Bu ddeugain niwrnod yn ymddyrchafu i ogoniant. Yr oedd y fath gysylltiad rhyngddo â'r ddaear fel nad oedd yn bosibl ymadael yn ddisŷmwth ac ar unwaith.

Y mae Efe ei hun, ynghyd a'r modd y treuliodd ei amser yr adeg hon, yn dywyll i ni, ac i raddau helaeth yn anesboniadwy. Deallwn fod anghenrheidrwydd am argyhoeddi yr apostolion o'i adgyfodiad, ac nid oedd bosibl gwneyd hyn yn well na thrwy ymddangos yn fyw iddynt ar wahanol amserau, ac mewn gwahanol ffyrdd. Ni ellid ei wneuthur yn effeithiol mewn amser byr, canys cymerai y gelynion

fantais ar fyrdra yr amser y byddai yn eu plith i greu drwgdybiaeth yn meddwl dynion am wirionedd ei adgyfodiad. Ond gan iddo ymddangos yn fynych iddynt, mewn amrywiol ffyrdd, am adeg hirfaith, nid oedd bosibl camsynied—argyhoeddwyd hwy ei fod yn fyw.

Pan y bu yr Iesu farw nid oedd yr Apostolion wedi gorphen eu haddysg, nac ychwaith wedi eu cyflawn awdurdodi i'w swydd. Ar ol ei adgyfodiad y dywedodd fod "pob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear" wedi ei rhoddi iddo ef; fel cadfridog buddugoliaethus yn derbyn awdurdod o'r orsedd i fod yn llywodraethwr cyffredinol, ac yn rhinwedd yr awdurdod dderbyniodd, yn rhoddi gorchymyn i'w ddysgyblion i bregethu yr efengyl i bob creadur, er dwyn deiliaid newydd i'w deyrnas. Ail ymaflodd yn y swydd o ddysgawdwr yr adeg hon, yr hyn a brawf fod anghen am ei bresennoldeb yn eu plith am ryw dymmor cyn esgyn i'w ogoniant: "Gan fod yn weledig iddynt dros ddeugain niwrnod, a dywedyd y pethau a berthynent i deyrnas Dduw." Nid oeddent cyn hyn yn feddiannol ar gyflawn ddirnadaeth o'r gwaith oedd ganddynt i'w gyflawni ar ol ei ymadawiad ef. Diau eu bod wedi deall hyn i raddau oddiwrth amryw ymadroddion blaenorol o'i eiddo, ac yn neillduol oddiwrth ei eiriau yn yr oruwchystafell, a'i weddi ddiweddaf; eto credwn oddiwrth eu hymddygiadau mai anmherffaith oedd eu gwybodaeth; felly yr oedd yn anghenrheidiol iddo fod yn eu mysg am adeg i'w goleuo, a'u hyfforddi a'u hawdurdodi i'w gwaith pwysig. Bu am ddigon o amser i gyrhaedd yr amcan hwn—i'w dwyn i deimlo pwysigrwydd eu gwaith, a bod awdurdod ganddynt oddiwrth Berson fuddugoliaethodd ar angeu a'r bedd.

Dichon hefyd fod rhyw bethau yn nglŷn âg Ef ei hun oedd yn galw am arafwch yn ei ddyrchafiad. Bu ddeugain niwrnod yn myned o'r bedd i'r nefoedd, o'r Ardd i Fynydd yr Olewydd, o'i ymddangosiad cyntaf i'w ddysgyblion wedi adgyfodi hyd ei ymadawiad hollol â hwynt mewn gwedd ddynol. Ai anmhriodol credu fod hyn yn anghenrheidiol er ei gymhwyso i ogoniant? fod y cyfnewidiad oedd ei gorff yn myned dano yn gofyn yspaid fel hyn i'w berffeithio? Wrth ddarllen ei hanes yr adeg hon, gwelwn fod y bedd wedi gwneuthur cyfnewidiad pwysig yn ei ymddangosiad, ac ar yr un pryd heb wneuthur cyfnewidiad digonol yn y corff ei hun i alluogi yr Iesu i fyned adref at ei Dad fel yr ydoedd wrth gyfodi.

Pan welodd Mair ef gyntaf, meddyliodd mai y garddwr ydoedd. Pan yn myned i Emmaus gan gyd-gerdded ac ymddyddan, nid oedd y ddau ddysgybl yn ei adnabod. Pan yr ymddangosodd yn ddisymwth yn nghanol y dysgyblion, brawychasant, gan gredu mai ysbryd oeddent yn ei weled, yr hyn a brawf fod y bedd wedi gwneuthur llawer o gyfnewidiad arno. Gwir y dywed Luc am y ddau oedd yn myned i'r wlad, "Eithr eu llygaid hwynt a attaliwyd, fel nas adwaenent ef;" ac ar ddiwedd yr hanes dywed, "A'u llygaid hwynt a agorwyd;" eithr nid yw hyn ond ffordd wahanol i osod allan eu hanallu i'w adnabod o herwydd dyeithrwch ei ymddangosiad. Efe oedd wedi dyeithrio, ac nid eu llygaid hwy oedd wedi eu hattal trwy ymyriad goruwchnaturiol.

Er hyny, Efe ei hun ydoedd mewn gwedd arall. Nid Ysbryd yr Iesu ymddangosodd i'r dysgyblion, ac nid mewn corff ysbrydol y gwelsant ef, canys dywed wrthynt am ei deimlo, ac edrych ar ei ddwylaw a'i draed, "canys nid oes gan ysbryd gnawd ac esgyrn" fel y gwelent fod ganddo Ef. Prawf hyn nad oedd eto yn gymhwys i'r nefoedd, canys nid oes y fath beth yno a chnawd ac esgyrn. Pethau perthynol i'r ddaear yw y cyfryw, cydweddol âg awyrgylch y byd hwn. Yn y byd arall ni fydd anghen am danynt, na chydnawsedd rhyngddynt âg ef; felly gosodir hwy heibio cyn myned yno. Dywed Paul, "Y mae corff anianol, ac y mae corff ysbrydol:" pob un yn ei le ei hun, yn gyfaddas i'r byd y preswylir ynddo. Felly ymddengys nad oedd corff yr Iesu, fel y gwelodd y dysgyblion ef ar ol codi, yn gymhwys i'r nefoedd. Dywedir wrth Mair, "Yr wyf yn dyrchafu:" nid yr adeg hono yn unig pan yn ymddyddan â hi, ond yn ystod yr holl amser y bu gyda hwy—ymddyrchafu, ymberffeithio, a dyfod yn fwy cymhwys bob dydd. Mewn sefyllfa o gyfnewidiad yr oedd ei gorff yr

adeg hon—yn perthyn mewn rhan i'r byd naturiol, ac mewn rhan i'r byd ysbrydol. Medrai dynion ei weled a'i deimlo, ond gallai ddiflanu o'u golwg ar darawiad amrant; bwytâi gyda ei ddysgyblion, eithr deuai i mewn i'r ystafell a'r drysau yn gauad; treuliai ran o'i amser yn eu plith i'w hyfforddi a'u cyfarwyddo, a rhan yn rhywle yn y byd ysbrydol, allan o'r golwg, heb fod neb yn gwybod pa le. Ymryddhâi yn raddol oddiwrth y cnawd a'r esgyrn, ac ymgyfaddasai ar gyfer ymadael yn gyfangwbl â'r ddaear, ac yn y diwedd esgynodd yn eu gwydd hwy i'r nefoedd.

YR ESGYNIAD YN EI BERTHYNAS A'R APOSTOLION.

Yr oedd hyn yn bwysig iddynt hwy fel sylfaenwyr Cristionogaeth. Oddiwrth hanesiaeth ysgrythyrol, ni ellir dyfod i un penderfyniad yn nghylch eu syniad hwy am ei ddyfodol ef wedi iddo ymddangos yn fyw yn eu plith. Anhawdd meddwl y credent fod posiblrwydd iddo farw drachefn, gan iddo wrth godi ddangos nad oedd gan angeu lywodraeth arno; eto nid oedd ganddynt hanes am neb godwyd yn aros byth ar y ddaear. Nid ydym yn gwybod beth ddaeth o'r rhai a godwyd gan yr Iesu: nid oes air o hanes am y modd y gadawsant y fuchedd bresennol; pa un ai trwy ryw fath o symudiad disymwth, yn debyg i ddau batriarch yr Hen Destament, ynte myned yr ail waith trwy byrth marwolaeth. Gwyddom fod llawer yn gwrthod y syniad o farw yr ail waith i'r rhai hyn: yn un peth, am y byddai yn greulondeb iddynt fyned trwy ingoedd marwolaeth fwy nag unwaith—mai gwell fuasai iddynt gael aros yn yr angeu na'u cyfodi i farw eto; ac heblaw hyny, y byddai yn groes i'r gosodiad Dwyfol, yr hwn a ddywed "unwaith." Am y cyntaf o'r ddau reswm hyn, nid ydym yn gweled grym ynddo; oblegid nid oedd raid dyoddef arteithiau angeu; gellid eu cymeryd o'u cwsg, neu ryw ffordd arall, heb yn wybod iddynt eu hunain. Am yr ail, dylem edrych ar y trefniant yn ei gysylltiad cyffredinol â dynolryw, ac nid yn ei berthynas âg eithriadau, neu byddem o dan anghenrheidrwydd o wrthod symudiad Enoch ac Elias heb brofi marwolaeth. Deddf gyffredinol Duw yn ei pherthynas â dynion yw iddynt farw unwaith; ond gan nad ydyw yn codi o anghenrheidrwydd natur, gall yr Hwn a'i rhoddodd ei gosod o'r neilldu pan y gwelo yn dda. er cyrhaedd amcanion neillduol o'i eiddo ei hun. Pa fodd bynag am hyny, y mae hanesiaeth yn ddystaw am derfyn oes y rhai a gyfodwyd gan yr Iesu, ac nid oedd yr apostolion yn gwybod dim yn eu cylch. Nid oeddynt yn gwybod ychwaith beth ddeuai o'u Hathraw. Yr oedd ei holl fywyd Ef yn wahanol i'r eiddo eraill, ac nid afresymol fuasai iddynt feddwl yr arosai yn dragywydd ar y ddaear; neu os byddai iddo ymadael, y gwnai hyny drwy ffordd neillduol o'i eiddo ei hun. Beth fyddai hono, ni wyddai neb, a pha adeg y cymerai hyny le oedd gwbl ddyeithr i bawb. Aeth Enoch i'r nefoedd yn anweledig i bawb, ac Elias yn mhresennoldeb Eliseus; eithr nid oedd ganddynt un syniad am y modd yr esgynai eu Hathraw, os byddai iddo fyned adref. Gesyd Luc bwys ar y ffaith o esgyniad yr Iesu yn ngwydd ei ddysgyblion: "Ac a hwynt-hwy yn edrych, efe a ddyrchafwyd i fyny." Dibynai dyfodol y dysgyblion yn eu perthynas â'r Iesu i raddau pell ar iddynt ei weled yn esgyn. Tra y tybient ei fod yn rhywle ar y ddaear, ni allent ymryddhau yn hollol oddiwrth y syniad o lywodraeth dymmorol; gofynent hyd yn nod y pryd hwnw am yr adeg yr adferid y llywodraeth i Israel. Yr oedd hyn wedi gwreiddio mor ddwfn yn eu meddwl, fel yr oedd yn anhawdd ymryddhau oddiwrtho; ac am hyny dysgwylient tra yr arosai yr Iesu ar y ddaear; ac nid oedd dim yn fwy effeithiol i'w hargyhoeddi o'u camsyniad na'r ffaith o'i esgyniad o'u canol tra yn edrych arno.

Yn awr y daethant i sylweddoli mewn gwirionedd nodwedd y deyrnas a sefydlai Efe yn y byd. Oddiwrth yr hyn a welsant â'u llygaid, derbyniasant nerth newydd i ymgysegru i'w gwaith, ac i'w gyflawni heb ofn na braw. Gwyddent o'r blaen ei fod yn fyw, canys buont yn aml yn ei gymdeithas; ac yn awr, wedi ei weled ef yn esgyn i'r nefoedd mewn ffordd wyrthiol, deallasant ei fod mewn awdurdod a gogoniant. Nid oes gwahaniaeth bellach am elyniaeth yr Iuddewon, am eu cynghorau, eu creulondeb

a'u carcharau; nid oes gallu ar y ddaear fedr eu rhwystro i bregethu yr Iesu a'r adgyfodiad. Cyhoeddent faddeuant pechodau yn ei enw Ef ymysg yr holl genedloedd; canys gwelsent ef yn cael ei ddyrchafu i'r nefoedd gan Dduw, i roddi edifeirwch a maddeuant. Ar ol hyn dyfnhâi eu teimlad addolgar, cydnabyddent ef yn Dduw, ymhyfrydent mewn dyoddef er mwyn ei enw, os trwy hyny y llwyddent i gael dynion yn ddeiliaid i'w deyrnas.

Yr Esgyniad yn ei berthynas a'r Iesu ei hun.

Esgynodd i'r nefoedd yn y natur ddynol. Mab y dyn oedd pan ar y ddaear, a Mab y dyn aeth o'r ddaear i'r nefoedd—yr un person, er y cyfnewidiad allasai gymeryd lle wrth esgyn. Aeth trwy lawer o gyfnewidiadau o Bethlehem i Galfaria; eithr nid oeddent oll mewn undeb â'u gilydd yn ei wneuthur yn berson arall.

Ni all neb ddyweyd beth gymerodd le rhwng yr Olewydd â'r nefoedd. Diau i'r cyfnewidiad ddechreuwyd yn ei adgyfodiad gael ei berffeithio, ond ni roddwyd ymaith y natur ddynol. Pan yn myned adref at ei Dad, aeth yn gyflawn ac nid yn rhanol; ddihatrwyd mo hono o'i ddillad gwaith—yr oedd i weithio eto. Ond gan nad oedd caledwaith o'i flaen, gorchuddiwyd hwy â dillad gorwych y palas—gwisgoedd dysglaer gwlad goleuni, cydweddol âg urddas y Person a gorwychder y lle.

Nid yw gwahaniaeth sefyllfa yn cyfnewid elfenau hanfodol y Person. Pan yr ymddangosodd yn blentyn egwan yn Bethlehem, y Gair tragywyddol ydoedd, ond ei fod wedi dyfod yn gnawd. Yn ei wendid a'i dlodi rhoddodd brofion mynych o'i haniad dwyfol a'i allu goruwch-naturiol. Er heb addysg athrofäol, synai ddoctoriaid y gyfraith â'i atebion, a dadymchwelai dwyll-resymeg ei elynion dysgedig. Gorchudd oedd y natur ddynol wedi ei dafiu dros ddysgleirdeb y Person Dwyfol; yr hwn oedd yn y dechreuad gyda Duw, er cadw ei bresennoldeb rhag bod yn angeu i'w ganlynwyr. Nid oedd ei ddyfodiad o'r nefoedd i'r ddaear yn ei amddifadu o'i egwyddorion dwyfol fel Duw, canys dywed fod ei weled ef yn weled y Tad; ac yn gyson â hyn yr oedd ei holl fywyd a'i weithredoedd, ei burdeb a'i ddaioni.

Y Gŵr a anwyd yn Bethlehem fu farw ar y groes, gladdwyd yn medd Joseph, ac a gyfododd y trydydd dydd, a gymerwyd i fyny i ogoniant oddiar Fynydd yr Olewydd. Adnabyddai ei ddysgyblion ef yn dda, canys buont yn ei gymdeithas dros dair blynedd cyn ei farw, ac ol a blaen gydag ef am ddeugain niwrnod ar ol ei adgyfodiad. Cerddasant yn ei gwmpeini o Jerusalem i Fynydd yr Olewydd; a thra yn eu bendithio, a'u llygaid hwythau yn syllu arno, ymddyrchafodd i ogoniant. Nid oedd yn bosibl iddynt ei gamsynied: "pe yn ynfydion, ni chyfeiliornent" yn hyn o beth, canys yr oedd mor eglur i bob llygad. Gwelsant ef yn myned yn bwyllog ac araf deg am amser—yn codi oddiar y ddaear, gan wneuthur grisiau iddo ei hun yn yr eangder, hyd y gallai y dysgyblion sylwi arno, ac yna yn cymeryd y cwmwl yn gerbyd i'w ddwyn yn fuddugoliaethus a gorfoleddus i dŷ ei Dad. Mab y dyn a esgynodd i'r nefoedd yn mhresennoldeb y dysgyblion, yn ol tystiolaeth y ddau ŵr mewn gwisg wèn a ymddangosodd iddynt yr adeg hono—Moses ac Elias, fe allai, neu ddau angel mewn gwedd ddynol. Yr Iesu ac nid neb arall aeth i'r nef, yr hwn a ddaw eto yn y dydd diweddaf.

Stephan a ddywed, "ei fod yn gweled Mab y dyn yn sefyll ar ddeheulaw Duw." Yr Iesu a ymddangosodd i Paul yn agos i Damascus; yr Iesu hwnw, dysgyblion pa un a erlidid ganddo ef; felly yr hwn fu farw ar y groes a esgynodd i'r nefoedd; y Person yr un, ei nodweddau cymeriadol yr un, pa mor uchel bynag ei sefyllfa. Pan ar y ddaear, amlygai dynerwch, caredigrwydd a chariad digyffelyb; gan mai yr un ydyw yn awr yn y nefoedd, rhaid ei fod mor barod i dosturio, cydymdeimlo, a chynnorthwyo dynion mewn caledi.

Gellid dysgwyl am ddyrchafiad fel hwn i Berson mor ardderchog. Dechreuodd ei fywyd yn wahanol i eraill. Croesawid ei enedigaeth gan angelion gwlad gogoniant yn nghanol clodforedd a chân, "Gogoniant yn y goruchaf i Dduw, ar y ddaear tangnefedd, i ddynion ewyllys da;" naturiol oedd i'w ymadawiad â'r byd fod yn gyddweddol â'i ddyfodiad iddo. Gwyddai efe y cymerai hyn le, a chodai ddys-

gwyliad yn eraill a dalent y sylw priodol i'w ddysgeidiaeth. Rhoddai awgrymiadau mynych ynghylch ei fynediad adref, ac am ei ogoneddiad. Dywed Neander, "fod diwedd ymddangosiad Crist ar y ddaear yn cyfateb i'w ddechreuad—fod Cristionogaeth yn gorphwys ar ffeithiau goruwchnaturiol, i sefyll neu syrthio gyda'r cyfryw." Yr oedd y goruwch-naturiol yn gymhlethedig â holl fywyd yr Iesu, fel nad oedd ei esgyniad gwyrthiol oddiar Fynydd yr Olewydd yn ngolwg y dysgyblion yn ddim gwahanol i ranau eraill ei fywyd. Terfyn bendigedig i fywyd mor ryfedd oedd hyn: pe yn wahanol—pe yn ymadael â'r ddaear yr un fath ag eraill, buasai genym le cryf i ammeu ei ddwyfoldeb. Person ymddangosodd yn y byd o dan y fath amgylchiadau, ac a fu byw yn hollol gydweddol â Duw, ac a dderbyniodd gymaint o foddlonrwydd Duw ynddo; a gyflawnodd gynifer o weithredoedd nad allasai neb ond Duw eu cyflawni, a gododd o'r bedd er gwaethaf dynion a chythreuliaid—hwn i ymadael o'r byd fel eraill oedd anmhosibl! Buasai hyny yn fwy rhyfedd na'r modd yr esgynodd. Ymadawiad teilwng o'r Person oedd hwn, a chydweddol â'i fawredd dwyfol. Daeth oddiwrth Dduw yn cael ei warchau gan angelion gwynion gogoniant, a phan yn myned ato, amgylchynid ef gan lïaws o'r bodau dysglaer hyn. Danfonwyd gweision urddasol i hysbysu ei ymddangosiad ar y ddaear; ac ar ei ddychweliad gartref daeth cenadau anrhydeddus o'r byd ysbrydol i fynegu i'w ddysgyblion mai i'r nef y cymerwyd ef. Llefarai yn fynych am gariad y Tad ato, yr anrhydedd oedd iddo gydag Ef, y gogoniant oedd yn ei aros, y llawenydd oedd o'i flaen, nes codi dysgwyliad yn ei ganlynwyr am weled ei ogoniant. Yn awr wele hwnw yn dechreu cael ei sylweddoli, pan yn edrych arno yn esgyn yn ei gerbyd dysglaer, ac yn cael ei dderbyn i'r nefoedd. Yr oedd yr esgyniad gogoneddus hwn yn gwbl gydweddol â honiadau yr Iesu ac yn deilwng orpheniad bywyd gweledig Mab y Brenin Tragywyddol. Hawliai berthynas â Duw fel ei Dad, y nefoedd yn gartref; dywedai fod adnoddau y nefoedd yn eiddo iddo ac át ei wasanaeth; dim ond iddo ewyllysio y byddai angelion dirif yn gweini arno; na ommeddai Duw ddim a ofynai; fod pob awdurdod ganddo yn y nefoedd ac ar y ddaear, ynghyd a llawer o bethau cyffelyb. Diau fod ei ddysgyblion lawer pryd yn synu ato, ac yn ofni ei fod yn rhy feiddgar. Ar Fynydd yr Olewydd cadarnhawyd yr oll mewn modd eglur a phendant; cafwyd sicrwydd o wirionedd ei honiadau—ymddyrchafodd yn naturiol a didrafferth, gan ddringo yn araf deg, ac yn y diwedd yn eistedd yn dawel ar y cwmwl hyd nes y cyrhaeddodd adref i ogoniant.

Yr oedd hyn yn wobr am ei ddarostyngiad. Arfer Duw yw gwobrwyo y rhai a'i gwasanaethant ef, ac y mae mesur y wobr yn dibynu ar fawredd y gwaith a gyflawnir a'r aberth a wneir. Nid oes pleidgarwch na derbyn wyneb yn perthyn iddo Ef yn ngwasgariad ei ffafrau. Yn annibynol ar bersonau, cysylltiadau, a sefyllfaoedd—canys nid yw y cyfryw ddim iddo ef—gwasgara ei wobrau yn ol teilyngdod y gwrthddrychau a phwysigrwydd y gwasanaeth gyflawnir ganddynt. Er fod yr Iesu yn anwyl Fab, yn yr hwn yr ymhyfrydai Duw, ni ychwanegid y wobr a'r anrhydedd yn herwydd y berthynas; canys, wrth hyny, amlygid pleidgarwch yn hytrach nag uniondeb. Bydd yr anrhydedd a osodir arno ac y cyfodir Ef iddo, yn hollol gyfartal i'r gwerth a esyd ar ei wasanaeth. Bodolai yr Iesu erioed yn ffurf Duw, yn nghanol anrhydedd a gogoniant Dwyfol—"gyda'r Tad cyn bod y byd." Er cyflawni gwasanaeth dros Dduw, ac mewn ufudd-dod iddo, ymwaghäodd o'r ffurf ogoneddus hon, a daeth i sefyllfa gwas; aeth trwy bob caledwaith yn nghanol dirmyg a dyoddefiadau; bu "yn ufudd hyd angeu, ïe, angeu y groes; o herwydd paham," yn wobr am y darostyngiad hwn, "Duw a'i tra dyrchafodd ef"—cododd ef i'r sefyllfa fwyaf anrhydeddus yn ei lywodraeth. Nid am ei fod yn Fab—nid o herwydd y berthynas wreiddiol oedd rhyngddynt; yn hytrach, o herwydd ei hunanymwadiad anghymharol, a'i hunan-aberthiad trylwyr mewn ufudd-dod i ewyllys ei Dad, y dyrchafwyd Ef. Am fod y darostyngiad y mwyaf a allesid ei wneyd, oddiar egwyddorion dwyfol y dyrchafwyd ef yn wyrthiol, yn mhres-

ennoldeb ei ddysgyblion i'r sefyllfa uchaf a mwyaf gogoneddus mewn bod.

Awgrymai yr Iesu ei hun am ei ddyrchafiad fel gwobr am waith. Yn ei weddi ddiweddaf dywed, "Mi a'th ogoneddais di ar y ddaear; mi a gwblheais y gwaith a roddaist i mi i'w wneuthur. Ac yr awrhon, O Dad, gogonedda di fyfi gyda thi dy hun â'r gogoniant oedd i mi gyda thi cyn bod y byd." O herwydd ei ffyddlondeb i'w waith, ac yn wobr am ei lafur, hawlia ogoneddiad—gogoneddiad teilwng o fawredd a phwysigrwydd y gwaith a gyflawnodd. Dechreuwyd ei ddyrchafu yn anfoniad angelion i dreiglo y maen oddiar ddrws y bedd, i ollwng y carcharor yn rhydd yn gyflawn i fywyd a hoewder Dwyfol. Ni welodd neb ef yn codi o'r bedd, canys caent hamdden i edrych arno rhagllaw; ond gan na allent ei weled ar ol iddo ymadael â hwy, cawsant yr anrhydedd o edrych arno yn myned i ogoniant—yn esgyn yn nghanol bloeddiadau gorfoleddus y cantorion a'r cerddorion a'i hamgylchynai. Siorheid ei ddyrchafiad gogoneddus yn ei adgyfodiad, gan nad oedd bosibl iddo farw yr ail waith—diddymodd angeu foreu y trydydd dydd.

Dyrchafwyd ef er effeithio yr iachawdwriaeth a orphenwyd ganddo wrth farw. Wrth reswm, yr oedd hyn yn dwyn cysylltiad â'r rhan flaenorol o'i fywyd, yn eglurhad ar ei Berson, yn wobr am ddarostyngiad a llafur, ac yn ogoneddiad arno ei hun. Mae perthynas hefyd â pharhad ei waith yn y dyfodol hyd ddiwedd amser.

Anhawdd meddwl y buasai presennoldeb gweledig yr Iesu ar y ddaear yn ffafriol i helaethiad terfynau ei deyrnas. Yn ol yr hyn a ymddengys, byddai yn rhwym o fod yn gyfyngedig yn ei ddylanwad i gylch bychan.

Dengys Efe ei hun angenrheidrwydd am ei ddychweliad i'r nefoedd er bod yn alluog i sefydlu teyrnas gyffredinol ar y ddaear, a chario ei waith ymlaen yn effeithiol: "Buddiol yw i chwi fy myned I ymaith; canys onid âf fi, ni ddaw y Dyddanydd atoch; eithr os myfi â af, mi a'i hanfonaf ef atoch." Buasai presennoldeb gweledig yr Iesu ar y ddaear yn rhwystr i ddyfodiad yr Ysbryd; neu, yn hytrach, rhaid oedd iddo gael ei adferu i'w sefyllfa wreiddiol mewn gogoniant yn y natur ddynol cyn y gallasai yr Ysbryd ddylanwadu yn achubol ar ddynion, ac wrth hyny effeithio yr iachawdwriaeth orphenwyd gan yr Iesu. Rhaid oedd am ei ogoneddiad Ef er danfoniad yr Ysbryd.

Yn ei ddyrchafiad i'r nefoedd y gogoneddwyd ef: "Gogonedda dy Fab fel y gogoneddo dy Fab dithau" yn rhoddiad bywyd tragywyddol i'r rhai a gredant ynddo. Ysbrydol yw teyrnas Crist; felly rhaid ei ddyrchafu i ogoniant er ei chario ymlaen. Wrth ffydd y mae ei ddeiliaid i rodio, ac nid wrth olwg, yr hyn a ddengys mai anweledig yw y Brenin a'r bendithion.

Yn ei esgyniad i'r nefoedd perffeithiwyd undeb y Duw-ddyn â'r Tad, fel Brenin yr Eglwys a Gwaredwr pechaduriaid. Dyma'r pryd y daeth yr Ysbryd yn rhan o hono ei hun yn ei sefyllfa newydd—yn Ysbryd Crist, i gymeryd o'i eiddo a'i fynegu i ddynion. Yn ei sefyllfa berffeithiedig yn y nefoedd y daeth yn alluog i gario allan ei gynlluniau, o ennill deiliaid newydd drwy ei Air, o dan ddylanwad yr Ysbryd; i breswylio yn ei bobl, i'w puro a'u glanhau, gan eu gwneyd yn eglwys "heb arni na brycheuyn na chrychni, na dim o'r cyfryw." Yr oedd ei esgyniad yn anghenrheidiol er parotoi lle i'w bobl wedi cyrhaedd gartref, yn gystal ag i'w cymhwyso i fyw yn y trigfanau nefol: "Yr wyf fi yn myned i barotoi lle i chwi." Wele'r gŵr a anwyd yn Bethlehem, fedyddiwyd gan Ioan, fu farw yn warthus ar y groes, adgyfododd y trydydd dydd, wedi esgyn i ogoniant i ymaflyd yn awenau y llywodraeth ddwyfol. Dyma fe, "Duw" wedi "ymddangos yn y cnawd," "a gyfiawnhawyd yn yr Ysbryd, a welwyd gan angelion, a bregethwyd i'r Cenedloedd, a gredwyd iddo yn y byd, ac a *gymerwyd i fyny mewn gogoniant.*" Aeth adref yn orchfygwr: "Dyrchafodd i'r uchelder; caethgludodd gaethiwed; derbyniodd roddion i ddynion, ie, i rai cyndyn hefyd." Tafiwyd pyrth y nefoedd yn agored ar ei fynediad ef i mewn, ac nid ydynt wedi eu cau hyd heddyw. Gan iddo wrthod dychwelyd adref cyn gorphen ei waith, efe a gasgl fyrddiynau ato ei hun, cyn rhoddi'r deyrnas i fyny i Dduw a'r Tad.

Eglurhadaeth Ysgrythyrol.

GWERSI UNDEB YSGOLION SABBOTHOL CYMRU.

☞ *Cyfeirier at y GWERSLYFRAU am y WERS a'r CWESTIYNAU arni. Cofier fod y Wers ar gyfer pob Sabboth o Ebrill 1af, 1888, i'w rhanu dros ddau Sabboth.*

DOSBARTH HYNAF.

Sabboth, Rhagfyr 8fed—*(Y rhan gyntaf o'r Wers am* Chwefror 3ydd *yn y* Gwerslyfrau Ysgrythyrol: Llyfr II., *tu dal.* 31).

Dyfodiad Mab y dyn: Matt. xxiv. 42—44; Luc xii. 31—40.

Adn. 42: *Gwyliwch gan hyny: am na wyddoch pa awr y daw eich Arglwydd.* Y mae yr "am na wyddoch," &c., yn eglurhad ychwanegol ar y "gan hyny." Esbonia Meyer y geiriau hyn fel yn cymeryd yn ganiatäol y byddai ail-ddyfodiad Crist i farn yn cymeryd lle yn ystod oes y dysgyblion, a'u bod hwythau yn cael eu galw i ddysgwyl am dano mewn ystâd o wyliadwriaeth ysbrydol. Anhawdd deall pa fodd y gallasai hyny fod, gan mai ein Hiachawdwr ei hun oedd yn llefaru y geiriau. Nis gallasai Efe gamsynio, nac arwain ei ddysgyblion i gamsynio. Diau eu bod yn cael eu rhybuddio i wylio, am fod rhyw "ddyfodiad" o'i eiddo i'w ddysgwyl yn ystod eu bywyd hwy, a bod yr amseriad manwl—yr "awr"—yn guddiedig. Yr ydoedd i gymeryd lle yn oes "y genedlaeth" hono, adn. 34; ac ar y llaw arall, "am y dydd hwnw a'r awr" nis gwyddai neb, adn. 36. Ond pa ddyfodiad oedd hwn? Yr ystyr uniongyrchol yn ddiau oedd, ei ddyfodiad yn ninystr Jerusalem. Ond yr oedd y dyfodiad hwnw o'i eiddo i farn amserol yn ddrych ac yn ernes o'i ddyfodiad i'r farn dragywyddol, yr hwn hefyd a gysgodid trwy ei ddyfodiad yn angeu at bob un yn bersonol. Y mae tôn y Testament Newydd, yr Epistolau a llyfr y Dadguddiad, yn hynod o berthynas i amser y dyfodiad mawr diweddaf. Gellid meddwl ei fod yn gwrthddywedyd ei hunan. Y mae yn agos ac yn mhell. O safle ddynol, y mae yn mhell; o safle ddwyfol, y mae yn agos. I natur, y mae yn mhell; i ffydd, y mae yn agos. Y mae dau fesur ar amser yn rhanau prophwydol y Testament Newydd: y mesur crefyddol a'r mesur amseryddol. Ceir yr agoriad yn 2 Petr iii. 8: "fod un dydd gyda'r Arglwydd fel mil o flynyddoedd, a mil o flynyddoedd fel un dydd." Y mae yr un yn fil, a'r mil yn un; y dydd yn flwyddyn, a'r flwyddyn yn ddydd. Ac y mae hyny yr un peth a dyweyd nad yw y naill na'r llall yn ddim. Nid yw y gwahaniaeth yn bod. Nid yw rhifyddiaeth, mwy nag amser, yn bod i Dduw.

Nid y prif bwnc yw *pa* ddyfodiad? Cwestiwn israddol yw hwnyna. Y pwnc mawr yw *ei fod yn dyfod*—"y *daw* eich Arglwydd"—a'r pwys o fod yn *barod.* Awgrymir hyny yn y ffaith fod *pa* ddyfodiad, fel *amser* y dyfodiad, i raddau wedi ei guddio.

Onid oes yma wers i'w dysgu ar esbonio? Credwn pan y daw duweinydd mawr, neu esboniwr mawr, y dyfodol (ac y mae yn debyg mai un fyddant ac nid dau), mai dyma un o'r pethau a ddengys efe i ni yn y rhai yr oeddym yn camgymeryd—mewn cymeryd un o *fanylion* adnod yn bwnc ymchwiliad ac yn asgwrn cynhen, a myned heibio i'r *egwyddor* bron yn ddisylw. Wrth ddarllen o hyd yn Epistolau Paul am *ddeddf*, y cwestiwn, bid siwr, yw '*pa* ddeddf oedd mewn golwg gan yr Apostol yn y fan yma; ai y foesol, y seremoniol, neu y wladol?' Heb son am ateb cyfeiliornus, y mae y cwestiwn ei hunan, gyda golwg ar rai adnodau, yn gyfeiliornad. Nid yw y *pa* yn dyfod i fewn o gwbl i'r mater. *Deddf* oedd o flaen meddwl yr Apostol, fel y cyfryw; *deddf* yn ei natur, yn mha ffurf bynag y corfforid hi. Felly wrth fyned ar ol y *pa*, yr ydym ar *false scent* fel y dywedir, allan o linell y meddwl yn gyfangwbl. O hyn y tarddodd lliaws o ddadleuon Cymru—codi *false issues* neu *side issues*, codi cwestiynau nad oeddynt o flaen meddwl yr ysgrifenydd sanctaidd o gwbl, y naill fordd na'r llall, a thrwy hyny golli *enaid* y pwnc neu yr adnod. Buom yn meddwl hyn er ys blynyddoedd gyda golwg ar un o hen ddadleuon diddiwedd ein gwlad—helaethrwydd yr Iawn. Os ystyriwn, gwelwn fod yr ysgrifenydd sanctaidd mewn ambell adnod â'i fryd wedi ei lyncu yn llwyr ar *ffaith* ryfeddol yr Iawn—y *Person* anghymharol yn marw *dros* bechaduriaid. Yn lle cymeryd yr un safle ag yntau, yr ydym ni yn troi y naill ochr i gywrain ddadleu dros *bwy*, ai *ychydig* ai *llawer*, ai *rhai* ai *pawb?* Pryd nad oedd yr Apostol, gallwn fod yn sicr, yn meddwl dim am y naill na'r llall—nid dyna oedd y cwestiwn: ac felly yr ydym yn gadael y cnewyllyn i redeg ar ol y plisgyn; fel hwnw a ofynai "Ai ychydig yw y rhai cadwedig?" a'n Hiachawdwr yn ateb ei gwestiwn yn y modd mwyaf effeithiol

trwy beidio ei ateb, a throi ei sylw at yr hyn oedd yn bwysig: "Ymdrechwch am fyned i mewn trwy y porth cyfyng."

SABBOTH, RHAGFYR 15FED—*(Y rhan olaf o'r Wers am* CHWEFROR 3YDD *yn y* GWERSLYFRAU YSGRYTHYROL: LLYFR II., *tu dal* 31).

ADN. 43: *A gwybyddwch hyn.* Dengys y gymhariaeth hon mor bwysig ydyw bod bob amser yn barod. *Pe gwybuasai gŵr y tŷ pa awr y deuai y lleidr, efe a wyliasai, ac ni adawsai gloddio ei dŷ trwodd.* Pe gwybuasai yr "awr," gwyliasai yn effeithiol ar yr awr hono, fel ag i attal yr ysbeiliad. Ni buasai eisieu gwylio yn barhaus. Ond gan na wyddai yr "awr" (yr hon oedd yn wahanol mewn gwahanol amgylchiadau), daliwyd ef heb fod yn gwylio, ac ysbeiliwyd ei dŷ. Y mae y gyffelybiaeth i'w chymhwyso nid yn unig at ddiwedd y byd, ond hefyd at awr angeu, a dygwyddiadau brawychus a phwysig yn hanes cenedloedd a phersonau. Y mae yr holl gyfnodau pwysig hyn yn dal perthynas â'r farn ddiweddaf, a chyda hi yn ffurfio un cyfanwaith o farn.

ADN. 44: *Am hyny byddwch chwithau barod, canys yn yr awr ni thybioch y daw Mab y dyn.* Y wers yw, fod eisieu bod yn barod bob amser. Y mae yn perthyn i hanfod gwyliadwriaeth i fod *bob amser* yn gwylio. Gellir dyweyd fod pob dyfodiad o eiddo Mab y dyn yn annysgwyliadwy—"yn yr awr ni thybioch"—i bersonau, i genedloedd, ac i'r byd yn y diwedd: "fel lleidr y nos." I'r rhai a gysgant yn lle gwylio, cânt weled, pan yr agorir eu llygaid, fod y tŷ wedi ei ysbeilio, a'r hen fywyd bydol, gau, wedi ei gymeryd oddiarnynt am byth.

Y pwnc mawr yw *dyfodiad* Mab y dyn, pa ffurf bynag a gymer, mewn profedigaethau personol, trychineb cenedlaethol, yn angeu neu yn y farn. Y mae y gwahanol ddyfodiadau yn gwneyd i fyny un dyfodiad mawr, yn cael ei berffeithio yn orphenol yn ei ddyfodiad y dydd diweddaf, i ddirwyn i fyny holl oruchwyliaeth amser, ac i ddwyn i mewn oruchwyliaeth ddigyfnewid tragywyddoldeb.

Y mae yr ysbryd hwn o *wylio* yn effaith ac yn brawf o'r *parodrwydd* i'w gyfarfod—difrifwch ysbrydol o ran cyflwr, agwedd a gwaith.

Yn Luc xii. 31—40 golyga "y lwynau wedi eu hymwregysu a'r canwyllau wedi eu goleuo," ystâd o barodrwydd hollol i ddysgwyl ein Harglwydd—"yr holl serchiadau wedi eu crynhoi o'r creadur (fel y dywedai y diweddar Mr. Rees), a goleuni yr Efengyl yn llewyrchu yn holl ystafelloedd yr enaid." Wrth fod eu harglwydd "yn gwasanaethu arnynt hwy" y golygir ei raslonrwydd a'i haelfrydedd dwyfol yn gwobrwyo ei weision ffyddlawn byth â phob dedwyddwch a gogoniant yn "swper neithior yr Oen." Perffeithiad o'r awgrym a roddwyd yn ei waith yn golchi traed ei ddysgyblion.

SABBOTH, RHAGFYR 22AIN—*(Y rhan gyntaf o'r Wers am* CHWEFROR 10FED *yn y* GWERSLYFRAU YSGRYTHYROL: LLYFR II., *tu dal.* 31).

"*Pwy yw y goruchwyliwr ffyddlawn?*" Mat. xxiv. 45—47, &c.

ADN. 45: *Pwy gan hyny sydd was ffyddlawn a doeth?* Yn unol â'r cyfarwyddiadau blaenorol. Dengys ein Harglwydd trwy ddammeg neu alegori fod y farn i ddechreu ar y rhai sydd mewn swyddau yn yr Eglwys. *Yr hwn a osododd ei arglwydd ar ei deulu, i roddi bwyd iddynt mewn pryd?* Rhoddir pwys ar y gosodiad gyda golwg ar y gwas ffyddlawn. Gadewir ef allan yn achos y "gwas drwg hwnw." Gosodwyd ef yn llywodraethwr ar y teulu er mwyn "rhoddi bwyd iddynt yn ei bryd." Y mae swyddau yn bod yn Eglwys Dduw er mwyn porthi teulu Duw.

ADN. 46, 47: *Gwyn ei fyd y gwas hwnw.* Gwynfyd fydd i'r gwas effro a ffyddlawn yn mhob dyfodiad o eiddo ei Arglwydd; perffeithir y gwynfyd yn y dyfodiad olaf. *Ar ei holl dda y gesyd efe ef.* Y wobr am weithio yn nheyrnas Crist yw cael gwaith mwy ac uwch; y wobr am ffyddlondeb yw ymddiriedaeth fwy, sefyllfa uwch ac eangach. Y mae graddau yn nheyrnas y Messiah mewn sefyllfaoedd o ran gwaith, anrhydedd a mwynhâd, yn y byd hwn a'r un a ddaw.

SABBOTH, RHAGFYR 29AIN—*(Y rhan olaf o'r Wers am* CHWEFROR 10FED *yn y* GWERSLYFRAU YSGRYTHYROL: LLYFR II., *tu dal.* 31).

"*Pwy yw y goruchwyliwr ffyddlawn?*" Mat. xxiv. 48—52.

ADN. 47—50: Yn gyferbyniol i'r "gwas ffyddlawn a doeth" darlunir cymeriad, ymddygiad a thynged y "gwas drwg hwnw." Ceir fod yma gynnydd mewn drygioni. Dechreua yn anghrediniaeth y galon: "Os dywed y gwas drwg hwnw *yn ei galon*, Y mae fy arglwydd yn oedi dyfod." Nis gallai ddyweyd hyn yn gyhoeddus o herwydd ei sefyllfa swyddol. Y mae tôn watwarus yn gystal ag anghrediniol yn y geiriau. Felly gwatwarwyr y dyddiau diweddaf—"pa le y mae addewid ei ddyfodiad ef?" 2 Petr iii. 3, 4. Yn nesaf, ymddyga yn drahaus a chreulawn tuag at ei gydweision: "a

dechreu curo ei gydweision." Dylynir pechodau yr ysbryd gan bechodau y cnawd: "a bwyta ac yfed gyda'r meddwon." Ymuna â'r rhai drwg ymhlith gweision y tŷ ac âg ymwelwyr oddiallan (rhai heb hawl i fod yno) mewn gloddest. Y "cyd-weision" oeddynt y rhai ffyddlawn i'w meistr absennol. Cyfeiria rhai esbonwyr at y gwrthgyferbyniad hanesyddol rhwng y Chwil-lys a'r Maddeuantau *(Indulgences)*. Daw y meistr adref yn annysgwyliadwy, fel y darluniwyd o'r blaen.

Adn. 51: *Ac efe a'i gwahana ef.* "Tori yn ddau," "darnio:" "A Samuel a ddarniodd Agag," 1 Sam. xv. 23; "a dorwyd â llif," Heb. xi. 37. Cosbedigaeth a berthynai yn benodol i'r ddwyflywiaeth Iuddewig. Ymadrodd cymhariaethol am ddinystr disymwth a hollol, gydag awgrymiad dystaw, yn ol rhai, at gymeriad y gwas fel rhagrithiwr—un yn ceisio bod yn ddau, chwareu dwy ran wahanol. Calon wahanedig a gosbir â gwahanu'r bywyd. *Ac a esyd ei ran ef gyda'r rhagrithwyr.* Tybiodd y gallai ymddangos yn y diwedd i'w feistr fel gwas ffyddlawn: "Curai ei gydweision" mewn zel ragrithiol dros wasanaeth a lles ei feistr.

Y mae yr *agwedd*, fel rheol, yn effaith a dangoseg o'r *cyflwr*; ac y mae yr agwedd a ganmolir yn rhagdybied neu yn cynnwys parodrwydd cyflwr. Dengys y Bibl fod gwybodaeth yn fesur cyfrifoldeb, yn nhynged wahanol y "gwas a wybu" a'r "hwn ni wybu."

Sabboth, Ionawr 5ed, 1890—*(Y rhan gyntaf o'r Wers am* Chwefror 17eg, *yn y* Gwersllyfrau Ysgrythyrol: Llyfr II., *tu dal.* 31).

"*Mi a ddaethum i fwrw tân ar y ddaear.*"—Luc xii. 49—53.

Beth yw y cysylltiad rhwng y paragraph hwn a'r un blaenorol? Y mae mor dywyll, fel y dadleua rhai esbonwyr nad oes gysylltiad o gwbl. Golygiad Meyer, fe allai, sydd mor esmwyth âg un: fod mawredd y cyfrifoldeb, yr anghen difrifol am ffyddlondeb, yn cael eu chwanegu gan yr hyn a ddywedir yn adn. 49, yn gofyn am egluro y mater hwn ymhellach i'r dysgyblion.

Adn. 49: *Mi a ddaethum i fwrw tân ar y ddaear.* Beth yw ystyr y tân hwn? Tân "ymrafael," yn ol adn. 51. Tân yr Ysbryd Glân, medd rhai o'r Tadau, ac esbonwyr diweddar megys Alford. Ond onid yw y gair "bwrw" (*βαλεῖν*) yn anghydweddol â'r ystyr yna? Golygir, dybygem, y cynhyrfiad anghyffredinol ar feddyliau ac ysbrydoedd dynion a achlysurid gan ddyfodiad Crist, a'r cyhoeddiad cyffredinol o'i Efengyl. Y mae y tân, ar un llaw, yn gwresogi ac yn pureiddio, ac, ar y llaw arall, yn toddi ac yn llosgi; felly Efengyl Crist. Yr ochr olaf sydd yma yn benaf, yn ol adn. 51. Yr oedd ei ddyfodiad wedi gwahanu, ond ni losgai y tân yn ei holl rym hyd ar ol ei angeu a'i adgyfodiad.

A pheth a fynaf os cynneuwyd ef eisoes? Y mae yr *os* yn erbyn y dehongliad 'Mor fawr y dymunwn ei fod wedi ei gynneu eisoes!' Ystyr arall a roddir yw—"Beth a fynaf yn ychwaneg, er ei fod eisoes wedi ei gynneu?" Ystyr Grotius a Meyer, fe allai, yw y goreu: 'A pha beth a fynaf? mynwn ei fod eisoes wedi ei gynneu!' Rhoddir dau reswm dros y dymuniad hwn: am fod ei ddyoddefiadau ofnadwy rhwng yr amser y llefarai a chynneuad y tân; ac hefyd, ac yn benaf o bosibl, am fod ei lygad ar effeithiau iachâol y tân hwn, yr hwn a fyddai yr unig allu i bureiddio y ddaear.

Adn. 50: *Eithr y mae genyf fedydd i'm bedyddio âg ef.* Cyferbynir y bedydd daearol o ddyoddefaint â'r tân nefol. Cymhariaeth gref i ddangos dyfnder a llymder ei ddyoddefiadau—bedyddio megys trwy drochiad. Yr oedd y bedydd i ragflaenori y tân. *Mor gyfyng yw arnaf hyd oni orphener!* Nid awydd a dymuniad myned trwyddo yn unig, ac nid pryder ac ofn yn unig, ond y ddwy agwedd meddwl wedi eu huno. Docetiaeth yw gwrthod y syniad fod ymdrechfa ddynol yn nghalon y Gwaredwr yn erbyn dyoddef; ond yr oedd hono ynglŷn â chariad oedd yn ei gymhell yn mlaen i'r bedydd dyoddefaint nas gallasai dim ond ei gariad ei yru iddo.

Adn. 51—53. Rhaid edrych ar yr "ymrafael" a'r "ymranu" yn yr adnodau hyn, yr hwn sydd yn gweithio ei ffordd rhwng cysylltiadau agosaf natur, nid yn unig yn un o ganlyniadau dyfodiad Crist a'i grefydd i'r byd, ond yn un o'i ddybenion. Nid y dyben uwchaf, ond dyben israddol, eto anghenrheidiol fel moddion i gyrhaedd dyben uwch. Trwy yr ymdrechfa hon yn unig yr oedd cyrhaedd gwir dangnefedd. Yr oedd y rhyfel rhwng egwyddorion Cristionogaeth ac egwyddorion y byd yn anocheladwy er sicrhau gwir heddwch, trwy fuddugoliaeth y da ar y drwg. Pan y mae y Duw sanctaidd yn dyfod i gyffyrddiad â byd llygredig, y mae gwrthwynebiad ac ymrysonfa yn anocheladwy, nid yn unig rhwng y byd âg Ef, ond rhwng dynion â'u gilydd, yn ol fel y byddant yn ymrestru fel deiliaid neu elynion ei deyrnas.

Hanesion a Darnau Detholedig.

HANES YR ACHOS CYMREIG YN DUBLIN O'I DDECHREUAD HYD YN AWR.

Gan y Parch. JOHN OWEN, *Cenadwr.*

VII.

Y TYMMOR y bu Cadben Lloyd yma, gallwn feddwl, fu yr adeg fwyaf llewyrchus ar yr achos o gwbl, ac y mae amryw resymau amlwg dros hyny. Yn y lle blaenaf, yn gymaint a bod Cadben Lloyd yn hen forwr ei hunan, yr oedd yn deall dynion y môr yn dda, ac yr oedd i raddau pell yn ffafrddyn ganddynt. Yr oedd yn ŵr rhydd a chryn lawer o arabedd yn perthyn iddo. Ac heblaw hyn, yr oedd yma ragor o longau Cymreig yn dyfod i'r porthladd y blynyddoedd hyn nag un adeg arall. Hefyd yr oedd yma yn mlynyddoedd y Diwygiad crefyddol cyffredinol a gafwyd yn y blynyddoedd 1858—60, pryd yr oedd y morwyr, fel pawb eraill o'r bron, yn dyheu am foddion gras. Erbyn hyn yr oedd nifer y chwïorydd mewn gwasanaeth yma wedi cynnyddu yn fawr, ac yr oedd hefyd amryw o wŷr ieuainc crefyddol a gweithgar yma yn yr ysgolion. Fel, a chymeryd pob peth fel yna at eu gilydd, yr oedd yr adeg yr oedd Cadben Lloyd yma yn adeg gysurus iawn ar yr achos. Yr ydoedd efe nid yn unig yn ymwelwr da â'r morwyr, ond yr oedd hefyd yn dra gofalus o'r rhai oedd yma mewn gwasanaeth, fel os byddai un yn absennol y Sabboth y byddai i gael dyfod i'r capel, y gallai hono fod yn sicr o ymweliad oddiwrth Cadben Lloyd boreu dydd Llun. Yr oedd ei enw yn enw teuluaidd ymysg y boneddigion oedd yn cadw morwynion Cymreig, fel y dengys yr hanesyn a ganlyn. "Pwy," meddai boneddiges wrth un Dr. Stanford, gweinidog plwyf St. Thomas, Dublin, "ydyw y Cadben Lloyd yr wyf yn clywed cymaint o son am dano, gan rai sydd yn cadw morwynion Cymreig?" "O," meddai y Dr. "Efe yw Tad yr holl ferched Cymreig yn Dublin." (Tad, fel y gŵyr eich darllenwyr, y geilw y Pabyddion eu hoffeiriaid.) Clywodd y Cadben am yr ymddyddan hwn; ac mewn ymddyddan â rhyw ŵr ieuanc yr ymholai am frawd iddo, ac yr atebwyd ef ei fod yn Llundain, a'i fod wedi cael dwy lythyren ar ol ei enw, "Wel," meddai y Cadben, "fe gostiodd y rhai hyny lawer iddo." "Do," meddai y gŵr ieuanc, "y maent wedi costio i fy nhad £400." "Wel," meddai yntau, "yr wyf fi wedi cael pump er pan y gwelais chwi o'r blaen, ond ni thelais i yr un ddimai am danynt." A dyma y llythyrenau, T.H.F.C.D. (Tad holl ferched Cymreig Dublin). Wedi hyn y mae rhai yn anfon llythyrau ato, gan roddi y pump llythyren uchod yn ei gyfeiriad, rhag yr hyn y mae yn achwyn yn dost, ac yn dyweyd ei fod yn ddigon adnabyddus heb ragor na Cadben Lloyd, Dublin.

Ar ei ddyfodiad yma, nid oedd ond Bibl a Llyfr Hymnau bychain ar y pulpud, ond yn niwedd y flwyddyn 1857 cawn ef yn ysgrifenu i'r DRYSORFA fel y canlyn:—"Ychydig wythnosau yn ol, sylwodd y gweinidog fod y Llyfr Hymnau ar y pulpud yn un bychan. Wel, fe anfonwyd at Mr. Gee am un mawr melyn. Wel, eto, ar ol dyfodiad y Llyfr Hymnau melyn tlws, fe welwyd fod yr hen Fibl oedd ar y pulpud â chryn draul arno; yr oedd wedi ei gael yn y flwyddyn 1844, ac ambell i ddalen wedi ei gwnïo. A pheth wnaed ond anfon at Mr. Phillips am Fibl mawr melyn. Sabboth, y 15fed o Dachwedd, dangoswyd y Llyfr Hymnau i'r gynnulleidfa, a dywedwyd fod Bibl mawr hardd-deg wedi cael anfon am dano, ac y byddai y casgliad y dydd hwnw yn myned i dalu am dano ef a'r Llyfr Hymnau. Felly yn yr odfa ddau o'r gloch fe gasglwyd pedwar swllt ar bymtheg, o ba rai yr oedd un swllt ar bymtheg a chwe' cheiniog o liw yr halen, a dim ond hanner coron o liw y pridd. Yn yr hwyr caed eto yn llawn bedwar swllt ar ddeg o liw yr halen; y cyfan yn 33s." Cawn hefyd ei fod wedi derbyn gan bersonau neilldual ar ol hyn 7s. 6c., yn gwneyd y cyfanswm yn £2 0s. 6c. Yna ă ymlaen i ddyweyd, "Yn awr y mae rhai o'r merched ieuainc yn dyweyd fod eisieu clustog felfed o dan y Bibl ardderchog a'r Llyfr Hymnau hardd, a bod y brethyn coch sydd o amgylch y pulpud wedi heneiddio yn fawr, a bod yn rhaid wrth un ieuengach i deyrnasu yn ei le ef." Hyd yr ydym yn deall, hyn a gafwyd, ac ymlaen yn yr un llythyr dywed, "Os bydd y gwrandawyr yn chwanegu llawer eto, dyma y llais nesaf, 'Rhaid cael *gallery*, neu helaethu y capel.'" Ac yr ydym yn cael mai cynnyddu ddarfu i'r eglwys a'r gynnulleidfa, fel y cawn sylwi eto.

Yn nechreu y flwyddyn 1858, wedi cael Bibl a Llyfr Hymnau newyddion, ac addurno y pulpud, daethpwyd i deimlo mai nid gweddus bellach ydoedd y llestri pridd i fod yn llestri cymundeb; a chawn

Mr. Davies, Cadben Lloyd, a'r Parch. John Foulkes, Rhuthyn, yn myned o amgylch y Cymry i gasglu at rai newyddion a da. Cafwyd y swm anghenrheidiol rhag blaen, a phawb y gofynwyd iddynt, oddigerth un (sef Cadben o Beaumaris), yn cyfranu yn wyneb-lawen; fel erbyn dechreu mis Ebrill, cafwyd cwpan a *plate* prydferth a da, ac yn argraffedig arnynt "*Welsh Church, Dublin, April* 3, 1858," at wasanaeth yr ordinhad o Swper yr Arglwydd.

Yn niwedd Ionawr, 1858, cawn y nodiad a ganlyn:—"Ar y 7fed o Ionawr ymunodd dau gadben llong â'n cymdeithas eglwysig; y nos Sabboth canlynol arosodd yn ein cymdeithas ŵr ieuanc o forwr, 24 mlwydd oed, genedigol o Traethcoch. Daeth Cadben Hughes, Gellidara, yma i wasanaethu erbyn Sabboth 10fed. Yr oedd y capel mor llawn fel nad oedd eisteddle i'w chael i'r rhai yr oedd ganddynt hawl i le, pe na buasent yn eu lleoedd mewn pryd." Yr ydoedd Cadben Lloyd yn dra gofalus na byddai yr un eisteddle yn cael ei llenwi o'r rhai oedd yn cael eu gosod, a hefyd am gadw y meibion a'r merched ar wahan, fel y cawn weled eto wrth fyned ymlaen. Yn y flwyddyn hon hefyd fe gafodd y capel ei baentio a'i harddu.

Yn y flwyddyn 1859 cawn enw John Lloyd yn chweched ar lyfr yr eglwys, ac y mae yma hyd fis Mai, 1862. Y John Lloyd hwn yw y Parch. John Lloyd y cyfeirir ato yn y Drysorfa am fis Awst y flwyddyn hon, tu dal. 298, fel gweinidog llwyddiannus "yr Eglwys Gymreig," Wallaroo, South Australia, ac am yr hwn y dywedir yno, "Nid ydym yn gwybod yn sicr pa bryd na pha le y dechreuodd bregethu." Credwn iddo ddyfod i Dublin naill ai diwedd 1857 neu yn gynnar yn y flwyddyn 1858, ond nis gallwn fod yn gwbl sicr, gan nad oes yn ein meddiant yr un o lyfrau yr achos o'r flwyddyn 1844 hyd y flwyddyn 1859. Ond y mae yma ddau frawd a ddaeth yma yn y flwyddyn 1858, y rhai ydynt yn aelodau ffyddlawn yn yr eglwys, yn sicrhau fod Mr. Lloyd yma ryw ychydig o'u blaen hwy. Credwn iddo ddechreu pregethu yma rywbryd yn y flwyddyn 1859, a hyny trwy ddylanwad Cadben Lloyd, yr hwn a aeth â'i achos i Gyfarfod Misol Sir Fôn, ac a gafodd ganiatâd iddo i ddechreu pregethu; ac yr oedd yn llawen iawn o hyny, gan ei fod o gymhorth mawr iddo gyda'r achos yma. Pregethodd lawer yn Dublin, ac yr oedd ei ddawn yn swynol iawn. A chawn hefyd iddo bregethu llawer yn Sir Fôn, os nad manau eraill hefyd. Ond ymadawodd yn lled ddisymwth yn mis Mai, 1862. Rhif 42 ar lyfr yr eglwys y flwyddyn hon ydyw Mr. Robert Owen, Bettwsycoed, pregethwr, yr hwn erbyn hyn ydyw y Parch. Dr. R. Llugwy Owen, Conwy. Bu yn dra chyson a llafurus gyda'r achos tra y bu yma.

Tua diwedd y flwyddyn hon, fe ddywedir na bu un adeg olwg mor siriol ar yr achos: y gwrandawyr yn lliosocach, yn wir mor lliosog fel y byddai y tŷ yn gystal a'r capel yn orlawn ar nos Sabbothau, a golwg dymunol a chysurus ar bob peth mewn cysylltiad âg ef. Ar yr ail Sabboth yn Tachwedd, 1859, yr oedd cynifer a 90 o forwyr ymhlith y gynnulleidfa, a'r olwg arnynt yn syml a difrifol, ac amryw wedi ymuno â'r eglwys yn y misoedd diweddaf.

Yn gynnar yn y flwyddyn 1860, cawn fod adfywiad crefyddol ymysg y Cymry yn Dublin. "Yn ddiweddar," meddai ein hysgrifenydd, "daeth yr achos yn ei bethau allanol i agwedd dra chysurus, y capel wedi ei oleuo â nŵy, a'i baentio yn hardd a phrydferth, ond teimlid i raddau mawr mai *trefn* heb *fywyd* oedd. Ond cafodd Dublin brofi peth o wres y diwygiad, a rhai wedi teimlo gwres y diwygiad yn Nghymru." Nid ydym yn cael y bŭ yma dori allan i orfoleddu fel mewn manau yn Nghymru, ond crybwyllir yn neillduol am oedfa y Parch. Owen Owens, Bethel, a gweinyddiad yr ordinhad o Swper yr Arglwydd, fel adeg ag y teimlwyd rhyw nerthoedd neillduol, y dychwelwyd llawer o forwyr, ac y cafwyd cyfarfodydd gweddïo gafaelgar, a morwyr am y waith gyntaf yn cael eu dwyn i wylo uwch ben eu cyflwr. Ar derfyn y flwyddyn 1860, cawn nifer yr eglwys yn 68, a chawn fod yr adfywiad yn myned ymlaen, fel ar derfyn y flwyddyn 1861 yr oedd rhif yr eglwys yn 77. Yn mis Chwefror, 1862, cawn ddarfod i'r Parch. Owen Jones, Llandudno, fod yma dros dri Sabboth, ac meddai Cadben Lloyd, "Fe chwythodd gwynt y dwyrain tua 50 o longau Cymru yma i'w gyfarfod, fel yr oedd y capel yn rhy fach. Yr oedd yma gynifer a 150 o forwyr. Cawsom ddwy ddarlith gan Mr. Jones, un ar 'Y Parch. John Jones, Talsarn,' ac un arall ar 'Gymru yn yr oesoedd a aeth heibio.' Hefyd cafwyd darlithiau gan un Sarah Evans, Aberdare."

Wrth fod y capel mor llawn am fis Chwefror, dywedodd un cadben "fod y *deck* yn rhy fach i ddal y *crew*, fod yn rhaid cael *quarter deck* ar y llong;" hyny yw, yn iaith pobl y tir, *gallery* ar y capel, ac addawodd bunt at gael un. "Yr wyf finnau," meddai Cadben Lloyd, "wedi cael *plan* y *quarter deck*, gyferbyn â'r pulpud, uwch ben y drws, lle yr eis-

tedda oddeutu 60. Ond fe gostia o £60 i £80. Mawrth 2 symudodd y gwynt i'r gorllewin, ac yr oedd y llongau allan wrth y cannoedd. Dywedais, Ni bydd eisieu y *quarter deck* ar y capel; ond er syndod yr oedd y capel yn llawn. Aeth o'r porthladd y boreu Sabboth hwnw 292 o longau, eithr o'r 60 llongau Cymru oedd yma, ni hwyliodd ond 10; cafodd y 50 arall wynt teg a hin gysurus boreu Llun." Hydref 14, 1862, ysgrifena eto fel y canlyn:—"Bydded hysbys i'r morwyr, a chyfeillion eraill sydd yn ymgynnull yn Nghapel Cymraeg Dublin, fod y *quarter deck* wedi ei gorphen a'i lliwio, ac y mae yr olwg arni wedi harddu y llong yn fawr, heblaw rhoddi lle cysurus i 60 neu fwy i eistedd. Nos Sabboth diweddaf yr oedd 49 o forwyr ar y *quarter deck*, heblaw 54 ar y *main deck*, yn gwneyd nifer y morwyr yn y capel yn 103. Trwy gymhorth Cymdeithas Genadol y Gogledd, a Chymdeithas y Morwyr, Llundain, a rhoddion cadbeniaid a morwyr, y mae y draul wedi ei thalu." Wedi cael y *quarter deck* yr ydoedd yn dra gofalus nad oedd neb ond morwyr i gael esgyn arno; ac os dygwyddai i rywun trwy amryfusedd fyned, byddai yn rhaid iddo yn fuan ddyfod i lawr. Clywsom am gadben wedi myned â'i wraig i'w ganlyn i fyny; ond daeth Cadben Lloyd i mewn a gwelodd hi, ac meddai, "De'wch chwi i lawr o'r fan yna? nid oes neb ond morwyr i fyned yna, ac nid ydych chwi yn forwr;" a bu raid ufuddhau ac ymwahanu, a gwnaed hyny ar ei orchymyn ef yn gwbl ddidramgwydd. Clywsom un brawd o Gaergybi, ag sydd yma yn gyson bob yn ail Sabboth er ei ddyddiau ef, ddarfod iddo un tro fyned i gael *tea* gyda rhyw chwïorydd brydnawn Sabboth, ac iddynt ei gymhell i'w *sêt*, ac iddo yntau yn ddifeddwl gydsynio; ond mor fuan ag y daeth Cadben Lloyd i mewn, gwelai ef yn ochr y merched, a chydag awdurdod cadben llefai dros y capel, "*Starboard side*, 'machgen i," gan daflu ei law, a bu raid iddo ufuddhau ar unwaith. Llawer o bethau digrifol a ddywedir am dano ef a'i briod. Byddai yn aml yn cyfeirio ati ar ei bregeth am gadarnhad i'r hyn a ddywedai, a byddai hithau yn wastad yn rhoddi *nod* nodweddiadol o honi ei hun bob tro y cyfeirid ati. Ond ni byddai yn unol â'n hamcan i ni roddi llawer o'i ffraethebion i mewn.

Yn y flwyddyn 1863, cawn gynifer a phump o bregethwyr yn aelodau o'r eglwys, sef y diweddar Barch. David Hughes, Llanengan; y Parchedigion John Owen, Bettws-y-coed; Robert Thomas, Llanerchymedd; William Davies, Dinorwic; a Moses Jones, Criccieth. Yn y flwyddyn 1864 cawn fod y Parch. Owen Owens, Liverpool, yma, a'r diweddar Barch. Humphrey Hughes, Môn; ac yn y blynyddoedd hyn y mae yma gryn nifer â'r gair *student* yn dilyn eu henwau, ond nid ydym yn ddigon sicr pwy ydynt i allu gwneyd unrhyw nodiad o berthynas iddynt. Nifer yr eglwys ar derfyn 1864 oedd 73.

Yn Nghyfarfod Misol Brynsiencyn, yr hwn a gynnaliwyd Gorphenaf 24, 25, 1865, darllenwyd llythyr oddiwrth Cadben E. Lloyd, Dublin, yn rhoddi i fyny ei le fel gofalwr am yr achos yno. Barnwyd mai gwell oedd peidio penderfynu dim gyda golwg ar ddygiad yr achos ymlaen yno rhaglaw hyd Gymdeithasfa Bangor. Awst 5ed y flwyddyn hon, cawn un R. J., o Dublin gallwn feddwl, yn ysgrifenu fel y canlyn i'r Drysorfa:—"Y mae Cadben Lloyd yn ymadael â'r lle, ac yn dychwelyd i Gaergybi, er llafurio dros Gymdeithas y Morwyr, Llundain, yn y lle hwnw, ar ol llafur o wyth mlynedd yn y lle hwn. Ymunodd 44 o bersonau â'r eglwys yn y capel Cymraeg o'r flwyddyn 1859 hyd yn bresennol. Y mae yn awr ar lyfr yr eglwys 58, o rai sydd yn preswylio yn y ddinas a'i chyffiniau. Nifer y gwrandawyr at eu gilydd ar y Sabboth yw 90; pan y bydd llawer o longau Cymreig yn y porthladd bydd yn 120. Mai 7fed, am ddau o'r gloch, yr oedd 66 o forwyr yn y capel, a'r nos yr oedd 84. Cesglir tua deg swllt bob Sabboth yn y gynnulleidfa at eu gilydd. Yr oedd yn y cyfarfod gweddi nos Lun diweddaf 19. Ond tuag at gynnal a chodi yr achos Cymreig yn y ddinas hon, y mae yn anghenrheidiol cael brawd yn y weinidogaeth a fyddo yn fywiog a gweithgar, a'i galon yn ymroddgar; un sydd eisoes wedi ei ordeinio, ac yn ŵr priod i fyw yn y tŷ capel, a fyddai yn ddiau y mwyaf pwrpasol, gogyfer â holl amgylchiadau yr eglwys a'r gynnulleidfa."

Yn nghofnodion Cymdeithasfa Bangor, a gynnaliwyd Medi, 1865, cawn, "Penderfynwyd, gan fod Cadben E. Lloyd yn ymadael â Dublin, wedi bod yn arolygydd ffyddlawn ar ein hachos crefyddol yno er ys wyth mlynedd, dymunwyd ar i Gyfarfod Misol Môn barhau i gymeryd gofal yr Achos yn Dublin, a gwneuthur tuag ato pa drefniadau bynag a welir yn anghenrheidiol." Yn unol â'r penderfyniad uchod, cawn yn nghofnodion y Cyfarfod Misol a gynnaliwyd yn Hebron, Medi 18 a 19, 1865, "Dymunwyd ar y swyddogion eglwysig yn Nghaergybi, mewn undeb â'u gilydd, gymeryd ystyriaeth bwyllus ar yr achos yn Dublin, ac

edrych am ryw deulu addas i fyned i fewn i'r tŷ, ac i gymeryd gofal am y gwaith yno." Yn hanes Cyfarfod Misol y Parc, Hydref 30 a 31, cawn, "Adroddiad brodyr Caergybi, yr hyn a wnaethant yn achos y genadaeth yn Dublin, a phenderfynwyd fod Mr. Edward Jones, Borth, Amlwch, i fyned i fyw i'r tŷ capel yno, a gofalu am yr holl wasanaeth eglwysig, ac i bregethu hefyd y Sabboth cyntaf o bob mis, a bod iddo dderbyn yr un swm ag a delid i Cadben Lloyd." Yn Nghyfarfod Misol Talwrn, Tachwedd 27 a 28, 1865, "Ymddyddanwyd â'r brawd Mr. E. Jones ar ei symudiad o'n plith ni yma i fyned i fyw i Dublin, i ofalu am yr achos Cymreig yno yn ei holl ranau." Yn Nghyfarfod Misol Caergeiliog, Mawrth 5 a 6, 1866, "Awdurdodwyd y cyfeillion yn Nghaergybi sydd yn gofalu am yr achos yn Dublin, i wneyd i fyny bob anghenrheidiau yn y tŷ capel yno, gogyfer â'i wneyd yn lletty cysurus i'r gweinidogion, ac fod Mr. Davies, Penarth, i dalu y costau o'r casgliad cenadol." Yn Nghyfarfod Misol Armenia, Rhagfyr 10 a 11, 1866, "Ymddyddanwyd â Mr. E. Jones, y Cenadwr yn Dublin, a derbyniwyd ef yn bregethwr o fewn cylch Cyfarfod Misol Môn." Fel yna cawn y Parch. E. Jones yn dyfod yma i gymeryd gofal yr achos yn niwedd y flwyddyn 1865. Brodor o Amlwch oedd Mr. Jones, wedi ei fagu gyda'r Annibynwyr, ac wedi bod yn pregethu am rai blynyddoedd gyda'r enwad hwnw. Ond priododd un oedd yn aelod gyda'r Methodistiaid, ac yn fuan ar ol hyny aeth gyda'i briod yn aelod o'r eglwys yn Borth, Amlwch; ac ymhen amser byr dewiswyd ef yn ddiacon yno. Yn fuan cymhellwyd ef i bregethu yno pan y byddent wedi eu siomi am bregethwr, a gwnai yr un peth yn y capeli cylchynol.

Barddoniaeth.

TROI AT DDUW.

(Seiliedig ar bregeth y Parch. D. Williams, a draddodwyd yn nghapel Netherfield Road, Gorphenaf 21ain, 1889.)

"Trowch eich wynebau ataf fi, holl gyrau y ddaear, fel y'ch achuber."—Esaiah xlv. 22.

Trowch, chwi bechaduriaid mawrion,
Yn eich clwyfau, yn eich gwaed:
Trowch, edrychwch tua 'r croesbren,
Iawn anfeidrol yno gaed:
Trowch, mae croesaw,
Fe 'ch achubir, trowch i gyd.

Mae yn galw *pawb*, O! deuwch,
O bob oedran, pob ystâd;
Nid oes gyfiwr na sefyllfa,
Na chaiff bardwn ganddo 'n rhad:
Diolch iddo
Am y fath wahoddiad rhydd!

Yma mae rhyw foroedd mawrion,
Hen drysorau gras y nef,
Oll am achub, oll i gadw,
Oll yn cymhell ato Ef:
O! dosturi,
Trowch, cewch gymhorth—mae yn *Ddiw*.

Mae galwadau yr efengyl,
Heddyw 'n daerion ar eich ol;
Trowch at Iesu Grist, *y noddfa*,
Trowch o'ch holl grwydriadau ffol:
Fe 'ch achubir
Byth rhag llid cyfiawnder Nef.

O! mor werthfawr ydyw noddfa
Glyd i hen lofruddion trist,
Sydd heb ddrws agored iddynt,
Ond yn haeddiant Iesu Grist:
Bendigedig
Byth, am glwyfau 'r anwyl Oen!

Trisant.

Lerpwl.

CHWYS GWAEDLYD Y GWAREDWR.

Ffydd ehed yn gynt na 'r awel
I'r hen lanerch dawel, brudd,
Lle y taenodd nos ei mantell
Dywell dros Greawdwr dydd,
Ar delynau aur gogoniant
Tra bydd moliant cofir hyn,
Bywyd Nef ei hun a'i thegwch,
Dan dywyllwch prudd y glyn.

Mawr bwysigrwydd y cyfriflad
Wasgai ar ein Ceidwad pur,
Nes y pallodd dafnau gloewon,
Hen arwyddion poen a chur;
Drosom dwys fu yr ymdrechu,
Drud fu 'r draul i Brynwr hedd,
Pan y ffrydiai gwaed ei galon
'N ddafnau cochion ar ei wedd.

Trist hyd angeu oedd ein Meichiau,
Pan ymbiliai ar ei Dad,
Am ei nerthu i yfed gwaddod
Haeddiant pechod damniol had:
Gethsemane! ynglŷn â'r Ceidwad
Nododd cariad iti fraint,
Cerfiwyd d' enw ar galonau
A choronau myrdd o saint.

Syndod engyl yw nad aethai
Cedyrn greigiau 'r byd yn friw,
Pan ymhell hwnt wenau hawddfyd,
Clywyd dwfn ruddfanau Duw;
Curai calon cariad Dwyfol,
Rhad tragwyddol tan ei fron;
Caru 'r dwylaw gwaedlyd hyny
Wnai 'i thrywanu â'r waewffon!

Oddi fry fe ddaeth i'n Ceidwad
Ernes o gyfodiad gwawr;
Hwyliodd angel glân mewn eiliad
I gyfeiriad daear lawr:
Llam dros heuliau, a phlanedau,
Rhwygai 'r awyr gan ei frys,
Daeth i gynnal pen y Meichiau,
Ac i sychu 'r dafnau chwys.

Esgyn wnaeth â'r dafnau hyny
Fry i'r Nef at orsedd Duw;
Llef a ddaeth o'r fynwes Ddwyfol,
"Sêl fy serch at ddynolryw;"
Dygodd Crist trwy ing ac angeu
I fyrddiynau wir ryddhâd,
Mewn gogoniant daw i'w cyrchu
Pawb o'r teulu i dŷ eu Tâd.

Nantyr. Hannah Roberts.

Newyddion Cyfundebol.

Y CYFARFODYDD MISOL.

Yn Nghyfarfod Misol Sir Fflint, a gynnaliwyd yn y Babell, Hydref 21 a'r 22, darllenwyd llythyr cyflwyniad y Parch. D. M. Davies, Nantglyn, a rhoddwyd derbyniad cynhes iddo ar ei ymsefydliad yn Bryneglwys. Yr oedd y Cyfarfod Misol yn cymeryd lle ar jiwbili y Cyfarfod cyntaf a fu yno, megys yr oedd ei adeiladu yn cymeryd lle ar jiwbili yr adeiladu cyntaf.

Yn Nghyfarfod Misol Gorllewin Morganwg, a gynnaliwyd yn Glandwr, Hydref 17eg, cadarnhawyd dewisiad eglwys y Cruglas, Abertawe, o'r Parch. D. R. Williams, fel eu gweinidog. Pasiwyd i roddi llythyr cyflwyniad i'r Parch. Robert Jones, gynt o'r Babell, Abertawe, yr hwn sydd wedi ymsefydlu yn Rhosllanerchrugog, Sir Fflint. Amlygwyd gofid am y golled a geir yn ei ymadawiad â'r sîr.

Yn Nghyfarfod Misol Sir Fynwy, a gynnaliwyd yn y Rock, Hydref 22ain, amlygwyd boddlonrwydd mawr am yr adnewyddiad oedd wedi ei wneyd ar y capel a'r amgylchoedd, ac hefyd am yr olwg lewyrchus oedd ar yr achos yn eu plith. Derbyniwyd y newydd am farwolaeth y Parch. John Jenkins, Penycae, gyda theimlad difrifol a galarus, ac archwyd i'r Ysgrifenydd anfon llythyr o gydymdeimlad dros y Cyfarfod at ei berthynasau.

Yn Nghyfarfod Misol Dehau Aberteifi, a gynnaliwyd yn Penant, Hydref 29 a'r 30ain, rhoddwyd llythyrau cyflwyniad i'r Parch. David Lloyd, Salem, yr hwn oedd yn ymadael i ymsefydlu yn Mountain Ash; ac i'r Parch. D. R. Williams, Llanbedr, ar ei fynediad i Cruglas, Abertawe. Datganwyd gofid mawr am ymadawiad Mr. Williams, yr hwn oedd wedi bod yn aelod o'r Cyfarfod Misol am 20 mlynedd, gan ei fod yn un o'r rhai mwyaf gweithgar, gonest a ffyddlawn a feddai y Cyfarfod Misol. Darllenwyd llythyr cyflwyniad y Parch. William Richards, Cynon, yr hwn sydd wedi ymsefydlu yn Llanon. Darllenwyd papyr rhagorol gan y Parch. Evan Jones, Penrhiw, Cadeirydd y Cyfarfod Misol, ar "Fabwysiad." Ac yn nghyfarfod y blaenoriaid, darllenwyd papyr rhagorol arall gan Mr. James, Ffynnonhywel, ar yr "Anghenrheidrwydd am ddeall Methodistiaeth, a bod yn Fethodistiaid."

Yn Nghyfarfod Misol Llundain, a gynnaliwyd yn Jewin Newydd, nos Fercher, Hydref 30ain, datganwyd llawenydd diffuant y Cyfarfod wrth weled dau o frodyr yn y weinidogaeth wedi dychwelyd ar ol bod yn absennol am dymmor, y naill o herwydd afiechyd, sef y Parch. Ellis James Jones, M.A., a'r llall, sef y Parch. R. E. Morris, B.A., wedi bod ar daith yn Unol Daleithiau America. Diolchodd y Parch. E. James Jones am yr amlygiadau o gydymdeimlad y Cyfarfod Misol âg ef yn ei gystudd; a rhoddodd y Parch. R. E. Morris adroddiad o ansawdd yr Achosion Cymreig yn y lleoedd y bu yn ymweled â hwynt. Cafodd hwynt mewn gwedd lewyrchus bron ymhob man, a'r bobl a golwg gysurus arnynt.

Yn Nghyfarfod Misol Dwyrain Meirionydd, a gynnaliwyd yn Cefnddwysarn, Tachwedd 4ydd a'r 5ed, darllenwyd llythyrau cyflwyniad tri o frodyr i gylch y Cyfarfod Misol: o Drefaldwyn Isaf, y Parch. Ebenezer John Williams, Llanwddyn; o Arfon, y Parch. John Owen Jones, B.A., Bethesda; ac o Ddyffryn Clwyd, y Parch. E. Wynne Parry, B.A. Datganwyd llawenydd am ddyfodiad y tri i Ddwyrain Meirionydd, a rhoddwyd y derbyniad serchocaf iddynt.

Yn Nghyfarfod Misol Dyffryn Clwyd, a gynnaliwyd yn y Dyffryn, Hydref 31 a Tachwedd 1af, hysbyswyd fod Eglwys y Cwm wedi rhoddi galwad unfrydol i'r Parch. David Jones, Rhuddlan, i'w gwasanaethu fel gweinidog. Llawenhâi y cyfarfod am y symudiad hwn, a chadarnhäwyd y dewisiad. Darllenwyd llythyr oddiwrth y Parch. E. Wynne Parry, B.A., yn cynnwys cais am lythyr cyflwyniad i Gyfarfod Misol Dwyrain Meirionydd, ar ei ymsefydliad yn athraw yn Athrofa y Bala. Yr oedd yn ofidus gan y Cyfarfod ei golli o'u plith. Dadgenid "fod teimlad cyffredinol y byddai ei ymadawiad yn golled fawr, yn gyntaf oll i'r eglwys yn Rhuthyn, lle yr oedd ei wasanaeth mor llwyddiannus a chymeradwy; ac hefyd i'r Cyfarfod Misol, o'r hwn yr oedd wedi bod yn un o'r aelodau ffyddlonaf a mwyaf ymroddedig, er ei ddyfodiad cyntaf i'n plith. Yr un pryd, llawenhâi y Cyfarfod yn fawr yn nyrchafiad Mr. Parry i'r swydd bwysig ac anrhydeddus y mae wedi ei ddewis iddi. Penderfynwyd rhoddi i Mr. Parry gyflwyniad yn y ffordd arferol, a'u bod hefyd fel Cyfarfod Misol yn dymuno ar iddo gael bod yn gysurus a defnyddiol iawn yn maes newydd ei lafur." Hysbyswyd am waeledd Mr. Edward Roberts, Llys Aled, Rhyl, a rhoddwyd ar yr ysgrifenydd i anfon llythyr ato i ddadgan cydymdeimlad y Cyfarfod âg ef.

Yn Nghyfarfod Misol Manchester, a gynnaliwyd Tachwedd 5ed, darllenwyd papyr galluog a dyddorol ar y mater penodedig, "Y pwys o feithrin dawn gweddi yn ein haelodau eglwysig," gan Mr. John Edwards, a dylynwyd ef gyda sylwadau rhagorol ac amserol gan y Parchn. W. James, B.A., Thomas Gray, Mri. John Davies a John Jones. Diolchwyd yn gynhes i Mr. Edwards am ei bapyr, a dymunwyd ar iddo gael ei gyhoeddi.

Yn Nghyfarfod Misol Lleyn ac Eifionydd, a gynnaliwyd yn Llanbedrog, Tachwedd 4 a'r 5ed, hysbyswyd fod yr eglwys yn Morfa Nefyn yn rhoddi galwad unfrydol i'r Parch. Robert Roberts, Ty'n y coed, i'w gwasanaethu fel gweinidog. Cadarnhawyd y dewisiad. Darllenwyd llythyr cyflwyniad y Parch. Hugh Pugh ar ei sefydliad fel gweinidog yn Penygraig. Rhoddwyd iddo dderbyniad croesawus. Cafwyd trafodaeth werthfawr ar y mater penodedig, sef "Y pwysigrwydd o godi ysbryd darllen a chwilio yr Ysgrythyrau yn ein heglwysi."

CYFARFODYDD PREGETHU.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu yn Eglwys Seisonig Abergavenny, Sabboth, Hydref 20fed, pryd y gwasanaethwyd gan y Parch. J. Gwynoro Davies, Abermaw. Am dri o'r gloch, prydnawn Sul, pregethodd Mr. Davies yn Gymraeg.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu yn Llanrhaiadr mochnant, nos Lun a dydd Mawrth, yr 28 a'r 29ain o Hydref, pryd y gwasanaethwyd gan y Parchn. John Williams, Brynsiencyn, a Hugh Jones, Liverpool.

ADRODDIAD PWYLLGOR UNDEB YR YSGOLION SABBOTHOL.

Cynnaliwyd y Pwyllgor Cyffredinol yn y Tabernacl, Aberystwyth, ddydd Mercher, Hydref 23ain, 1889, pan yr oedd yn bresennol, Principal Edwards, D.D., Cadeirydd; Griffith Parry, D.D.; J. Owen Jones, Llanberis; E. Griffiths, Meifod; E. Davies, Trefriw; D. Morgan, Penllwyn; John Owen, Aberdyfi; D. Williams, Tremadoc; James James, Ffynnon Hywel; Owen Williams, Glanclwyd; E. Hooson, Rhos; R. Jones, Dolgellau; Llewelyn Edwards, M.A.; J. G. Davies, D. Jenkin Davies, Evan Evans, Thomas Owen, David Samuel, M.A., ynghyd a'r Ysgrifenydd, o Aberystwyth.

COFNODAU.

1. Darllenwyd a chadarnhäwyd cofnodau y Pwyllgor Cyffredinol diweddaf.

2. Darllenwyd cofnodau y Pwyllgorau lleol fu yn eistedd oddiar y Pwyllgor Cyffredinol diweddaf.

3. Darllenwyd llythyrau oddiwrth amryw aelodau a fethent fod yn bresennol.

4. Darllenwyd llythyr oddiwrth Ysgrifenydd y Fibl Gymdeithas, yn cydnabod derbyniad ein diolchgarwch am ddwyn allan y Testament Dwyieithawg am chwe' cheiniog o bris.

5. Derbyniwyd oddiwrth Mr. W. Jones, Newport, eglurhâd boddhaol am argraffu y tafleni i Gyfarfod Misol Liverpool.

6. Penderfynwyd fod yr Epistol at yr Hebreaid i fod yn faes llafur i'r Ysgolion am y ddwy flynedd yn dechreu Ebrill 1af, 1890.

7. Penderfynwyd fod Principal Edwards i barotoi tafleu yn dynodi rhanau o Leviticus, neu o lyfrau eraill o'r Bibl, allant fod yn gynnorthwy i ddeall y rhanau a ddarllenir o'r Epistol at yr Hebreaid bob Sabboth.

8. Penderfynwyd derbyn *tender* Mr. D. W. Davies, Caernarfon, am yr hawlfraint i argraffu a chyhoeddi Llawlyfr Principal Edwards ar yr Hebreaid am ddwy flynedd. Ymddiriedwyd i'r Pwyllgor lleol i wneyd y cytundeb priodol â Mr. Davies.

9. Penderfynwyd derbyn *tender* Mr. William Jones, Newport, am yr hawlfraint i argraffu a chyhoeddi y Gwerslyfr ar Genesis am un flwyddyn. Ymddiriedwyd i'r Pwyllgor lleol i wneyd y cytundeb priodol â Mr. Jones, ac i gytuno âg ef hefyd i gyhoeddi y Gwerslyfr yn yr iaith Saesoneg, a chan fod y llyfr yn cael ei ddefnyddio yn yr Ysgol Sul, iddo beidio rhoddi hysbysiadau am ddim ond llyfrau ar y clawr.

10. Derbyniwyd adroddiad yr Is-bwyllgor a benodasid i ystyried yr Arholiad Cymanfaol, a chadarnhäwyd ef yn y wedd ganlynol:—

(1). Ein bod yn cymeradwyo y *text-books* canlynol ar faterion yr Arholiad nesaf—

(*a*) Ysbrydoliaeth y Bibl. (Arholwr, y Parch. Owen Jones, B.A., Liverpool): Yn Gymraeg, llyfr y Parch. D. Charles Davies, M.A., cyhoeddedig gan P. M. Evans a'i Fab, Treffynnon, pris swllt; yn Saesoneg, llyfr Redford, *The Authority of Scripture*, cyhoeddedig gan Gymdeithas y Traethodau Crefyddol, pris pum' swllt, ond a ganiateir am hanner coron i'r amcan hwn.

(*b*) Y Pedair Efengyl, neu *Nodweddion gwahaniaethol yr Efengylau, a Threfn Amseryddol prif ffeithiau bywyd y Gwaredwr*. (Arholwr, Parch. D. Saunders, D.D., Abertawe): Yn Gymraeg, Arweiniad i'r Efengylau, gan y Parch. G. Parry, D.D., a Bywyd Crist, gan y Parch. E. R. Conder, D.D.; yn Saesoneg, *Introduction to the Gospels*, gan Canon Westcott, a *Life of Christ*, gan Dr. Conder. Gellir cael llyfr Dr. Conder am dair neu bedair ceiniog yn Gymraeg neu Saesoneg, gan Gymdeithas y Traethodau Crefyddol.

(2). Fod hysbysrwydd cyflawn yn cael ei wneyd o'r holl fanylion perthynol i'r arholiad yn y ddwy DRYSORFA, y *Lladmerydd*, y *Llusern*, a'r *Monthly Tidings*, mor fuan ag y penderfynir arnynt.

(3). Fod hysbysrwydd swyddogol o'r holl fanylion yn cael ei anfon i Ysgrifenyddion y Cyfarfodydd Misol, fel y gallont hwy roddi y cyfryw fanylion yn nhafleni yr Arholiadau Sirol.

(4). Fod annogaeth yn cael ei rhoddi i'r Cyfarfodydd Misol i roddi gwobrwyon i'r nifer a farnont hwy yn briodol o'r ymgeiswyr llwyddiannus yn yr Arholiad Cymanfaol.

11. Gan fod Cymdeithas y Traethodau Crefyddol wedi rhoddi gostyngiad mor fawr yn mhris llyfr Redford, a hyny er mwyn cefnogaeth i'r Arholiad Cymanfaol, dysgwylir i bob un a fydd yn gofyn am y llyfr gael enw gweinidog y lle wrth ei lythyr, er sicrwydd mai ar gyfer yr Arholiad y ceisir y llyfr.

12. Derbyniwyd adroddiad yr is-bwyllgor a benodasid i ystyried yr hyn ellir ei wneyd er cyfarwyddo a hyfforddi athrawon ac athrawesau ein Hysgolion Sabbothol, a chadarnhäwyd ef yn y wedd ganlynol:—

(1). Fod annogaeth daer yn cael ei rhoddi sefydlu cyfarfod darllen ar y Sabboth, neu yn yr wythnos, i athrawon ac athrawesau i fyned drwy wers y Sabboth dyfodol, y cyfryw gyfarfod i fod o dan arolygiaeth y gweinidog, neu ryw berson arall cymhwys i'r gwaith, ac i dalu sylw arbenig i gyfraniad addysg.

(2). Fod cais yn cael ei wneyd at olygwyr y misolion sydd yn gwasanaethu yr Ysgol Sabbothol ar iddynt drefnu i gael cyfres o ysgrifau yn achlysurol ar faterion uniongyrchol gysylltiedig â chyfraniad addysg, gan bersonau profiadol a medrus fel athrawon. Ein bod hefyd yn cyflwyno ein diolchgarwch gwresocaf iddynt am eu gwasanaeth yn y gorphenol.

(3). Fod dymuniad cryf yn cael ei ddadgan am i gynllun-wers gael ymddangos yn awr ac eilwaith yn y cyfnodolion uchod ar un o wersi y mis dilynol, gan roddi i lawr holl fanylion cyfraniad y wers i'r dosbarth. Awgrymir hefyd i'r golygwyr y priodoldeb o drefnu ambell gystadleuaeth mewn cynllun-wersi, a chyhoeddi y goreuon.

(4). Fod annogaeth yn cael ei danfon i'r Cyfarfodydd Misol i drefnu ar fod cynllunwers yn cael ei thynu allan yn un o faterion yr Arholiad Sirol ar gyfer Athrawon ac Athrawesau.

(5). Fod sylw yr ysgolion yn cael ei alw at y priodoldeb o roddi gwers yn achlysurol yn mhresennoldeb yr holl ysgol, ar y Sabboth neu yn yr wythnos, ar un o wersi y maes llafur.

13. Ein bod yn gohirio ystyriaeth o'r genadwri a ddaeth o Gyfarfod Misol Môn, gyda golwg ar faes llafur y Safonau iv.—vii., ac yn y cyfamser yn dymuno ar i Bwyllgorau y gwahanol Gyfarfodydd Misol ystyried y mater, a danfon eu barn drwy eu cynnrychiolwyr i'r Pwyllgor nesaf.

14. Ein bod yn anfon at y Cyfarfodydd Misol i ofyn ganddynt drefnu cyfarfod ynglŷn â'r Cyfarfod Misol at achos yr Ysgol Sul, a'n bod fel Pwyllgor yn anfon cynnrychiolwyr i'r cyfarfod hwnw i osod achos a threfniadau yr Undeb ger bron, er mwyn ennill cydweithrediad cyffredinol.

15. Penodwyd is-bwyllgor i enwi personau i ymweled â'r gwahanol Gyfarfodydd Misol, yn ol penderfyniad 14, a chadarnhawyd eu hadroddiad fel y canlyn:—Môn, Parch. J. O. Jones, Llanberis; Arfon, Parch. R. Lloyd, Beaumaris; Lleyn, Parch. E. Davies, Trefriw; Dyffryn Conwy, Mr. John Parry, Llanarmon; Dyffryn Clwyd, Mr. E. Hooson, Rhos; Fflint, Mr. O. Williams, Glanclwyd; Dwyrain Meirionydd, Parch. J. Owen, Aberdyfi; Gorllewin Meirionydd, Parch. Principal Edwards, D.D.; Trefaldwyn Uchaf, Mr. R. Jones, Dolgellau, a'r Parch. J. Owen, Aberdyfi; Trefaldwyn Isaf, Parch. G. Parry, D.D.; Henaduriaeth Trefaldwyn, Parch. E. Griffith, Meifod; Henaduriaeth Lancashire, Parch. O. J. Owen, M.A., Rock Ferry; Liverpool, Parch. Principal Edwards, D.D.; Manchester, Mr. Peter Roberts, Llanelwy; Llundain, Parch. G. Parry, D.D.; Gogledd Aberteifi, Parch. Llewelyn Edwards, M.A.; Dehau Aberteifi, Parch. D. Morgan, Penllwyn; Penfro, Parch. T. Levi; Brycheiniog, Parch. J. M. Jones, Caerdydd; Caerfyrddin, Parch. Principal Edwards, D.D.; Dwyrain Morganwg, Parch. T. Levi; Gorllewin Morganwg, Parch. T. Levi; Mynwy, Parch. W. Lewis, Pontypridd; Henaduriaeth Morganwg a Mynwy, Parch. W. James, Aberdâr.

16. Yn ngwyneb y ffaith fod rhai eglwysi, ysgolion, a dosbarthiadau yn trefnu i wneyd defnydd arbenig o'r llyfr poblogaidd, *Taith y Pererin*, yn ystod misoedd y gauaf, cafwyd gan y cyhoeddwyr, Cymdeithas y Traethodau Crefyddol, addewid am yr argraffiad newydd prydferth o'r llyfr, a werthir yn awr am ddeunaw ceiniog, yn ol naw ceiniog yr un os erchir 50 ac uchod. Penderfynwyd gwneyd hyn yn hysbys i'r holl ysgolion.

17. Gadawyd parotoad yr ail ran o'r Hymnau a Thonau yn llaw yr Ysgrifenydd hyd y Pwyllgor nesaf.

18. Rhoddwyd rhyddid i'r Pwyllgor Lleol i ddarparu ychwaneg o dystysgrifau Saesoneg os bydd galw am danynt.

19. Etholwyd y Parch. J. G. Davies, Aberystwyth, trwy y *ballot*, i fod yn Ysgrifenydd Cynnorthwyol i'r Pwyllgor Cyffredinol.

20. Fod y Pwyllgor Cyffredinol i'w alw ynghyd pan farno y Pwyllgor Lleol yn briodol.

T. C. EDWARDS, *Llywydd.*
J. G. DAVIES, *Ysg. Cynnorthwyol.*

ARHOLIAD CYMDEITHASFAOL 1889.

CYNNALIWYD yr Arholiad uchod yn Nghaerfyrddin a Dolgellau, Hydref 21, 22,

a'r 23ain. A ganlyn oeddynt y cwestiynau a roddwyd i'r ymgeiswyr, ac yr ydym wedi ychwanegu enwau yr Arholwyr yn llawn ar ddiwedd bob papyr.

DAROSTYNGIAD CRIST.

1. Ymha bethau yr oedd darostyngiad Crist yn gynnwysedig? Eglurwch y berthynas rhwng ei ddarostyngiad â'r athrawiaeth am ei Berson.

2. Os oedd y cnawdoliad yn rhan o'i ddarostyngiad, dangoswch, os gellwch, fod hyny yn gyson â'r dybiaeth y cymerasai y cnawdoliad le heb y cwymp, ac â'r ffaith fod y natur ddynol mewn undeb â'i Berson Dwyfol yn awr yn y nef.

3. Rhoddwch eglurhad o Phil. ii. 6—8, gan dalu sylw arbenig i'r geiriau "ffurf Duw," ac "efe a'i dibrisiodd ei hun." Profwch hefyd mai am Berson y Gair y llefara yr apostol.

4. Beth yw ystyr Gal. iv. 4. "wedi ei wneuthur dan y ddeddf"? A oedd hyny yn canlyn ei gnawdoliad o anghenrheidrwydd?

5. Rhoddwch grynodeb o hanes yr athrawiaeth hon (1) ymysg y Tadau a'r Ysgolwyr; (2) yn eglwysi Protestanaidd Germani ar ol dyddiau y Diwygwyr; ac (3) yn ei hagweddau diweddaraf.

6. Dywedir fod Crist wedi ei demtio ymhob peth yr un ffunud â ninnau, eto heb bechod. Pa fodd y gallasai temtasiwn fod yn wirioneddol yn ei pherthynas â'r fath Berson?

7. Ymha ystyr y dyoddefodd Crist ddigofaint Duw?

8. Pa bryd ac ymha ystyr y disgynodd Crist i uffern? Rhoddwch y gwahanol olygiadau ar hyn.

Parch. JOHN HUGHES, D.D.
Caernarfon.

HANES ABRAHAM. GENESIS xi. 27 i GENESIS xxv. 10.

1. Pa beth ellir ei ddywedyd fel esboniad ar neu esgusodiad o ymddygiad Abraham yn cyfarwyddo Sarah (xii. 13) i ddywedyd wrth yr Aiphtiaid, ac yn dywedyd ei hunan wrth Abimelech, brenin Gerar (xx. 2) mai ei chwaer oedd hi? A oes rhyw ffeithiau ar gael mewn hanesyddiaeth yn cadarnhau fod yr amgylchiadau wedi cymeryd lle?

2. Beth yn arbenig oedd yn cymhwyso y wlad a roddwyd gan Dduw i Abraham a'i had (xiii. 14—17) i fod yn gartrefle i'w bobl etholedig?

3. Gwnewch feirniadaeth ar yr amrywiol brif dybiau o barth i berson Melchisedec. Pa fodd yr ydych yn rhoddi cyfrif am ei undduwiaeth, ac am y ffaith o'i fod ef yn offeiriad i'r gwir Dduw (xiv. 18—20)?

4. Gwahaniaethwch rhwng ystyr y ddefod o enwaediad fel ei harferid gan y byd paganaidd, ac fel ei harferid hi gan Abraham a'i had.

5. Gwrthbrofwch y dybiaeth fod offrymiad Isaac (xxii.) yn efelychiad o aberthau dynol y Canaaneaid. Pa fodd y rhoddir cyfrif genych am yr arferiad o aberthau dynol yn nghrefyddau boreuol y byd? A dangoswch nad oedd yr offrymiad o Isaac mewn un modd yn iawnol.

6. Pa fodd yr ydych yn deall fod Abraham wedi gweled dydd Crist? Pa beth oedd yn anghyffredin yn hyny? Gwahaniaethwch rhwng ei ragwelediad ef yn hyn â rhagwelediad y *Oumæan Sibyl*, a rhagwelediad Bacon o'r "Dydd oedd ar ddyfod."

7. Esboniwch yr ymadroddion canlynol:—
(*a*) "Gwastadedd Moreh," xii. 6.
(*b*) "Yntau a gredodd yn yr Arglwydd, ac efe a'i cyfrifodd iddo ef yn gyfiawnder," xv. 6.
(*c*) "Onid bechan yw hi?" xix. 20.
(*d*) "Fel y dywedir heddyw, Yn mynydd yr Arglwydd y gwelir," xxii. 14.
(*e*) "Ac yntau a blanodd goed yn Beerseeba," xxi. 33.
(*f*) "Gosod, atolwg, dy law dan fy morddwyd," xxiv. 2.

8. A oes genych ryw reswm i feddwl fod Abraham yn credu mewn bywyd dyfodol ac adgyfodiad y meirw? Pa mor bell y derbyniwyd yr athrawiaethau hyn yn ei amser ef?

Abertawe. *Parch.* JOSEPH EVANS.

GWYBODAETH GYFFREDINOL O'R YSGRYTHYRAU.

1. Eglurwch y termau *ysbrydoliaeth, datguddiad, canoniaeth*, a rhoddwch fraslinelliad o hanes cyfieithiad Groeg y Deg a Thriugain, y cyfieithiad Syriaidd a elwir y *Peshito*, a'r cyfieithiad Lladin a elwir y *Vulgate*.

2. Pa fodd y profwch mai Moses ydoedd awdwr y pum llyfr a briodolir iddo? A oes rhyw seiliau i'r dybiaeth fod gan eraill law yn eu dygiad i'w ffurf bresennol?

3. Rhoddwch eich rhesymau dros ystyried Llyfr y Prophwyd Esaiah yn gynnyrch un awdwr.

4. Pa fodd y profwch mai Daniel ydoedd awdwr y llyfr sydd ar ei enw?

5. Ysgrifenwch restr o'r llyfrau o Esaiah i Malachi, gan eu gosod, hyd y galloch, yn eu trefn amseryddol, a rhoddi enwau brenineddoedd Israel a Judah yn amser yr amrywiol brophwydi.

6. Pa rai ydynt yr amrywiol olygiadau am berthynas y tair Efengyl cyntaf â'u gilydd?

7. Pa fodd y profwch mai Ioan ydoedd awdwr y bedwaredd Efengyl?

8. Enwch y prif olygiadau ynghylch awduraeth yr Epistol at yr Hebreaid, gan roddi eich golygiad eich hun, ynghyd a'ch rhesymau drosto.

9. Pa fodd y rhoddwch gyfrif am wahanol ddarlleniadau yn y Testament Newydd?

D.S.—Gall y rhai sydd wedi darllen Darlithiau y Parch. D. Charles Davies, M.A., ar *Ysbrydoliaeth y Bibl*, a'r erthyglau yn *Y Gwyddoniadur*, gymeryd y ddau gwestiwn canlynol *yn lle* unrhyw ddau o'r cwestiynau uchod:—

10. Eglurwch berthynas Ysbrydoliaeth â chynnwysiad y Bibl.

11. Rhoddwch hanes byr am ffurfiad Canon yr Hen Destament a'r Newydd.

Bootle. *Parch.* G. ELLIS, M.A.

LUTHER A'R DIWYGIAD PROTESTANAIDD.

1. Dangoswch yn fyr godiad a ffurfiad y Babaeth.

2. Pa barotoad oedd yn y byd politicaidd, eglwysig, a llenyddol ar gyfer y Diwygiad?

3. Pa fodd y cafodd Luther afael ar y Bibl, a pha effaith a gafodd y darganfyddiad ar ei feddwl?

4. Rhoddwch hanes ei ymweliad â Rhufain, ynghyd a'r argraffiadau a dderbyniodd.

5. O'r gosodiadau a hoeliodd ar ddrws yr eglwys, nodwch ychydig o'r rhai pwysicaf.

6. Dangoswch mai yn raddol yr ymryddhaodd Luther oddiwrth gaethiwed y Babaeth.

7. Rhoddwch a beirniadwch ei syniadau ar athroniaeth a duwinyddiaeth yr Ysgolwyr.

8. Nodwch amryw o brif gefnogwyr a gwrthwynebwyr Luther, fel diwygiwr.

9. Cyferbyniwch Babyddiaeth a Phrotestaniaeth.

10. Pa wirionedd a ystyriwch yn ganol-

bwynt y Diwygiad? Rhoddwch resymau dros eich golygiad.

Tyddewi. *Parch.* W. JENKINS, M.A.

RHESTR O'R YMGEISWYR LLWYDDIANNUS.

1. William Matthews, Arfon.
2. Maurice Griffiths, Machynlleth.
3. William Glynne, Birkenhead.
4. John M. Saunders, Pencoed.
5. Robert Williams, Dolgellau.
6. Watkin Williams, Aberdâr.
7. H. O. Hughes, Llanuwchllyn.
8. Edward Edwards, Cwmtirmynach.
9. W. Ambrose Williams, Llwydcoed.
10. David Hughes, Arfon.
11. O. D. Jones, Tredegar.
12. D. M. Benjamin, Abertilleri.
13. John Davies, Coedpoeth.
14. W. Hughes, Caerdydd.
15. W. Jenkin Jones, Llangyfelach.
16. Thomas J. Edwards, Penrhiwceiber.
17. W. J. Williams, Arfon.
18. M. E. Thomas, Caerdydd.
19. W. Morgan Williams, Llangennech.
20. B. Powell Morris, Talyllyn.
21. Michael Williams, Blaenplwyf.
22. E. G. Davies, New Quay.
23. J. Wilson Roberts, Arthog.
24. James Griffiths, Pembrey.
25. { E. Walter Llewelyn, Glynneath. / Llewelyn Griffiths, Dinas.
26. Frederick Thomas, Aberdâr.

MARWOLAETHAU PREGETHWYR.

Y PARCH. GRIFFITH EVANS, ABERDYFI.

WELE un arall o weinidogion y Methodistiaid yn y Gogledd wedi huno, yn gwneyd y *pedwerydd* a gymerwyd ymaith yn ystod y ddau fis diweddaf! Bu farw Mr. Evans boreu dydd Mercher, Tachwedd 6ed, yn 62ain mlwydd oed. Tystiolaeth unfryd y rhai a adwaenent Mr. Evans oreu ydoedd ei fod yn ŵr crefyddol a duwiol; yn bregethwr ymarferol a buddiol; yn weithiwr aiddgar, defnyddiol, a ffyddlawn ymhob cylch, crefyddol a gwladol, y troai ynddynt. Teimlai ddyddordeb neilduol yn y gwaith Cenadol. Yr oedd wedi bod yn ddiweddar ar ymweliad â'i ddau fab yn America. Gwnaed argraff ddofn arno yno o amddifadrwydd ei gyd-genedl o foddion gras mewn rhanau pellenig o'r wlad eang hono. Traethodd ffrwyth ei sylwadaeth ar hyn yn y Cyfarfod Misol, y Gymdeithasfa Chwarterol, a'r Gymanfa Gyffredinol; ac hefyd trwy y wasg. Yr ydoedd yn ddiweddar wedi cael tarawiad trwm o'r parlys, ac wedi cystudd o rai wythnosau, ymadawodd â'r bywyd hwn ar y dydd a nodwyd. Yr ydoedd wedi priodi yr ail waith. Gadawodd weddw a phump o blant i alaru ar ei ol.

Cymerodd y gladdedigaeth le ddydd Sadwrn, Tachwedd 9fed. Gwasanaethwyd wrth y tŷ gan y Parch. E. W. James, Borth. Aed oddiyno mewn 30 o gerbydau i Fryncrug. Llywyddwyd yn y capel gan Mr. Owen Owens, Penrhyn, Llywydd Cyfarfod Misol Gorllewin Meirionydd. Dechreuwyd trwy roddi emyn allan i ganu, darllen a gweddio gan y Parch. J. H. Symond, Towyn. Yna siaradwyd gan y Parchn. J. Owen, Aberdyfi; R. Owen, M.A., Pennal; R. W. Jones, Towyn; W. Davies, Llanegryn; a Mr. Griffith Jones, Tŷ mawr. Terfynwyd trwy weddi gan y Parch. J. Roberts (A). Rhoddwyd pennill i'w ganu wrth y bedd, a darllenwyd cyfran o'r Ysgrythyr gan y Parch. E. J. Evans, Penrhyn; a gweddiwyd gan y Parch. E. Roberts, Dyffryn. Yr oedd lliaws o weinidogion, blaenoriaid, a chyfeillion yn yr angladd o wahanol ardaloedd.

Y PARCH. J. JENKINS, EBBW VALE.

Bu farw y gweinidog ieuanc gobeithiol hwn yn annysgwyliadwy, ddydd Llun, Hydref 21ain. Cystudd byr a gafodd, ond llym, trwy ennyniad yr ysgyfaint. Nid oedd ond 32 mlwydd oed. Yr oedd yn hanu o deulu anrhydeddus, y rhai sydd, fel yr oedd eu hynafiaid, yn golofnau cedyrn dan yr Achos yn ein plith fel Cyfundeb. Dechreuodd Mr. Jenkins bregethu tua deng mlynedd yn ol. Aeth trwy ei addysg ragbarotoawl yn Ysgol Ramadegol Llandyssul, dan ofal y Parch. T. James, M.A. Aeth i Athrofa Trefecca yn y fl. 1884, lle y gwnaeth gynnydd amlwg mewn dysg. Tua blwyddyn yn ol derbyniodd alwad i weinidogaethu yi eglwys Seisonig Mount Pleasant, Ebbw Vale, ac ordeiniwyd ef i'r holl waith yn y Gymanfa yn Cwm Rhondda, yn mis Awst diweddaf. Ennillodd gymeradwyaeth mawr yr eglwys a'r gynnulleidfa, er na bu ond am tua blwyddyn yr eu gwasanaethu. Cludwyd ei weddillion marwol i'w claddu i Llechryd, dydd Mawrth yr 22ain. Gwasanaethwyd yn yr angladd gan liaws o weinidogion o wahanol enwadau.

Nodiadau Misol.

NODIADAU AR GYFARFODYDD HYDREF.

Y GYMANFA EGLWYSIG.

CYNNALIODD yr Eglwys Sefydledig ei Chymanfa flynyddol eleni yn Nghaerdydd, lle y rhoddwyd iddi dderbyniad croesawus. Bernid fod tuag wyth gant o ddyeithriad yn bresenol o wahanol barthau y deyrnas. Y Llywydd oedd Dr. Lewis, Esgob Llan-

dâf. Dechreuwyd y gweithrediadau gyda thair o bregethau gan wahanol esgobion, a'r Araeth agoriadol gan y Llywydd. Cynnaliwyd fel arferol lïaws o gynnadleddau, yn y rhai y darllenwyd papyrau ac y traddodwyd anerchiadau ar lïaws o faterion, megys undeb yr Eglwys a'r wladwriaeth, achos Addysg, y weinidogaeth a'r cymhwysderau iddi, perthynas yr Eglwys â'r dosbarthiadau gweithiol, ac undeb Cristionogol.

Eglwys *St. Mary* oedd un o'r Eglwysi yn y rhai y cynnelid y gwasanaeth agoriadol, ddydd Mawrth, Hydref 1af. Esgob Derry oedd y pregethwr penodedig. Gweinyddwyd yr ordinhad o Swper yr Arglwydd yn y gwasanaeth hwn, gyda'r ddefodaeth fwyaf uchel a rhwysgfawr. Yr oedd cannoedd yn bresennol, ond tri yn unig a gyfranogodd o'r Ordinhâd. Ni chaniateid i neb gyfranogi ond y rhai oedd wedi anfon ymlaen llaw i hysbysu eu bwriad i gymuno. Parai hyn, yn nghyda'r defodau, iddo fod yn arddangosiad defodol, ac nid yn wasanaeth y Cymun Sanctaidd. Yr oedd mor debyg ag oedd bosibl i wasanaeth yr Offeren *(Mass)* yn yr Eglwys Babaidd. Cynnwysai y seremoniau ar yr achlysur y pethau canlynol:—Canwyllau goleuedig; gwisgoedd defodol, megys y *chasuble, alb, tunicle, dalmatic, biretta;* mynych arogldarthu; *wafer bread;* y gwpan gymysg; cuddio y *manual acts;* defnyddio y groes; dyrchafu yr elfenau, a llïaws o'r cyffelyb bethau. Ni raid dyweyd fod hyn i gyd yn peri syndod a gofid i Ymneillduwyr Protestanaidd o bob enwad. Ond heblaw hyny, parodd dramgwydd nid bychan i'r blaid efengylaidd o fewn yr Eglwys ei hunan. Ymddengys mai ficer *St. Mary* sydd yn gyfrifol am hyn—Uchel-Eglwyswr, a defodwr o'r defodwyr. Pan wybuwyd fod hyn yn ei fwriad, ysgrifenwyd ato ymlaen llaw i geisio ganddo roddi y bwriad heibio. Ond ni wrandawai ar neb na dim. Safai ar ei hawl i wneuthur a fynai yn ei eglwys ei hunan. Ysgrifenodd y Parch. J. W. Marshall, a dau eraill, lythyr at Esgob Llandâf, fel Llywydd y Gymanfa, i'r *Rock*, i ddesgrifio y gwasanaeth ac i wrthdystio yn ei erbyn. Atebodd yr Esgob, os oedd y gwasanaeth fel y darlunient hwy ef, ei fod yn ystyried eu gwrthdystiad yn hollol briodol. Dywedai ymhellach, pe buasai wedi meddwl fod y fath beth yn bosibl, na buasai wedi gofyn i Esgob Derry bregethu yn yr Eglwys hono. Yr oedd y cam hwn, yn hollol annibynol ar y ddadl ynghylch Defodaeth, yn annoeth i'r eithaf, gan ei fod yn rhoddi tramgwydd a dolur mawr i'r holl blaid Efengylaidd yn yr Eglwys. Ac yr oedd nid yn unig yn annoeth, ond yn anghyfiawn. Y mae yn wybyddus fod y Gymanfa Eglwysig yn cael ei gwneyd i fyny o bob ysgol yn yr Eglwys, felly y mae cyd-oddefiad yn ammod sylfaenol iddi. Ond wrth wneyd hyn, yr oedd y blaid ddefodol yn yr Eglwys yn *commitio* y Gymanfa fel y cyfryw i'w golygiadau neillduol hwy. Yr unig beth a allai y pleidiau eraill wneyd oedd yr hyn a wnaed—ysgrifenu i'r papyrau Eglwysig i wrthdystio.

Dywedodd Deon Llandâf, Dr. Vaughan, gŵr rhagorol o feddwl ac ysbryd, yn nghyfarfod olaf y Gymanfa, ar "Sefyllfa ieithyddol Cymru," eiriau am Ymneillduwyr oeddynt yn anrhydedd mawr i'w synwyr a'i ras. Gofynai, "A oedd yno rywun am adseinio dywediad un Esgob Seisonig fod Ymneillduwyr yn elynion naturiol Eglwyswyr? Nac oedd: oblegid nid oeddynt, am eu bod yn ymladd â'r un gelynion, o dan fanerau yr un Gwaredwr. Yr oedd Ymneillduwyr a hwythau yn gweithio ar linellau cyfochrog, y rhai ni chyfarfyddent byth hyd nes y cyfarfyddent yn y Nefoedd." Dybenodd y Deon ei araeth ragorol, yn yr hon y cydnabyddai y gwasanaeth a wnaeth Ymneillduaeth i Gymru, ac y diolchai, neu y gwahoddai ei frodyr i ddiolch, am yr afael gref oedd gan Ymneillduaeth, trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg, ar deimladau crefyddol y genedl, am fod Ymneillduwyr ac Eglwyswyr yn cytuno ar naw pwnc o bob deg, os oeddynt yn gwahaniaethu ar un o bob deg—dybenodd ei araeth mewn dammeg, yr hon a adawn i'n darllenwyr ei dehongli:—"Yr oedd efe yn dybenu gydag un 'gair i gall.' Yr oedd *rhywbeth yn attal.* Ni aflonyddai undeb y cyfarfod trwy ddyweyd beth oedd." Traddododd Deon newydd Llanelwy araeth synwyrol a chymedrol yn yr un cyfarfod. Credwn fod Deon Owen yn ŵr o'r un ysbryd rhagorol a Deon Llandâf; ac y bydd mor lwyddiannus fel Deon yn Llanelwy ag y bu fel ysgolhaig yn Rhydychain, ac fel prif-athraw yn Llanymddyfri.

Trist oedd gweled y fath gyfleusdra pwysig yn cael ei dreulio mor llwyr i ogoneddu "yr Eglwys," sef Eglwys Loegr, nes bod Pen yr Eglwys yn gymaint o'r golwg; ac na fuasai mwy o ddifrifwch amcan yn cael ei ddangos i ystyried y ffyrdd mwyaf effeithiol o ddwyn gwirioneddau ac ysbryd Cristionogaeth i weithredu ar anghenion ysbrydol a chymdeithasol y cyfnod pwysig yr ydym yn awr yn myned trwyddo. Gwelid hefyd fod y cyfeiriadau caredig a wnaed at safle a gwaith yr enwadau

Ymneillduol gan rai o'r clerigwyr mwyaf rhyddfrydig, yn wrthodedig ac annyoddefol gan liaws mawr o'r clerigwyr oedd yn bresennol. Teimlid mai yr unig beth i'w wneyd âg Ymneillduwyr oedd eu proselytio. Bernir fod y Gymanfa hon wedi cryfhau sefyllfa Ymneillduaeth yn Nghymru.

YR UNDEB CYNNULLEIDFAOL.

Cynnaliwyd cyfarfodydd hydrefol Undeb Cynnulleidfaol Lloegr a Chymru eleni yn Hull. Cyfrifid fod tua saith gant o gynnrychiolwyr yn bresennol. Traddodwyd "y Bregeth flynyddol" gan y Parch. H. Arnold Thomas, M.A., ar Act. ii. 4: "A hwy oll a lanwyd â'r Ysbryd Glân." Gofynai ymha beth yr oedd Cristionogion yn credu yn awr? Ai yn yr Ysbryd? Ofnai fod yn rhaid ateb mai ymhob peth braidd ond yr Ysbryd. Diolchai am y rhyddid a feddai yr Eglwysi Ymneillduol Protestanaidd—rhyddid i addoli Duw a dwyn ei waith ymlaen yn ol eu cydwybod. Ond a oeddynt yn iawn ddefnyddio y breintiau am y rhai yr oeddynt yn dadleu ac yn ymladd gyda'r fath zel? Teimlid fod y bregeth yn "air yn ei amser." Ar ol yr oedfa hon, cynnaliwyd Cyfarfod Dirwestol Blynyddol yr Undeb. Ymhlith y siaradwyr yr oedd y Parchn. T. Nicholas Knight, Thomas Evans, a J. Jackson Wray. Traddodwyd yr Araeth o'r gadair gan y Llywydd am y flwyddyn, y Parch. Dr. Falding. Y testyn oedd, "Gweinidogaeth yr Eglwysi." Dywedai fod y sylw mor gyffredin nes bod bron yn ddiareb fod delw y gweinidogion ar yr eglwysi. Galwai efe sylw neillduol at yr ochr arall—fod delw yr eglwysi ar y gweinidogion. Ystad ysbrydol yr eglwysi oedd yn penderfynu, fel rheol, gymeriad y weinidogaeth. O'r eglwysi yr oedd y gweinidogion yn cael eu codi; cyfranogent o fywyd crefyddol yr eglwysi, ac anfynych y cyfodent uwchlaw *level* eu syniadau, eu harferion a'u teimladau ysbrydol. Dadleuai yn wresog dros y pwys o roddi addysg athrofäol i'r gweinidogion. Sylwai fod gormod o lawer yn cael ei ddysgwyl gan y gweinidog. Dywedai y dysgwylid iddynt ddal holl swyddogaethau y Testament Newydd mewn un pâr o ddwylaw—esgobion, henuriaid, bugeiliaid, athrawon, prophwydi, efengylwyr, angylion a chenadau yr Eglwys foreuol. Ni ddysgwylid dim tebyg i hyn gan esgobion eglwysi Galatia, Ephesus neu Philippi. Dylai pob gweinidog gael ei amgylchynu gan gynnorthwywyr ewyllysgar ymhob rhan o'r gwaith. Gwelid yn ystod y cyfarfodydd fod Dr. Falding yn y sylw hwn yn amlygu teimlad cyffredinol a fodolai ymhlith gweinidogion.

Darllenodd Dr. Hannay lythyr oddiwrth Archesgob Caergaint at y Llywydd ar y pwnc o Undeb. Penderfynwyd ateb yn nacaol, gan mai un ammod ydoedd cydnabod yr Esgobyddiaeth Hanesyddol *(Historic Episcopate)*, neu yr anghenrheidrwydd am urddau esgobyddol er mwyn dyfod i mewn i linell yr olyniaeth. Sylwid y buasent trwy hyn yn corffori eu hunain mewn cyfundrefn ag yr oedd eu holl hanes wedi bod yn un gwrthdystiad yn ei herbyn. Ar yr un pryd, dadgenid gobaith y byddai y llythyr yn ddechreuad perthynasau mwy deddwydd rhwng yr Eglwys ac Ymneillduwyr yn Lloegr. Darllenwyd papyrau ar amryw gwestiynau; ond yr un a gynnyrchodd fwyaf o deimlad (dadleuol) oedd papyr Mr. Albert Spicer ar bwnc y Tir. Dysgybl ydoedd awdwr y papyr i Mr. Henry George, er nad oedd fel efe yn gwrthod rhoddi ad-daliad. Ai cyfarfodydd yr Undeb Cynnulleidfaol yw y lle priodol i ddadleu pwnc y Tir? Bu yno teth siarad ar y cwestiwn cyffredinol hwn. Credwn y dylai Eglwys Crist feddu ymdeimlad byw âg anghenion cymdeithas, ac â phob "gwirionedd presennol," ond yn y lle a'r dull priodol. Dywedodd Mr. Anstey fod defnyddioldeb yr enwad yn dibynu llawer iawn mwy ar drin cwestiynau fel hyn na phynciau duwinyddol. Yn y sylw hwn, rhoddai fynegiad i'r syniad a'r teimlad arwynebol, a thra chyfeiliornus, i'n tyb ni, sydd yn rhy gyffredinol yn Lloegr o lawer, yn erbyn y buddioldeb o efrydu duwinyddiaeth. Da iawn y gwnaeth Mr. Forsyth gyfodi ei lef yn erbyn gwthio duwinyddiaeth i le israddol yn yr Undeb. Y mae hwn yn un o beryglon neillduol yr enwad Annibynol, gan ei fod yn cymeryd dyddordeb mor fawr mewn gwleidyddiaeth. Ond credwn yn sicr am yr holl enwadau Ymneillduol yn Lloegr, ac eithrio personau, bid siwr, mai nid eisieu *llai* o dduwinyddiaeth sydd arnynt, fel rheol, ond *llawer iawn mwy*. Cywir iawn, dybygem, yw y sylw a wnaed yn un o'r papyrau goreu—fod Annibynwyr Lloegr ar yr iawn *track* wrth roddi eu dynion cryfaf at y gwaith o gyfranu addysg mewn duwinyddiaeth; na wnaethant ddim teilyngach o honynt eu hunain a'u hanes goreu na sefydlu Coleg Mansfield; ac y gwnai efrydiaeth onest a thrwyadl o'r Bibl ein cynnorthwyo mewn cwestiynau cymdeithasol yn fwy na holl weithiau trafnidwyr politicaidd, pa un bynag ai yn America ai Lloegr.

UNDEB Y BEDYDDWYR.

Cynnaliwyd Cyfarfod Blynyddol yr Undeb hwn eleni yn Birmingham yn nechreu mis Hydref. Dywedir fod dros fil o gynnrychiolwyr yn bresennol. Yr oedd y cyfarfod yn un tra llwyddiannus. Un o'r cyfarfodydd mwyaf effeithiol yn y gyfres oedd yr un a gynnaliwyd yn y *Town Hall*—cyfarfod i ddynion yn unig. Traddododd tri o weinidogion areithiau yn erbyn y *tri drwg mawr* sydd ar hyn o bryd yn bygwth andwyo y genedl Seisonig. Areithiodd y Parch. R. Glover ar "Burdeb;" Dr. Clifford ar "Hapchwareu;" a'r Parch. G. W. McCree ar y "Ddiod Feddwol." Drwg genym na oddef ein gofod i ni ymhelaethu.

AGORIAD CAPEL MANSFIELD.

Agorwyd Coleg Mansfield, Rhydychain, Llun, Mawrth a Mercher, Hydref 14, 15, a'r 16eg. Traddodwyd pregeth nos Lun gan Dr. Dale, Birmingham, oddiar Judas 3, "Gan eich annog i ymdrech yn mhlaid y ffydd, yr hon a rodded unwaith i'r saint." Dangosai mai i'r "saint" y rhodded y "ffydd," neu wirionedd yr Efengyl, i'w gadw a'i ledaenu. Hwyntwy yn unig a allent ddeall y dadgudduiad. Nis gallai unrhyw wybodaeth ieithyddol wneyd duweinydd. Yn yr ail ran o'r bregeth, dadleuai yn eofn dros ryddid y rheswm, o fewn y terfynau priodol, mewn duwinyddiaeth yn gystal a gwyddoriaeth. Amddiffynai Feirniadaeth Ysgrythyrol, ond heb roddi un math o gefnogaeth i ysgol o feirniadaeth a gyfododd yn ddiweddar i nôd a bri. Rhaid barnu a phwyso—"profi pob peth a dal yr hyn sydd dda." Pregeth ragorol dybygem, ond dywedodd un gweinidog oedd yno wrthym mai yr hyn a alwn ni yn Nghymru yn "oedfa galed" ydoedd. Gweinyddwyd yr ordinhâd o Swper yr Arglwydd ddydd Mawrth. Dywedir dod anerchiad Dr. Reynolds yn "em perffaith." Traddodwyd yr Araeth agoriadol gan y Prifathraw, Dr. Fairbairn. Aeth trwy y gorchwyl hwn yn rhagorol, ac yr oedd yn gofyn nid ychydig o ddoethineb a nerth i'w wneyd yn iawn. Cadwodd Dr. Fairbairn ar hyd canol y llwybr cul, heb wyro i hunan-hòniad gormodol ar ran Ymneilldnaeth a'r Coleg newydd, nac i dôn rhy wasaidd a hunan-ddibrisiol yn mhresennoldeb dysgedigion mawr prif eisteddle dysgeidiaeth y byd. Gan un o'r rhai enwocaf o honynt hwy y cynnygiwyd yn y ciniaw y llwnc-destyn o lwyddiant y Coleg—Proffeswr Jowett. Talodd deyrnged hael i ddysgeidiaeth Dr. Fairbairn, ei allu, a'i fedr i lywodraethu ac i ennill serch. Cynnygiwyd y llwnc-destyn o lwyddiant Prif-athrofa Rhydychain gan Dr. Dale. Y mae agoriad y fath Goleg yn Rhydychain yn ddiau yn "ymadawiad newydd" (i fenthyca yr ymadrodd Seisonig). Cydunir fod Dr. Fairbairn yn ŵr tra chymhwys i lywyddu ac i gynnrychioli dysgeidiaeth Ymneilldnol yn Rhydychain ei hunan. Y mae yn ŵr o alluoedd a chyrhaeddiadau anghyffredin—yn ysgolhaig da, yn feddyliwr cryf ac addfed, yn meddu personoliaeth grymus, ac felly ddylanwad mawr. Credwn yr egyr y Coleg hwn gyfnod newydd mewn dysg yn hanes y weinidogaeth Gynnulleidfäol yn Lloegr.

Cofnodau Cymanfaol.

CYMDEITHASFA BANGOR,

Awst 27, 28, 29, 1889.

Llywydd:—Y Parch. John Pritchard, Amlwch.

(Parhâd o tu dal. 433.)

XVIII. *Trust Deed Trysorfa y Gweinogion.*—Cymeradwywyd a chadarnhäwyd y *draft* o'r *Trust Deed.*

XIX. *Gweinyddiad yr Ordinhad o Swper yr Arglwydd.*—Darllenwyd yr Adroddiad dilynol o weithrediadau y Pwyllgor a benodwyd yn y Gymdeithasfa ddiweddaf i gymeryd y mater hwn i ystyriaeth. Ar ol i amryw frodyr anerch y cyfarfod, cadarnhäwyd yr adroddiad yn unfrydol:—

Cyfarfu y Pwyllgor yn Mangor dydd Mawrth, Awst 27ain. Yr oedd yn bresennol y Parchn. Owen Thomas, D.D., John Hughes, D.D., Thomas Owen, James Donne, Daniel Rowlands, M.A., Owen Jones, B.A., William James, B.A., a John Pritchard; a'r Mri. Thomas Lewis, A.S., Edward Griffith, U.H., D. P. Davies, U.H., Robert Rowland, U.H., a Richard Davies, U.H. Cymerwyd y gadair gan y Parch. J. Pritchard.—1. Darllenwyd y genadwri ganlynol a ddaeth o Gyfarfod Misol Gorllewin Meirionydd i Gymdeithasfa ddiweddar Dinbych:—"Yn wyneb y gofyniad a anfonwyd i'r Cyfarfod Misol o un o eglwysi y Sir o berthynas i weinyddiad yr Ordinhad o Swper yr Arglwydd, ar ol ymddyddan pwyllog ar y mater, penderfynwyd,—Ein bod yn anfon cenadwri i'r Gymdeithasfa i ofyn am gyfarwyddyd gyda golwg ar y priodoldeb o fod y diaconiaid yn cynnorthwyo yn ngweinyddiad yr Ordinhad o Swper yr Arglwydd mewn eglwysi mawrion, er mwyn cael cyd-ddealltwriaeth a chydweithrediad yn y mater." —Darllenwyd hefyd benderfyniad y Gymdeithasfa ar y genadwri uchod, sef fod nifer o frodyr i fod yn bwyllgor i ystyried y cwest-

iwn a ddygir i sylw ynddi, ac i roddi adroddiad arno yn y Gymdeithasfa nesaf.—2. Penderfynwyd,—Yn wyneb y cynnydd mawr sydd wedi cymeryd lle mewn blynyddoedd diweddar yn nifer yr aelodau perthynol i lïaws o'n heglwysi; ac wrth weled fod y drefn bresennol o weinyddu yr Ordinhad dan sylw yn tueddu at wneyd y gwasanaeth yn faith ac yn hytrach yn feichus i'r gynnulleidfa yn gystal ag i'r gweinidog; a chan edrych yn ol at ysbryd eang a Christionogol y geiriau canlynol yn ein *Cyffes Ffydd* ar y mater,—"Fod y dull presennol o weinyddu y Swper sanctaidd yn gyffredinol yn cael ei arferyd, can agosed ag y gellir, heb osod defodau caethion ar neb ynghylch pethau dadleuol ac ammheus, ond goddef eangder yn ein holl drefniadau, cyfatebol i eangder yr oruchwyliaeth efengylaidd, fel y gallo pawb gyduno â'u gilydd heb ddim petrusder cydwybod,"—Ein bod yn ystyried y geilir ei adael i ddoethineb yr eglwysi i'w benderfynu yn unol â'r amgylchiadau, a chan gadw yn ofalus mewn golwg drefn weddus ac urddas teilwng y gwasanaeth, pa un a fydd i un neu ychwaneg o'r blaenoriaid gynnorthwyo y gweinidog yn ngweinyddiad yr Ordinhad o Swper yr Arglwydd neu beidio.—JOHN PRITCHARD, *Cadeirydd;* WILLIAM JAMES, *Ysgrifenydd.*

XX. *Cynnrychiolaeth yr Eglwysi yn y Cyfarfodydd Misol.*—Cafwyd ymdrafodaeth faith a lled wresog ar genadwri a anfonwyd i Gymdeithasfa Dinbych o Gyfarfod Misol Liverpool. Yn y diwedd cytunwyd i benodi pwyllgor o saith o bersonau i wneyd ymchwiliad i gysylltiad yr eglwysi cenadol â'r Cyfarfodydd Misol. Cymeradwywyd y personau canlynol:—Parchn. Robert Roberts, Dolgellau; Thomas Owen, Portmadog; William James, B.A., Manchester; ac Owen Jones, B.A., Liverpool; Mri. Thomas Lewis, A.S.; Peter Roberts, Llanelwy; a Robert Rowland, U.H. Mr. Rowland i fod yn gynnullydd. Ysgrifenydd a Thrysorydd y Genadaeth Gartrefol i fod yn bresennol yn y Pwyllgor, ond nid i bleidleisio.

DYDD MERCHER, AWST 22AIN.

Am 10 *o'r gloch, Cyfarfod y Pregethwyr.* Pwnc: Pa beth a pha fodd i bregethu? a *Chyfarfod y Blaenoriaid.*

Am 1 30 *o'r gloch, Cyfarfod y Pregethwyr a'r Blaenoriaid.*

Dechreuwyd gan y Parch. Samuel Owen, Tanygrisiau.

XXI. *Hanes yr Achos yn Arfon.*—Traddodwyd anerchiad gan y Parch. Thomas Roberts, Bethesda, yn rhoddi hanes hynod o ddyddorol ac addysgiadol am ansawdd yr Achos yn Arfon. Gwnaeth y Parch. Owen Thomas, D.D., amryw sylwadau gwerthfawr ar hanes yr Achos.

XXII. *Cyfarfod y Blaenoriaid.*—Cadarnhäwyd yr Adroddiad dilynol o weithrediadau Cyfeisteddfod y Blaenoriaid:—

Llywydd,—Mr. P. Roberts, Llanelwy.—1. Darllenwyd Cofnodau y cyfarfod diweddaf, a chadarnhäwyd hwy.—2. Penodwyd Mri. Griffith, Dolgellau, a T. Jones, Plas Coch, i archwilio cyfrifon y Trysorydd, i gywirdeb pa rai y tystiolaethent, a darllenwyd y Cyfrifon; a chyflwynwyd diolchgarwch gwresog i cyfarfod i Mr. R. Rowland am ei wasanaeth gwerthfawr fel Trysorydd, yr hon swydd y mae yn ei chyflawni yn rhad bob blwyddyn.—3. Dymunwyd ar yr Ysgrifenydd anfon at Ysgrifenydd Cyfarfod Misol neillduol sydd heb anfon y taliad angheurheidiol am y ddwy flynedd, i alw ei sylw at hyn, gan obeithio y gwneir hyny ar unwaith.—4. Penderfynwyd fod y brodyr canlynol yn cael eu penodi yn bwyllgor i benderfynu ar faterion i Gyfeisteddfod y Diaconiaid am y flwyddyn nesaf, Mri. Owen Jones, Talsarn; Dr. Roberts, Menai Bridge; P. Roberts, Llanelwy; E. Griffith, Dolgellau; R. Rowland, Pwllheli, a'r Ysgrifenydd; ac hefyd i ystyried y priodoldeb o ddewis Llywydd *am flwyddyn* i Gyfeisteddfod y Diaconiaid.—5. Cafwyd ymdrafodaeth faith a gwerthfawr ar y mater canlynol, sef, "Yr anghenrheidrwydd am lenyddiaeth bur a sylweddol i'r oes sydd yn codi;" a phenderfynwyd,—Ein bod yn dymuno ar i'r Gymdeithasfa anfon cenadwri ddifrifol i'r holl Gyfarfodydd Misol, a thrwyddynt hwy i'r Cyfarfodydd Ysgolion, a'r Eglwysi, a'r Ysgolion Sabbothol, ar fod pob ymdrech yn cael ei wneyd i feithrin chwaeth at lenyddiaeth bur a chrefyddol, trwy wneyd ymholiad a oes lledaeniad i lyfrau da a buddiol yn yr holl ardaloedd, a thrwy ddwyn y cyfryw lyfrau i sylw yr ieuenctyd ac eraill, a threfnu llwybr iddynt i'w pwrcasu yn y ffordd oreu, ynghyd a thrwy roddi cefnogaeth i bob trefniant sydd genym tuag at fagu ysbryd ymchwilgar a darllengar yn y rhai sydd dan ein gofal, megys yr Arholiadau Ysgrythyrol a phethau eraill, &c.—6. Penderfynwyd hefyd ein bod i wneyd ymofyniad yn y cyfarfod nesaf,—Pa beth a fydd wedi ei wneyd ymhob Sir gyda hyn; a'n bod yn cael trafodaeth bellach ar yr un mater, a bod Mr. Edwards, Caerhun, i agor y mater.—OWEN WILLIAMS, *Ysgrifenydd.*

Gwnaed sylwadau cyfeiriadol ar y mater o ledaeniad llenyddiaeth bur gan Mri. Peter Roberts a Dr. Roberts, U.H., Porthaethwy. Yn y cysylltiad hwn galwyd sylw at ddwy gyfres o lyfrau neillduol o ddyddorol ac addysgiadol, sef *Cyfres y Werin*, a *Chyfres y Bala.*

XXIII. *Dydd Diolchgarwch.*—Hysbyswyd fod y gweithfaoedd yn penodi dydd Llun, Hydref 21, yn Ddiwrnod Diolchgarwch am y Cynhauaf.

XXIV. Cyflwynwyd yr Adroddiad dilynol o Weithrediadau y Drysorfa Gynnorthwyol:—

Mr. E. Davies, U.H, Llandinam, yn Gadeirydd.—1. Cyflwyna y Cyfeisteddfod y Parchn. Hugh Jones, o Liverpool; Dr. W. D. Lewis a Mr. Evan Thomas, o Drefalwyn Isaf, fel aelodau o'r Pwyllgor Cyffredinol.—2. Wedi mynedvn fanwl trwy daflen y ceisiadau am gynnorthwy, cyflwyna y Cyfeisteddfod y rhestr (a welir yn y *Cylchlythyr*) fel rhai rheolaidd.—3. Sylwa eich Pwyllgor fod nifer lled helaeth o'r ceisiadau hyn yn hanner teithiau, a chred y deilliai budd ychwanegol trwy ddwyn yr eglwysi eraill yn y teithiau hyn o dan y Drysorfa. Penderfynwyd—(*a*) Fod Mr. Peter Roberts i ddwyn hyn i sylw y Gymdeithasfa yn Mangor. (*b*) Ar fod y Pwyllgorau Sirol yn talu sylw arbenig i'r rhan hon o'u gwaith. (*c*) Ar fod i'r Ysgrifenydd gael hysbysrwydd oddiwrth y Pwyllgorau Sirol am bob achos lle y cyflwynir hanner, neu ran o daith fel maes gweinidogaethol.—4. Dynuna y Pwyllgor alw sylw unwaith eto at y dull diofal y gwna rhai o'r Pwyllgorau Sirol eu gwaith mewn edrych i mewn i'r ceisiadau, ac yn eu cyflwyniad i'w gwahanol Gyfarfodydd Misol, ac erfynia am

fwy o wir ofal yn hynyma.—5. Rhoddodd y Trysorydd adroddiad o'r derbyniadau am y flwyddyn. Llawenychai eich Pwyllgor wrth weled peth cynnydd eto y flwyddyn hon. Er hyny, mawr ymofidiai o herwydd agwedd ddiffrwyth rhai o'r Siroedd er y dechreu gyda'r gwaith hwn, ac appelia at y rhai yn y Siroedd hyny a deimlant dros yr achos, i ymroddi iddo.—6. Trwy fod rhif y ceisiadau am gynorthwy yn ychwanegu mwy na'r casgliad, penderfynwyd fod £18 yn cael ei dalu fel cyfran am eleni; a mawr ymofidia y Cyfeisteddfod na alluogwyd ef eleni i estyn £20 o leiaf, megys y gwnaed y llynedd.—7. Derbyniwyd llythyr oddiwrth Mr. E. Jones, Bala, yn hysbysu y Cyfeisteddfod fod ei frawd, y diweddar Mr. R. Jones, U.H., Bala, wedi gadael cymunrodd o £100, yn rhydd o doll, tuag at y Drysorfa, a diolcha y Cyfeisteddfod i Mr. Jones am yr hysbysrwydd hwn. Awdurdodwyd y Cadeirydd a'r Trysorydd i roddi yr arian hyn, pan dderbynir hwy, allan ar lôg yn y modd goreu y gallont.—8. Dymuna y Cyfeisteddfod eleni eto gydnabod yn ddiolchgar y cynnorthwy a dderbyniasom oddiwrth Mr. D. Davies, U.H., Llandinam; Ymddiriedolwyr Mr. T. Jones; a llafur ffyddlawn a chyson y Trysorydd, Mr. Peter Roberts.—9. Cyflwyna y Cyfeisteddfod ei ddiolchgarwch i'r Archwilwyr am y flwyddyn a aeth heibio; a dymuna ar i Mr. J. H. Roberts, U.H., a Mr. E. P. Jones, Rhyl, i wasanaethu fel Archwilwyr am y flwyddyn hon.—10. Derbyniwyd y genadwri ganlynol o Gyfeisteddfod Sirol Gorllewin Meirionydd:—"Ein bod yn dymuno galw sylw y Pwyllgor Cyffredinol at y priodoldeb o dretnu rhyw foddion trwy ba rai y gellid gwneyd i ffwrdd â'r gwahaniaeth sydd yn ammodau derbyniad o'r Drysorfa yn ol Rheolau 11eg a'r 12fed, am ein bod yn llwyr argyhoeddedig fod hyn yn milwrio yn erbyn ei llwyddiant.—SAMUEL OWEN, *Ysgrifenydd.*"—A phenderfynwyd ein bod yn cymeryd y mater dan ystyriaeth hyd nes yr ymgyferfydd y Pwyllgor drachefn.—11. Penderfynwyd ein bod yn ceisio gan y Trysorydd, Mr. Peter Roberts, a Dr. Hughes, gyflwyno yr Adroddiad i'r Gymdeithasfa.—12. Rhoddwyd diolchgarwch cynhes y Pwyllgor i'r Llywydd, Mr. E. Davies, U.H., am ei wasanaeth ffyddlawn.—EDWARD DAVIES, *Llywydd;* T. J. WHELDON, *Ysgrifenydd.*

Sylwai Mr. Peter Roberts, Trysorydd y Gronfa, 1. Fod yn bwysig iawn i fudd y Drysorfa gael ei yru mor bell ag sydd modd, trwy ofalu fod digon o waith yn cael ei ddarparu ar gyfer y gweinidog ymhob taith. 2. Na ddylai y gofalaeth (*pastoral charges*) gael eu mânu yn ormod, fel y byddo y gwaith a'r cyflog yn myned yn rhy fychan.—Yn ganlynol traddodwyd anerchiad gwresog gan Dr. John Hughes, a chymeradwywyd a chadarnhäwyd yr Adroddiad.

XXIV. *Llyfrau Newyddion.*—Galwyd sylw at, rhoddwyd cymeradwyaeth uchel i, ac annogwyd i brynu, y llyfrau canlynol:—*Cofiant a Phregethau y diweddar Barch. Richard Owen.* Gee a'i Fab. Pris 3s. 6c.—*Y Pulpud Cymreig*, gan y Parch. Owen Thomas, D.D. Cyhoeddedig ar gais y Gymdeithasfa. Hughes a'i Fab, Wrexham. Pris 1s. a 1s. 6c.—*Esboniad y Parch. David Charles Davies, M.A., Trefecca*, ar Epistol Cyntaf Ioan. Pris 3s. I'w gael gan y Parch. D. Charles Evans, Menai Bridge.—*Braslun o Fywyd ac Epistolau Paul*, gan y Parch. John Evans, Eglwysbach. P. M. Evans a'i Fab, Treffynnon. Pris 2s. 6c.—*Trefn a Chydwybod wrth Oruchwylio Arian*, sef Pamphledyn hynod o rymus. Pris 1c. Jarvis & Co., Lorne House, Bangor.

Terfynwyd gan y Llywydd.

DYDD IAU, AWST 29AIN.

Am 8 30, *Cyfarfod y Pregethwyr a'r Blaenoriaid.*

Dechreuwyd gan y Parch. Thomas Ellis, Llanystumdwy.

XXV. *Cofion Cynhes o'r America*.—Darllenwyd dau lythyr a dderbyniwyd trwy law y Parch. Francis Jones, Abergele, sef o'r Gymanfa yn Cambria, Mehefin 11—18, a'r Gymanfa yn Jerusalem, Blue Earth, County Minnesotta, Mehefin 18—20, yn cynnwys cyfarchiadau caredig atom fel Cyfundeb yn Nghymru. Wedi i'r Parch. Francis Jones anerch y cyfarfod, ac i'r Parch. John Hughes, D.D., wneyd sylwadau tra amserol ar ansawdd a nodwedd yr ymwelwyr gweinidogaethol a garai y Methodistiaid yn America eu gweled yn eu plith, ac yn enwedig y dymunoldeb i bregethwyr o Gymru fyned drosodd wrth rif a mesur ac ar wahoddiad y Gymanfa ac nid ar gais ewythr neu gefnder. Penderfynwyd,—Ein bod yn gofyn i'r Llywydd dynu allan lythyr doeth a charedig yn atebiad i'r anerchiad a dderbyniwyd oddiwrthynt.

XXVI. *Jiwbili y Genadaeth.*—Hysbyswyd fod Pwyllgor Jiwbili y Genadaeth Dramor i gyfarfod yn yr Amwythig, dydd Mercher, Hydref 2.

XXVII. *Brodyr Ymadawedig.*—Gwnaed sylwadau coffadwriaethol am y diweddar Barch. James Lamb, Liverpool. Penderfynwyd,—Ein bod yn anfon ein cofion a'n cydymdeimlad â'r teulu, ac yn anfon ein cofion hefyd at y Parch. Evan Williams, Morfa Nevin, yn ei lesgedd.

XXVIII. *Pwnc.*—Gwnaed ychydig sylwadau ar y Pwnc penoledig—y Cyfammod Gweithredoedd.

R. H. MORGAN, *Ysgrifenydd.*

Bywgraffiaeth.

MR. THOMAS HUGHES, RHEWL, LLANRHAIADR.

Gan y Parch. JACOB JONES, *Prion.*

Y MAE Prïon wedi bod nid yn anenwog yn hanes Methodistiaid Cymru, ac yn un o eglwysi hynaf y Sir. Un o'r gymydogaeth hon oedd Anne Parry, y sonir am dani yn *Methodistiaeth Cymru* fel un nodedig am ei chyrhaeddiadau mewn gwybodaeth a phrofiad crefyddol, yr hon y cadwyd ei chorff yn ddilwgr yn y bedd am dros naw mlynedd a deugain.

Un o'r gymydogaeth hon hefyd oedd

Thomas Parry, Rhewl, am yr hwn y dywed awdwr *Methodistiaeth Cymru*, "Nid yn fynych y gwelodd un Sir yn Nghymru amgenach blaenor na Thomas Parry; cafodd y fraint o ddechreu yn ieuanc, cynnysgaeddwyd ef âg oes faith, a bu yn proffesu crefydd am 72 o flynyddoedd, ac yn gweini swydd diacon am ymron yr un faint o amser." Diau y bydd gair o hanes Mr. Thomas Hughes, ei fab yn nghyfraith, yn dderbyniol gan yr oes a ddêl.

Ganwyd ef mewn ffermdŷ o'r enw Porth, yn mhlwyf Llanrhaiadr, ger Dinbych, yn y flwyddyn 1801. Enw ei dad a'i fam oedd Thomas a Jane Hughes. Mae yn ymddangos nad oedd ei dad na'i fam yn proffesu crefydd, felly ni chafodd yntau y fraint o gael ei fagu yn eglwys Dduw; ond, fel llawer o'i gyfoedion, fe gychwynodd ei yrfa yn ol helynt y byd hwn, yn gymaint felly fel y cafwyd llawer o drafferth i'w gael ef i wrando y Gair ac i'r Ysgol Sabbothol. Ond trwy yr ysbryd cenadol oedd yn meddiannu yr hen grefyddwyr a sylfaenwyr yr Ysgol Sabbothol, fe'i denwyd ef i'r Ysgol ac i wrando y Gair; ac nid hir y bu nad oedd dylanwadau yr Ysbryd sanctaidd, trwy y Gair a'r weinidogaeth, wedi ei ennill i wneyd proffes o Fab Duw. Felly, pan o ddeunaw i ugain oed, fe gynnygiodd am aelodaeth eglwysig yn Mhrion. Yr oedd y cyfarfod eglwysig y pryd hwnw yn cael ei gynnal am dri o'r gloch y prydnawn, a chafodd ef a gŵr ieuanc arall oedd yn gydymgeisydd dderbyniad croesawgar.

Ymhen rhyw dymmor ar ol hyn, ymbriododd âg Elizabeth, merch yr hybarch Thomas Parry, ac yr oedd yn un o'r merched mwyaf ysgrythyrol a adnabum I erioed (gwel ei Chofiant yn y Drysorfa, Ionawr, 1881, tu dal. 30). Bu iddynt chwech o blant; bu dau farw yn ieuanc, y mae dau yn yr America, ac y mae dwy yn aros yn yr hen gymydogaeth, ac yn nghanol trafferthion magu plant.

Bu eu tŷ yn agored i groesawu gweinidogion y Gair am flynyddoedd lawer. Cafodd ein brawd y fraint o broffesu crefydd am oddeutu chwe' blynedd a thriugain. Tua chwe' blynedd a deugain yn ol, galwyd ef yn swyddog eglwysig, a gwasanaethodd y swydd yn ffyddlawn yn ei holl gysylltiadau. Er nad oedd yn siaradwr mawr, yr oedd yn ysgrythyrwr mawr; yr oedd, fel Apolos, yn gadarn yn yr Ysgrythyrau.

Mewn oes mor faith, fel y gallesid disgwyl, galwyd ef yn ei dro i lenwi gwahanol swyddau eraill. Bu yn arweinydd y gân am flynyddoedd, ond nid hŵy nag y gwelodd fod yno rywrai ieuengach a chymhwysach i'r gwaith. Felly hefyd yn arolygwr yr Ysgol Sabbothol; a than ei arolygiaeth yr oedd hoenusrwydd ieuenctyd i'w weled arni. Bu yn y swydd hon am flynyddoedd.

Yr oedd ganddo lyfrgell dda. Trysorodd yr oll o lyfr yr *Hyfforddwr* yn ei gof, ac adroddodd ef y trydydd neu y pedwerydd tro ychydig o flynyddoedd cyn ei farwolaeth, am yr hyn y derbyn iodd wobr y Dosbarth Ysgolion.

Yr oedd Thomas Hughes yn hynod o ffyddlawn i ddilyn moddion gras, ffyddlawn i'r Cyfarfod Gweddïo, ffyddlawn i'r Cyfarfod Eglwysig; ac os na byddai yn arweinydd yn y cyfarfod hwnw, byddai ei gynghorion a'i adnod yn *ffitio* eu gilydd fel meini teml Solomon. Yr oedd yn hynod o ofalus dros gadwraeth y Sabboth. Byddai ei ddrws yn glöedig ar y Sabboth a noson y *society*, os na byddai rhywbeth anghyffredin. Byddai hefyd yn hynod o ofalus am fod y ddyledswydd deuluaidd yn ddiffwlch; yr oedd yn esiampl i'w ddilyn yn hyn.

Wel, yr ydym yn teimlo yn hiraethus ar ei ol, am na chawn ei weled yn nghongl y sêt fawr. Colled am ei gynghorion i'r bobl ieuainc yn y Cyfarfod Eglwysig i ddysgu yr *Hyfforddwr;* ac yn enwedig yn ei fisoedd olaf. Llawer gwaith y dywedodd y codai y farchnad arnynt—ei bod wedi codi arno ef; ac yn enwedig colled am ei brofiadau yn y Cyfarfod Eglwysig. Fel y dywedai Josua wrth Moses, pan yn dyfod i waered o'r mynydd, felly gallem ninnau wrth ei glywed yntau: "Nid llais bloeddio am oruchafiaeth, ac nid llais gwaeddi am golli'r maes," ond swn brwydro caled rhwng yr hen ddyn â'r dyn newydd, canmol trefn gras, a chwyno o herwydd llygredd ei galon, nes cynhesu yr holl frawdoliaeth. Ond erbyn heddyw y mae wedi cael goruchafiaeth ar bob gelyn.

Ychydig a welodd ei Dad nefol yn dda ei adael yn y glŷn. Bu yn y capel dair gwaith y Sabboth olaf y bu fyw Bore dydd Gwener, Mawrth 11eg, 1887, ehedodd ei ysbryd i wlad y gwynfyd pur, yn y 85 mlwydd o'i oedran. Ond wrth dristâu wrth golli ein hen dadau, y mae genym achos i lawenhau am eu bod wedi gorphen eu gyrfa ac wedi cadw y ffydd, heb dynu dim gwaradwydd ar yr Enw mawr. Fe ddigonwyd ein hen frawd â hir ddyddiau, a dangosodd Duw iddo ei iachawdwriaeth mewn rhyw fodd na wiadd er ddim tebyg erioed o'r blaen. A diammheu ei fod wedi cael canmoliaeth ei Arglwydd ar ddiwedd ei ddiwrnod, "Da, was da a ffyddlawn; buost ffyddlawn ar ychydig, mi a'th osodaf ar lawer; dos i mewn i lawenydd dy Arglwydd." Cafodd gladdedigaeth anrhydeddus. Claddwyd ef yn mynwent y Rhewl, Rhydycilgwyn. Traddodwyd pregeth angladdol, gan yr ysgrifenydd, yn nghapel Prion, y nos Lun canlynol, i dyrfa liosog, ar destyn oedd ef ei hunan wedi ei roddi er ys llawer o flynyddoedd, sef Josua i. 10, 11.

MR. GRIFFITH DAVIES, CEFN BYCHAN, TANYGRISIAU.

Bu farw y gŵr da hwn Gorphenaf 19eg, y flwyddyn hon, yn 73 oed, wedi cystudd trwm am oddeutu tair wythnos o amser. Bu yn flaenor yn eglwys Bethel am ddwy flynedd a deugain; a phrawf o'i gymhwysder i weinyddu y swydd ydoedd ei fod wedi ei ddewis ymhen pedair blynedd ar ol ei ddyfodiad yn aelod eglwysig. Argyhoeddwyd ef dan weinidogaeth y Parch. D. Rees,

Capel Garmon, oddiar y geiriau, "Canys cyflog pechod yw marwolaeth, eithr dawn Duw yw bywyd tragywyddol trwy Iesu Grist ein Harglwydd." Yr oedd yn un y gallesid yn hawdd ei gamgymeryd, gan ei fod yn ymddangos yn hynod wladaidd a thawedog, heb fod erioed yn byw allan o'r gymydogaeth y ganwyd ac y magwyd ef ynddi. Nid wyf yn deall iddo gael dim ysgol ddyddiol. Yr Ysgol Sabbothol yd-oedd yr unig athrofa y bu ynddi, a gwnaeth ddefnydd da o honi hyd y diwedd. Nid wyf yn deall fod dim ag sydd yn gymaint prawf o werth yr Ysgol Sabbothol na'i bod, er pob anfanteisiou, wedi magu llu o ddynion fel hyn. Heblaw ei fod yn ŵr ag oedd wedi llafurio nid ychydig i gael gwybodaeth ysgrythyrol, gellid dywed mai ychydig a allesid eu rhoddi i eistedd mewn barn, ochr yn ochr âg ef, ar unrhyw fater eglwysig; a byddai yn ddigon gwrol, er yn bur ddiymhongar a didramgwydd, yn dadgan y farn hono. Yr oedd yn llawn iawn o ddwy elfen werthfawr mewn dyn da, sef difrifwch ac arabedd. Byddai y natur dda oedd ynddo yn tori allan mor naturiol fel y byddai un yn cael ei hunan yn nghanol y llif heb feddwl ei fod yn agos ato. Pan y gofynid iddo ddywedyd gair yn nechreu y cyfarfod eglwysig, dyweyd ei brofiad personol ei hunan a wnai yn gyntaf; ac os byddai ganddo air i'w ddyweyd fel cynghor, cyflwynai hwnw hefyd ger bron yn y modd mwyaf deheuig, canys yr oedd yn un o'r siaradwyr mwyaf naturiol a glywais erioed. Ni buasech byth yn gwybod oddiwrth ei oslef i ba enwad y perthynai. Y ddau beth y gallech fod yn lled sier o honynt gyda golwg arno ydoedd,—ei fod yn Gymro, a'i fod yn Gymro duwiol iawn hefyd. Oni b'ai am ei waeledd er ys blynyddoedd, diau y buasai yn fwy cyhoeddus gyda'r achos nag y bu. Ond bu o wasanaeth mawr dros dymmor hir. Gobeithiaf yn fawr y bydd ei blant yn cael eu bendithio â chyffelyb ysbryd i'w tad; ac y cynnelir y weddw yn ei phrofedigaeth.

S. O.

Lloffion.

IOAN JONES A'R PABYDD.

Nid oedd Ioan yn rhyw Sais yn y byd, ac os gallai sut ar y ddaear ni "ddifwynai ei dafod," chwedl yntau, i farddeglan Saesoneg. Ond un tro, yr oedd Gwyddel wedi codi ei wrychyn ef yn anghyffredin, ac aeth yn ddadl boeth rhynggdynt yn nghylch rhagoriaeth crefydd y Pab ar y grefydd Brydeinig! "*Our Bible is more divine than yours,*" ebe'r Gwyddel; "*Never—don't ponsh, man* (ebe Ioan), *no divinity in the Pope's Bible.*" Ac wedi hyny, pan oedd ei resymau i ddadlu â'r Pabydd yn myn'd yn ormod i'w dafod allu eu parablu yn Saesoneg, y mae yn dyweyd, "*I like a Bible I can read myself,* FOR *myself, and not another man,* pe tae o'n *Pope, to read it for me.* A throdd at ei gydymaith, a dywedodd, "*Hughes, you speak to him,* a deydwch wrtho fo—*no comparison.*"—*Gemau o Fywyd yr hynod* IOAN JONES, *Rhuthyn.*

TAITH BYWYD.

Nid oes genym ond pererindod byr yma; dylem gadw gyda'n gilydd, a sirioli ein gilydd ar y ffordd.—DANIEL MACMILLAN.

GEIRIAU Y DOETHION.

Nid oes gan y gweithiwr ond traed a dwylaw; y mae gan y meddyliwr adenydd.

Fel y byddwn ni yn dyfod yn fwy gwir ddynol, bydd y byd yn dyfod i ni yn fwy dwyfol.

Y llawenydd penaf a allwn ei gael oddiwrth un yr ydym yn ei garu ydyw ei weled yn ffynonell dedwyddwch i eraill.

Y mae llwyddiant yn curo unwaith o leiaf wrth ddrws pob dyn.

Os nad agori y drws i'r diafol, efe a gerdda ymaith.

Cronicl Cenadol.

Bryniau Khasia.

DOSBARTH SHILLONG.

LLYTHYR ODDIWRTH Y PARCH. T. JERMAN JONES.

Shillong, Medi 24ain, 1889.

Sabboth, y 18fed o Awst, yr oedd genym gyfarfod yn Nongkrem, ac yr oedd nifer da wedi d'od ynghyd o Myllim, Sadew, Mawklot, &c. Ond troes yr hin dipyn yn anffafriol, a chawsom nid ychydig o wlaw. Ond er hyny cawsom gyfarfodydd cysurus, a daeth rhai o'r pentref i wrando yr efengyl. Ar ol pregethu yn y boreu cawsom gyfarfod eglwysig. Yn hwn derbyniwyd un teulu i'r eglwys, yn cynnwys gŵr a gwraig a phlentyn. Yr oedd yn dda iawn gen ym weled y teulu hwn yn troi at yr Arglwydd, gan y byddant yn help a swcwr i'r achos bychan yn y lle. Pentref caled, balch, anwybodus a drwg iawn yw Nongkrem, un o'r rhai gwaethaf yn y wlad. Ond nid ydym yn anobeithio am dano, oblegid gallu Duw yw yr efengyl er iachawdwriaeth i bob un sydd yn credu. Yn y cyfarfod y prydnawn gweinyddwyd yr ordinhad o Swper yr Arglwydd.

Dydd Mawrth, Awst yr 20fed, aethom i lawr i Wmsaw, a chyrhaeddasom erbyn hanner dydd. Yr oedd amryw wedi ymgasglu ynghyd yno o'r pentref yn is i lawr. Am 2 ni a gawsom gyfarfod gyda'r holl ddynion i benderfynu ac unioni amryw faterion yr oeddynt yn methu eu penderfynu eu hunain; a gwastadhäwyd y cyfan er boddlonrwydd yr holl bleidiau. Am 4 pregethodd U Donroi a minnau, ac yr oedd yno gynnulleidfa dda yn gwrando; yna

aeth pawb ymaith i gael ymborth. Am 8 y nos cafwyd cyfarfod drachefn, yn yr hwn y bedyddiwyd tri mewn oed a saith o blant. Yna ni a gyfranogasom o Swper yr Arglwydd; yr oedd 20 yn eistedd o amgylch y bwrdd i gofio marwolaeth ein hanwyl Waredwr, ac yr oedd y Gŵr ei hunan fel yn agosâu at ei bobl ac yn maddeu iddynt, ac yn cysuro eu calonau. Mae rhywbeth hyfryd mewn cofio angeu y Gwaredwr yn y nos,—tawelwch ac eneiniad yn gorphwys ar yr holl wasanaeth. Wedi hyny aethom i'r tai i gysgu. Am 7 boreu drannoeth yr oedd yr holl bobl, yn feibion a merched, yn y capel, pryd y cafwyd gan y dynion hanes yr achos yn Wmsaw ac yn y pentrefi eraill. Adroddent pa fodd yr oeddent yn ceisio dwyn yr achos ymlaen; cyfaddefent eu diffygion a'u ffaeleddau, ynghyd a diffygion rhai o'r aelodau. Darfu i rai o'r merched hefyd siarad; cyfaddefent eu bod wedi bod ar fai, weithiau yn gadael i bethau bychain, dibwys, eu cadw o'r cyfarfodydd crefyddol, ond addawent wellhâu yn y dyfodol.

Wedi hyny rhoed amryw gynghorion ac annogaethau, yn benaf i'r blaenoriaid a'r prif ddynion, ar iddynt fod yn ddiwyd ac ymdrechgar yn edrych ar ol y praidd, yn eu dysgu a'u cynghori, myned i'r tai i edrych am y rhai absennol, edrych na byddo neb yn pallu oddiwrth ras Duw, neb yn cloffi ac yn troi o'r ffordd. Dywedai un, "'O'r rhai a roddaist i mi,' meddai Iesu Grist, 'ni chollais yr un o honynt, ond mab y golledigaeth.' Mae wedi ymddiried y rhai hyn i chwi i ofalu am danynt, ac fe fydd yn gofyn am danynt eto, a pheth mor ddifrifol os bydd eu hanner wedi colli trwy ein diofalwch, a'n segurdod, a'n difaterwch ni: ond mor hyfryd fydd gallu dyweyd, 'Ni chollais yr un o honynt.' Byddwch yn ddiwyd ac ymdrechgar yn y gwaith hwn, ymroddwch ati hi o ddifrif; os bydd dafad wedi myned ar gyfeiliorn, ewch ar ei hol i chwilio am dani, a pheidiwch gorphwys nes dyfod o hyd iddi a'i dwyn yn ol i'r gorlan. Byddwch ddiwyd i ddarllen a gweddio a chymdeithasu â Iesu Grist, Bugail mawr y defaid, a bydd iddo ef eich dysgu a'ch nerthu yn y gwaith." Yn wir ni a gawsom gyfarfodydd da iawn, a chredwn y gwnant ddaioni.

Wedi cael lluniaeth canwyd yn iach i'r dyeithriaid, ac aethant i'w cartrefi, ac arosais am enyd i ymddyddan â phobl Wmsaw, a rhoddi meddyginiaeth i'r cleifion. Maent yn llawer gwell ar ol symud y pentref i ben y bryn,—y gwŷr a'r gwragedd, a'r plant oll yn edrych yn iach a chryfion; nid oes braidd neb o honynt yn dyoddef dan *fever* yn awr. Maent hefyd wedi bod wrthi hi yn ddygn yn gorphen eu capel newydd—wedi ei *blastro* o fewn ac allan, ac wedi cael nifer o feinciau newyddion, a bwrdd newydd, o flaen yr hwn y pregethir yr efengyl. Mae yr adeilad yn edrych yn dda, yn gysurus a chyfleus, a digon helaeth i gynnal 300; ac wrth ei fod ar ben bryn uchel, mae i'w weled o bellderoedd o bob cyfeiriad. Diolch yn garedig i ddau neu dri o gyfeillion gartref a roisant gymhorth iddynt i'w orphen. Maent wedi gwneyd un peth rhagorol iawn ynglŷn â'r capel, sef adeiladu ystafell i'r prophwyd, a hono o geryg, yn mesur deg troedfedd wrth wyth. Mae drws, a ffenestr, a simdde a gwely ynddi, a chysgais ynddi y noswaith, —y tro cyntaf i mi ei meddiannu, a gallaf dystio ei bod yn lle rhagorol i gysgu. Yr oedd y bobl yn holl yn bryderus yn y boreu sut yr oeddwn wedi treulio y noswaith, ac yr oedd y gaumoliaeth yn eu boddhau yn fawr.

DOSBARTH SHELLA.

LLYTHYR ODDIWRTH Y PARCH. W. WILLIAMS.

"Laitkynsew, Hyd. 1af, 1889.

"Y MAE y gwaith yn myned rhagddo yn yr oll o'r pentrefi oddigerth Shella. Yn Dewsaw, un o'r pentrefi sydd dau ofal U Ksan, yr ydys wedi derbyn amryw yn ddiweddar i'r eglwys o ddynion ieuainc a chanol oed. Derbyniwyd rhai i'r eglwysi hefyd yn Mawdon, Lyngkin, a Moostoh. Yr ydym wedi derbyn tri yma yn Laitkynsew yn ddiweddar, ac y mae rhai eraill yn cynnyg eu hunain. O'r braidd yr wyf yn credu fy mod allan o'm lle wrth ddyweyd fy mod yn cael llawer iawn mwy o bleser i weithio yma nag yn Shella, ac fel rheol y mae y gynnulleidfa yma yn llawn cymaint ag ydyw yn Mawryngkong, Shella, lle y mae y cenadwr yn gwneyd ei gartref ar ddydd Sul pan yn aros yno.

Y mae yr hen ŵr, 90 mlwydd oed, yr ysgrifenais yn ei gylch dro yn ol, wedi cael ei dderbyn i'r eglwys, ac y mae wedi cael ei fedyddio hefyd. Y mae yn dal yn gadarn yn ei ymlyniad wrth "Enw yr Arglwydd Iesu," ys dywed yntau. Byddwn yn cynnal cyfarfod gweddi yn ei dŷ yn rheolaidd bob Sabboth ar ol oedfaon y capel, ac ymwelir âg ef yn rheolaidd gan yr athraw a minnau yn ystod yr wythnos i ddarllen y Bibl iddo ac i weddio gydag ef. Pan wedi gorphen gweddio a dyweyd y gair "Amen," adrodda y geiriau canlynol dair neu bedair o weithiau—"*Ha ka nám U Jisu Khrist.*" Gair wedi dyfod i fyny o'r Gwastadedd yw y gair *nám*, sydd yn golygu braidd yr un meddwl â'r gair *name* yn Saesoneg, felly "yn enw yr Arglwydd Iesu" neu "yn nghlodfored yr Arglwydd Iesu," yw y cyfeithiad o'r uchod. Yr oedd yna rai o'i berthynasau yn bur wrthwynebol iddo gofleidio Cristionogaeth. Ofnent na chawsent ei esgyrn i'w oladdu yn ol defod y Khasi ar ol llosgi y corff, gan ei bod yn arferiad yma yn Lait ymhlith y Cristionogion i gladdu y meirw. Creda y Khasiaid, druain, fod yn bwysig iawn i gael y darnau esgyrn sydd yn aros ar ol llosgiad corff hen ewythr er mwyn eu rhoddi gydag esgyrn eraill rhai o'r teulu o dan rhyw gareg neilltuol sydd wedi cael ei pharotoi i'r pwrpas. Os na cheir hyn credir fod perygl i hiliogaeth y teulu ddarfod.

Y mae U Ramjan, yr efengylydd, newydd fyned am daith i Maram, i dderbyn rhai i'r eglwysi yn Nongsynrih a Nongnah. Y mae U Ksan newydd ddychwelyd o Rangthong, lle y bu yn priodi dau bâr. Y mae efe wedi cael ei benodi er ys tua blwyddyn bellach yn *Registrar of Marriages*. Y mae hyn yn fendith ac yn arbediad mawr i mi, yn enwedig yn ystod y tymmor gwlyb. Fe all brodor fyn'd am daith pump neu chwe' diwrnod heb fawr iawn o drafferth, ond pan y byddaf fi yn myned, y mae yna gryn dipyn o ffwdan gyda'r bwyd, y gwely, a'r dillad, &c. Yn ystod teithiau, llawer gwaith yr wyf wedi dymuno bod yn Khasi.

PREGETH GAN U KYPA U ABEL.

Y Sabboth diweddaf cefais y fraint o glywed un o Maram yn pregethu yma yn Lait. Ei enw ydyw U Kypa U Abel ("Tad Abel"). Cymerodd yn destyn Luc xix. 9, "Heddyw y daeth iachawdwriaeth i'r tŷ hwn." Dechreuodd gyda rhagymadrodd hapus ynghylch Zacheus a'i awyddfryd i weled yr Iesu; yna daeth at y testyn, "Iachawdwriaeth yn y tŷ," a gofynai yn ddwys i'r bobl a oedd yr iachawdwriaeth yn eu tai? "Fe allai," meddai, "eich bod yn synu fy ngweled i, un o Maram, gwlad sydd yn cael ei chyfrif yn isel ac yn frwnt yn eich golwg, yn sefyll i fyny fel hyn o'ch blaen i ddyweyd gair. Fe fu amser yn fy hanes pryd na feiddiwn sefyll i fyny fel hyn o flaen dyeithriaid, ond fe ddaeth yr iachawdwriaeth hon i'm tŷ i, ac fe'm gwnaeth yn wrol, ac y mae wedi llanw fy nghalon â llawenydd. "Ac efe a ddisgynodd ar frys, ac a'i derbyniodd yn *llawen*." Ydych chwi wedi derbyn Crist yn llawen, gyfeillion? Y mae Crist a'i waed yn gallu gwneyd pobl yn llawen ac yn lân. Y mae yr iachawdwriaeth wedi cyrhaedd Maram i wneyd pobl yn llawen ac yn lân. Gwelaf fod yma anryw yn y gynnulleidfa â'u dillad yn lân, yn wŷnion. Wel, beth am yr enaid? a ydyw efe yn lân,—a ydyw efe wedi cael ei olchi yn y gwaed? Pethau i ddarfod ydyw y dillad, yr addurniadau, yr aur, a'r arian, ond dyma beth i barhâu yn dragywyddol. Gwneyd ewyllys Duw fel Zacheus; mae hyn yn llanw yr enaid â llawenydd—yn llanw yr enaid â Duw. A ydyw eich calon, neu eich enaid, ddim bron a *bursto* (dyna'r gair) weithiau gan y llawenydd hwn yn eich hanes? Y mae y llawenydd hwn yn dangos ei hun mewn tosturi, mewn trugaredd, "Wele hanner fy nâ, O Arglwydd, yr wyf yn ei roddi i'r tlodion." Tosturiwch, gyfeillion, wrth eich cyd-ddynion sydd yn aros mewn tywyllwch yn y wlad hon. Y mae yr iachawdwriaeth hon yn dwyn gobaith i'r ensid hefyd. Oni buasai am y gobaith hwn ni feiddiwn sefyll yn y fan hon. Ychydig amser yn ol yr oedd arnaf eich ofn, ac yr oedd arnaf ofn y *Saheb* hefyd. Pe dygwyddai i ni weled Saheb yn rhywle, rhedem am ein bywyd, gan gwympo ar ein gwynebau yn yr ymdrech; ond bellach nid oes arnaf eich ofn chwi nac yntau. Y mae gras Duw wedi ein dwyn yn nês at ein gilydd. Y mae Duw, trwy y cymmod, wedi ein gwneyd yn un. Edrychaf arnoch fel tad a mam, fel brodyr a chwiorydd. Un cnawd, un ysbryd, un meddwl, un penderfyniad sydd bellach; gwneyd ewyllys Duw; yr hyn sydd yn ein parotoi ar gyfer y nefoedd, pentref glân Duw. Cofia dy Dduw, O gyfaill, a thi a gei gaunoliaeth fel y cafodd Zacheus."

Cefais lês i'm henaid wrth ei wrando yn pregethu. Y mae "Tad Abel" yn athraw teithiol yn Maram. Efe ac U Sing, am yr hwn yr ysgrifenais o'r blaen, ydynt y rhai cyntaf i ddwyn tystiolaeth dros Grist yn y rhan yna o'r wlad. Y mae "Tad Abel" yn ddyn o gryn ddylanwad ymhlith ei bobl. Ar ei dir ef yr adeiladwyd y capel yn Rangthong, ac y mae wedi rhoddi darn helaeth o dir fel "tir cenadol," ac y mae efe ynghyd ag eraill wedi symud yno i fyw.

Yr wyf yn danfon i chwi gopi o "*Manipuri Grammar*." Y mae yno boblogaeth o 221,070, heb yr un cenadwr yn eu plith, a chwi a welwch oddiwrth y Rhagymadrodd ei bod yn wlad iach i fyw ynddi. Gwyn fyd na fuasai ein Cenadaeth ni yn gweled ei ffordd yn glir i ddanfon rhywun yno. Os bydd eisieu *volunteer*, yr wyf fi yn barod i gychwyn, nid am fy mod wedi cael digon ar Khasia, ond am fy mod yn teimlo awydd i "bregethu yr efengyl y tu hwnt" (2 Cor. x. 16). Awn yno ar delerau neilldnol hefyd. Byddwn yn barod i dalu yr oll o'r treuliadau teithio, ac i adeiladu tŷ fy hunan, a'i gadw mewn *repairs* gyda'r cyflog presennol. "Y cynauaf yn ddiau sydd fawr, ond y gweithwyr yn anaml: am hyny attolygwch i Arglwydd y cynauaf anfon gweithwyr i'w gynauaf."

Brynian Jaintia.

DOSBARTH SHANGPOONG.

RHANAU O LYTHYR ODDIWRTH Y PARCH. ROBERT EVANS.

Shangpoong, Hydref 1, 1889.

MAE yn dda genyf ddyweyd wrthych fod yma ychydig o adfywiad crefyddol er ys tua thri mis Yr wyf yn dyweyd "ychydig" rhag ofn tori dros derfynau gwirionedd; ond i mi y mae y cyfnewidiad yn fawr iawn. Gobeithiaf y parha, y cynnydda mewn nerth ac yr ymleda i ranau eraill y wlad. Dywedais wrthych mewn llythyrau o'r blaen, ein bod wedi cael amryw gyfarfodydd rhyfedd ar ein teithiau, pryd yr oedd yr Ysbryd Glân yn ddiammheuol yn bresennol. Teimlem er ys blynyddoedd awydd cael mwy o ddylanwadau ysbrydol nag oeddym yn gael, a chredem y pryd hwnw nad oedd yr amser ymhell. Ar ol neilldno diwrnod i weddio am yr Ysbryd Glân ddechreu y flwyddyn hon, credem fod yr amser bron ar wawrio, a bod yr Arglwydd yn unig yn profi ein ffydd. Nid oedd dim byd neilldnol yn Shangpoong hyd o fewn tua thri mis yn ol.

Er hyny yr ydym wedi cael cyfarfodydd hyfryd, ac arogl esmwyth arnynt. Nid oes yma na bloeddio na chynhwrf o fath yn y byd. Nid effaith tararau a mellt sydd yma, ond effaith y "llef ddystaw fain;" ond er fod yr effaith fel yr achos yn ddystaw, nid oes er hyny un ammheuaeth am ei fodolaeth. Mae yr adfywiad wedi dechreu yn arweinwyr yr Eglwys; ac nid yw ond peth naturiol, wedi i'r pen wellhau, i'r corff a'r aelodau gyfranogi o'r effeithiau. Mewn canlyniad i hyn, y mae yma fwy o zel a gweithgarwch cyffredinol, ac awydd i eangu terfynau llywodraeth yr Arglwydd Iesu. Yr wyf wedi gwrando mwy o *brofiad* yn yr eglwys yn ystod y misoedd diweddaf nag a wrandewais er ys pan wyf yn y wlad. Byddai rhai o'r blaen yn adrodd profiadau pan ofynid iddynt; ond ni byddai genyf 'weledigaeth eglur" am lawer o honynt. Yn awr, pa fodd bynag, teimlwn ein bod yn cael profiadau o eigion calonau amryw o'r Cristionogion. Mae yma rai yn tori i lawr wrth weddïo yn gyhoeddus, peth na welais mo hono erioed mewn Khasi o'r blaen; a theimla llawer o'r rhai sydd yn arfer pregethu, eu bod yn cael mwy o afael wrth bregethu.

Er llawer o adgyfnerthiad i mi fy hun, yr wyf wedi cael llawer o brofion yn ddiweddar fod yr Arglwydd yn gwneyd defnydd go fawr o honof fi fel offeryn i ddwyn pobl ato. Mae hyn yn profi ei fod yn gallu gwneyd defnydd o bob math, ac mai nid mewn "godidowgrwydd ymadrodd" y mae nerth yr efengyl. Yn ystod y misoedd diweddaf yr wyf wedi cyfarfod âg amryw oeddynt wedi bod yn ymgyndynu, a'r efengyl wedi eu gorchfygu. Dywedodd un dyn wrthyf heddyw ei fod eisieu rhoddi ei hunan i Grist. Gofynais iddo pa fodd yr oedd efe yn teimlo. Dywedai, "Gair a ddywedasoch wrthyf tua blwyddyn yn ol, a ddechreuodd godi ofn arnaf." Beth oedd hwnw," meddwn. "Dywedasoch," meddai, "fy mod mewn perygl mawr, fy mod yn cyfeillachu â'r Cristionogion ac heb ymgymmodi â Duw. Dywedasoch fy mod yn chwareu â pheth fyddai yn sior o fy lladd, fel dyn yn chwareu wrth drwyn dryll llwythog." Dywedai nas gallai oddef y perygl yn hwy, ac mai yn Nghrist yn unig y byddai yn ddyogel.

Daw y diaconiaid ac eraill ataf i adrodd eu teimladau, a byddwn yn adrodd y naill wrth y llall nes na byddwn yn aml yn gwybod yn iawn pa le y byddwn. Yr wyf wedi cael tua phymtheg o gyfarfodydd i adrodd ac egluro *i aith y Pererin* yn ystod yr haf yma; ac yr wyf yn credu fod yr Arglwydd wedi bendithio y rhai hyn yn fawr. Yr wyf yn sylweddoli na bu erioed amser mwy pwysig ar grefydd yn y wlad yma nag ydyw yn awr; ac yr wyf yn erfyn ar bobl dduwiol Cymru i weddïo yn neilldnol drosom. "O frodyr (a chwiorydd), gweddïwch drosom." Dymunwn i chwi gofio fod ein Heraduriaeth i gael ei chynnal yma ar y 23, 24, a'r 25 o'r mis nesaf (Tachwedd). Cyd-dynwch â ni yn rhaffau yr addewidion fel y byddom yn cael tywalltiad helaeth o'r Ysbryd Glân. Y mae Efe wedi ei addaw yn y dyddiau diweddaf, a'r rhai hyny yw y rhai hyn. Mae yr amser wedi dyfod i drugarhau wrth Sïon, oblegid y mae y gweision yn hoffi ei meini, ac yn tosturio wrth ei llwch hi. Mae yma ymddyheuad mawr a gwirioneddol am hyn.

Llydaw.

Llythyr oddiwrth y Parch. W. Jenkyn Jones.

Quimper, Tachwedd 8fed, 1889.

"Yr ydym bellach wedi dechreu ar y tymmor gauafol gyda'n cyfarfodydd. Yn yr haf bydd nifer ein gwrandawyr lawer yn llai, oblegid fod rhai yn fwy prysur gyda'u gorchwylion, ac eraill yn cymeryd eu denu gan y tywydd teg i fyned i rodiana. Er i ni eleni allu cadw i fyny ein cyfarfodydd yn well nag arfer yn ystod yr haf, yr ydym yn llawenhau i weled y gauaf yn dyfod, a'n hystafelloedd yn cael eu llenwi drachefn. Byddaf yn cynnal tri o gyfarfodydd bob Sabboth yn bresennol; yn Quimper, boreu a nos, ac yn Pont l'Abbé a Douarnenez y prydnawn bob yn ail Sabboth. Cynnelir y cyfarfod yn yr ystafell genadol yma bob nos Sabboth a nos Iau, a chawn gynnulleidfa lled dda. Nid heb wrthwynebiadau y daw y bobl ynghyd. Y mae gan yr offeiriaid eu hysbïwyr i ddwyn iddynt bob hanesion am y cyfarfodydd, ac enwau y rhai sydd yn eu mynychu; ymwelir â'r tai gan yr offeiriaid a'r "chwïorydd trugaredd" i'r dyben o berswadio y bobl i gadw draw o'r cyfarfodydd, a llwyddir i attal rhai i ddyfod. Byddwn ninnau yn fynych yn ymweled â'r dref a'r wlad o gwmpas gyda'r Biblgludwyr, a chawn brofion fod y bobl yn dyfod i edrych arnom gyda theimladau mwy caredig, er eu bod yn ofni dyfod i'n cyfarfodydd. Yr wythnos ddiweddaf, pan yn ymweled felly â rhan o'r dref, synwyd ni wrth weled cynifer o bobl yn cydnabod fod y grefydd Brotestanaidd yn nês i'r gwirionedd. Dywedid hyny wrthym yn y rhan fwyaf o'r tai yr ymwelsom â hwy, a llwyddasom i werthu amryw o Destamentau. Weithiau gwelir cyfnewidiad amlwg yn wynebau y bobl, ac wrth glywed darlleniad o ran o'r Ysgrythyr gwnant sylwadau a ddengys fod eu rhagfarn yn syrthio. Cofiaf yn dda am un wraig oedd ar y dechreu yn rhagfarnllyd; elai ymlaen gyda'r gorchwyl o drin eu hymenyn *(aman)*, ond wedi i ni ddarllen gwyrth y pum' torth, sylwodd yn sydyn, "Pebez galloud! hen a oue kapabl da gontanti kement a dud gant nebeud a dra!" ("Y fath allu; hwn [efe] oedd yn alluog i ddiwallu cymaint o bobl gydag ychydig o beth!") Y mae y rhagfarnau yn raddol ddarfod, a dylanwad *moesol* yr offeiriaid wedi darfod i raddau helaeth; ac er fod arferiad yn ddeddf gref yn y wlad hon, y mae y bobl yn dyfod bellach i weled gwerth eu rhyddid ac yn dechreu ei ddefnyddio. Er gwaethaf ym-

drechion yr offeiriaid a'u plaid, cawn gyfarfodydd lluosog, a dyfnhâ yr astudrw dd a'r difrifoldeb yn y rhai sydd yn eu mynychu. Gwelir weithiau yn ein cyfarfodydd rai o'r cyndyn-ddadleuwyr, a chanfyddir oddiwrth eu gwrandawiad Stoicaidd mai beirniadu a ystyriant fel eu gwaith neilduol hwy. Wrth ddychwelyd o un o'n cyfarfodydd yn ddiweddar daeth un ymlaen atom, gan ein cyfarch drwy dynu ei het, a'r gair cyntaf a ddywedodd oedd: "Athronydd ydwyf fi," a gwelem oddiwrth hŷd ei wallt a'i farf, mai yno y tybiai fod cuddiad cryfder yr athronydd. Yr oedd, meddai, wedi teithio llawer, ac wedi gweled llawer math o grefyddau, ond nid oedd erioed wedi gweled Duw yr un o honynt. Ceisiasom ei berswadio i edrych mwy i fewn iddo ei hun, er mwyn ei aduabod ei hun, a cheisio cael allan ei ddyledswydd ac ymgyrhaedd at ei chyflawni—y byddai felly yn llawer tebycach o gael gafael ar Dduw; a mwy na'r oll, i ddarllen y Bibl, lle y ceir yr hanes am Dduw yn dadguddio ei hun yn Iesu Grist. Parhaodd yr ymddyddan rhyngom hyd hanner awr wedi deg y nos, a dymunais arno ddyfod i'r tŷ i gael ymddyddan helaethach; ond nis gwelais ef drachefn. Y mae llawer o'r dosbarth hwn yn y wlad.

Yn Douarnenez, prydnawn y Sabboth diweddaf, yr oedd yr ystafell (yr hon sydd yn llawer mwy cyfleus a hwylus na'r un oedd genym o'r blaen) yn lled lawn, ac nid wyf yn meddwl i mi gael cynnulleidfa fwy astud erioed. Gwrandawai y bobl â'u llygaid a'u clustiau, ac ymddangosai rhai o honynt fel yn teimlo oddiwrth y gwirionedd, er nad yw yn natur y Llydawiad, fel y Ffrancwr, i ddangos ei deimladau. Pregethais oddiar eiriau Ruth: "Dw bobl di fydd fy mhobl innau, a'th Dduw di fydd fy Nuw innau." Yr oedd mwy o ddifrifoldeb yn y bobl nag a welais erioed; nid oedd dim o'r agwedd feirniadol i'w weled ar neb yn eu plith. Dychwelais oddiyno, gan gredu fod y gwaith mawr yn myned yn ei flaen, ac "yr oedd ein calon yn llawen." Ar ddiwedd y cyfarfod daeth dau o'r pysgotwyr, sydd eisoes yn aelodau, i'm hebrwng at y trên, a mynegent eu teimlad o lawenydd wrth weled cynifer o bobl yn dyfod i wrando; ac yr oedd, meddent, fwy drachefn yn y cyfarfod nos Wener, a'r cyfarfod Biblaidd nos Sadwrn. Dywedent wrthyf hefyd fod dau arall yn penderfynu bwrw eu coelbren gyda ni, ac yn dymuno cael nesâu at fwrdd yr Arglwydd y Nadolig. Yn unol â'u dymuniad, credwn ei bod yn ddyledswydd arnom bellach i wneyd symudiad ymlaen yn y lle hwn, a rhoddi cymundeb yn y lle; felly os gwel Duw yn dda, byddwn yn cael y pleser a'r anrhydedd o amgylchu y bwrdd am y tro cyntaf erioed yn Douarnenez ddiwedd y flwyddyn hon. Y mae y golofn yn symud, a diolch i Dduw o eigion calon am hyny. Diau genyf y bydd y symudiad newydd hwn yn destyn gweddi a diolch i lawer yn Nghymru, ac y gwnewch ymuno â ni i ofyn am i Dduw roddi sêl ei fendith ar ein gwaith. Nis gallaf beidio ymattal hefyd heb ddiolch i'r lliaws cyfeillion sydd wedi amlygu eu cydymdeimlad â'n llafur yn Llydaw yn ystod y misoedd diweddaf.

Y mae Mr. Groignec a'r ddau Fibligludydd arall yr wythnosau hyn yn ymweled â'r holl dai yn Douarnenez a'r wlad oddiamgylch, ac yn cael gwell derbyniad nag a gawsant erioed o'r blaen. Dywed Mr. Groignec fod gwahaniaeth rhyfedd yn ymddangos yn ysbryd y bobl oddiwrth yr hyn ydoedd ychydig flsoedd yn ol; dysgwyliaf gael adroddiad ganddo erbyn y mis nesaf.

Bydd yn ddrwg gan gyfeillion achos yr Iesu yn Llydaw ddeall fod M. Berthe, gweinidog zelog yr eglwys yn Brest am un mlynedd ar ddeg, wedi ein gadael er diwedd mis Medi. Fel y bu fyw y bu farw, a'r cryman yn ei law. Yr oedd yn cynnal cyfarfod yn un o'r ystafelloedd cenadol yn y dref y nos Iau, er ei fod eisoes yn teimlo ymosodiadau cyntaf y gelyn diweddaf. Drannoeth aeth i Morlaix am ychydig seibiant; tarawyd ef gan y parlys brydnawn Sadwrn, a bu farw ddydd Llun. Cafodd gladdedigaeth barchus, a theimlid gan bawb mai gwas i Grist ydoedd, wedi cael gorchymyn i esgyn i fyny. Wedi marw bydd yn llefaru eto."

Derbyniwyd llythyr hefyd oddiwrth Mr. Evan Jones, yn rhoddi hanes amryw deithiau gyda'r Bibligludwyr trwy y rhanau o'r wlad o amgylch Pont l'Abbé. Byddent yn cael derbyniad siriol ar y cyfan. Mae y gwrandawyr yn Pont l'Abbé yn cynnyddu mewn nifer ac mewn astudrwydd.

PWYLLGOR Y JIWBILI.

Cyfarfu Pwyllgor y Jiwbili yn yr Amwythig, Hydref 23ain. Yr oedd yn bresennol, y Parchn. J. Williams, Dwyran; W. Roberts, Llanrwst; J. Davies, Bontddu; H. Roberts, Llanerchymor; Dr. Dickens Lewis, John Thomas, Gosen, ger Aberystwyth; Josiah Thomas, E. J. Evans, Walton; a Mri. Robert Rowland, U.H., Pwllheli; Peter Roberts, Llanelwy; Evan Jones, Bala; J. Williams, Moss Bank; W. Griffith, Rock; J. R. Jones, E. Pugh, Liverpool, ac E. Owen, Bootle. Dewiswyd Mr. Rowland, Pwllheli, yn Gadeirydd y Pwyllgor.

I. Cydolygid mai priodol i ni ar derfyn y ddegfed flwyddyn a deugain o weithrediadau y Genadaeth ydyw cydnabod yr Arglwydd am yr amddiffyn sydd wedi bod ar y rhan hon o'i waith, ac am y llwyddiant nodedig sydd wedi dilyn llafur y Cenadon, ac fod yr achlysur yn un sydd yn galw arnom i wneyd ymdrech arbenig o blaid yr achos cenadol.

II. Sylwyd fod yr amcanion canlynol i'w cadw mewn golwg mewn cysylltiad â'r ymdrech neilduol sydd i'w gwneyd ar flwyddyn y Jiwbili:—1. Darparu moddion i roddi manteision addysg i bregethwyr brodorol yn Khasia, Jaintia a Sylhet, fel ag i'w parotoi i fod yn weinidogion cymhwys i'w cydwladwyr. 2. Cyfarfod â'r anghen neill-

duol ar yr adeg bresennol yn Sylhet, pan yn ail-gychwyn y gwaith cenadol yno. 3. Trefnu y moddion anghenrheidiol i wneyd y Genadaeth Feddygol yn effeithiol.

III. Yn ystod yr ymdrech gyda'r Jiwbili, penderfynwyd fod dau o frodyr i gael eu penodi yn Ysgrifenyddion i gydweithredu âg Ysgrifenydd Cyffredinol y Gymdeithas i ddwyn y symudiad ymlaen, y naill o'r Deheudir a'r llall o'r Gogledd. Y mae y Parch. W. James, Aberdâr, a'r Parch. G. Ellis, M.A., Bootle, wedi cydsynio i fod yn Ysgrifenyddion.

IV. Penderfynwyd fod un Trysorydd Cyffredinol i Gyllid y Jiwbili, ac fod y Cyfrif i'w gadw yn agored hyd Mawrth 31ain, 1891. Mae Mr. Edward Davies, U.H., Llandinam, wedi cydsynio i weithredu fel Trysorydd.

V. Fod y Cadeirydd, y Trysorydd, y tri Ysgrifenydd, a thri a ddewisir gan y Cyfeisteddfod Gweithiol, i fod yn Bwyllgor Gweithiol y Jiwbili.

VI. Penodwyd nifer o frodyr i ymweled â phob Cyfarfod Misol a Henaduriaeth o hyn hyd ddiwedd Chwefror, i annog i zel ac ymdrech neillduol o blaid y symudiad. I ymweled â Sir Fôn,—Y Parch. E. Jones, Caernarfon; Arfon, y Parch. J. Williams, Dwyran; Lleyn ac Eifionydd, Mr. P. Roberts, Llanelwy; Gorllewin Meirionydd, Mr. T. Lewis, A.S.; Dwyrain Meirionydd, Mr. R. Rowland, U.H., Pwllheli; Dyffryn Conwy, Mr. J. Williams, Moss Bank; Dyffryn Clwyd, y Parch. J. Davies, Bontddu; Sir Fflint, y Parch. Dr. Hughes, Caernarfon; Trefaldwyn Uchaf, y Parch. O. Jones, B.A., Liverpool; Trefaldwyn Isaf, y Parch. D. Lloyd Jones, M.A.; Henaduriaeth Lancashire, y Parch. E. Parry, M.A., Drefnewydd; Henaduriaeth Trefaldwyn, Mr. J. Herbert Roberts, U.H.; Liverpool, y Parch. Dr. Dickens Lewis; Manchester, Mr. J. Herbert Lewis, U.H.; Gogledd Aberteifi, y Parch. J. Evans, Abermeurig; Dehau Aberteifi, y Parch. T. Levi; Sir Gaerfyrddin, y Parch. *Principal* Edwards, D.D.; Sir Benfro, y Parch. W. James, Aberdar; Gorllewin Morganwg, Mr. W. Abraham, A.S. (Mabon); Dwyrain Morganwg, y Parch. W. John, Penybont; Sir Fynwy, y Parch. Rees Evans, Llanwrtyd; Sir Frycheiniog, Mr. W. Griffiths, Rock; Henaduriaeth Morganwg, Mr. E. Davies, U.H., Llandinam.

VII. Annogwyd fod i un cyfarfod cenadol grymus gael ei gynnal hyd y byddo yn bosibl yn mis Mawrth, mewn rhyw fan canolog yn nghylch pob Cyfarfod Misol.

VIII. Penderfynwyd fod yr Ysgrifenydd i barotoi hanes y Genadaeth yn Saesoneg yn gystal ag yn Gymraeg.

RHODDION I'R GENADAETH.

Yn ychwanegol at y rhoddion a dderbyniwyd oddiwrth amryw gyfeillion yn Aberystwyth i'w hanfon i'r Parch. J. Ceredig Evans at wasanaeth cenadol, ac a gydnabyddwyd yn ein rhifyn diweddaf, derbyniwyd sypynau hefyd oddiwrth Mr. a Mrs. Ebenezer Morgan, Pier Street; Mrs. Richard Jones, Williams Street; a Mr. William Evans, Poplar Row. Anfonwyd hefyd svpyn i'r Parch. John Jones gan Mr. John Thomas, Myrtle Street, Liverpool.

CYLLID Y GENADAETH,

Dymunwn ddwyn ar gof i Drysoryddion lleol y Genadaeth ac i'n holl swyddogion eglwysig fod blwyddyn arianol y Genadaeth yn terfynu ar ddiwedd Rhagfyr. Os oes rhyw leoedd eto heb wneyd y casgliad cenadol eleni, taer erfynir ar iddo gael ei wneuthur yn ddioedi. Gofaler am gael rhyw bersonau cymhwys i alw yn bersonol gyda phob aelod o'r gynnulleidfa a dwyn sefyllfa y Genadaeth i'w sylw,—ei llwyddiant, yr ychwanegiadau yn y treuliadau a'r anghenrheidrwydd am gynnydd yn y casgliadau tuag i'r gwaith gael ei ddwyn ymlaen yn effeithiol. Byddai yn hawdd i'r plant ymhob eglwys, yn ystod pythefnos neu dair wythnos o fis Rhagfyr, ond iddynt gael eu cyfarwyddo, wneyd ychwanegiad pwysig at gyllidau y Genadaeth.

DERBYNIADAU AT Y GENADAETH.

Dymuna y Trysorydd Cyffredinol gydnabod yn ddiolchgar dderbyniad y symiau canlynol er yr hysbysiad diweddaf:—

	£	s.	d.
Casglwyd gan blant Capel Granville Street, Birmingham	2	0	0
A. B. C. Ch...	2	0	0
Cyfaill	0	5	0
Newsham Park, Liverpool	18	1	4
Stanley Road, Bootle	41	3	5
Sir Fynwy	1	0	0
Sir Fôn	500	0	0
Kenchester, Blychau Cenadol ..	7	5	6
Mr. W. Rowlands, trwy law y Parch. T. Hughes, Kenchester, tuag at yr Ysbytty yn Jiwia	0	10	0
J. a S. R. ar yr 11eg o Tachwedd, "gyda diolchgarwch am drugareddau y flwyddyn," tuag at Ysbyty Jiwai	1	0	0
Casgliad yn Mhorthaethwy ar ol Anerchiad gan Dr. Griffiths ..	5	7	4

Tach. 19, 1889.

Derbynir rhoddion at y Genadaeth gan y Trysorydd, David Hughes, Esq., J.P., 4, *William Moult Street, Liverpool.*

☞ Gellir talu unrhyw swm mewn unrhyw gangen o'r *North and South Wales Bank, to the credit of Mr. David Hughes, Treasurer of the Welsh C. M. Foreign Missionary Society.* Gofaler am i bob *cheque* neu *Postal Order* a anfonir fod yn "crossed."

Derbynir rhoddion at Drysorfa Gweddwon ac Amddifaid Cenadon, &c., gan J. Herbert Lewis, Esq., J.P., *Central Buildings, North John Street, Liverpool.*

Pob llythyrau yn achos y Gymdeithas i'w cyfeirio i'r Ysgrifenydd, *The Rev.* Josiah Thomas, M.A., 28, *Breckfield Road South, Liverpool.*

P. V. EVANS A D SON, ARGRAFFWYR, TREFFYNNON.



Yr eiddoch yn gywir

Hugh Jones

Engraved by R.RAPKIN.